# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 25 Mawrth a 1 Ebrill 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

24 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

37 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

52 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

56 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

75 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

85 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Ôl-Daliadau Pensiwn i Gyn-Weithwyr Allied Steel and Wire

**Owen John Thomas:** A yw'r Prif Weinidog wedi derbyn ymateb oddi wrth Andrew Smith AS ynghylch ôl-daliadau pensiwn i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire? (WAQ33326)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid yw Andrew Smith AS wedi ymateb eto i'r llythyr ynglŷn â deddfwriaeth ôl-weithredol yn ymwneud â thaliadau pensiwn i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire.

### Contractau Fframwaith

**Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Weinidog restru'r tendrau unigol a lofnodwyd o dan y contractau fframwaith? (WAQ33540)

**Y Prif Weinidog:** Mae'n anymarferol rhestru'r tendrau unigol a lofnodwyd o dan drefniadau fframwaith oherwydd nifer y tendrau dan sylw.

### Nifer o Gerbydau Gweinidogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

**Jonathan Morgan:** Faint o gerbydau gweinidogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ33564)

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ30398.

### Cerbydau Gweinidogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

**Jonathan Morgan:** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar ddarparu a rhedeg cerbydau gweinidogol yn a) 1999, b) 2000, c) 2001, ch) 2002 a d) 2003? (WAQ33565)

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb o roddwyd i WAQ30399. Y gwariant yn 2003-04, hyd yma, yw £55,000.

### Penodi Cwnsler Cyffredinol Cymru

**Nick Bourne:** A fydd ymchwiliad annibynnol yn cael ei sefydlu i'r modd yr ymdriniwyd â'r broses o benodi Cwnsler Cyffredinol Cymru? (WAQ33566)

**Y Prif Weinidog:** Nid oes cynlluniau o'r fath.

### Pensiynau Allied Steel and Wire

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet yn San Steffan o ran pensiynau Allied Steel and Wire? (WAQ33581)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn dal i gyflwyno sylwadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ran aelodau cynllun pensiwn ASW. Ar 22 Mawrth, derbyniais ymateb oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Andrew Smith AS, i'm cais diweddaraf i gynnwys darpariaeth yn y Mesur Pensiynau gogyfer ag aelodau cynlluniau pensiwn sydd, megis cynllun pensiwn ASW, yn y broses o gael eu dirwyn i ben.

Yn ei lythyr, fe'm hysbyswyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn dal yn llwyr ymwybodol o sefyllfa anodd cyn-weithwyr ASW, a bod ei adran yn parhau i ystyried o ddifrif a ddylid darparu cymorth yn y

sefyllfa hon. Mae nifer o faterion anodd i'w hystyried yn ymwneud ag ôl-weithredu a chynsail, ond byddaf yn dal i bwyso am i bob trywydd gael ei ystyried er mwyn canfod ffyrdd o ddigolledu aelodau'r cynlluniau pensiwn hynny sy'n cael eu dirwyn i ben.

**Bil Cyflogau'r Cynulliad Cenedlaethol**

**Nick Bourne:** Faint yw bil cyflogau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y flwyddyn gyfredol, gan gynnwys costau yswiriant gwladol, a faint oedd y costau ym mhob blwyddyn ers 1999? (WAQ33595)

**Y Prif Weinidog:** Mater i Swyddfa'r Llywydd yw cyflogau Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, yn cynnwys yswiriant gwladol.

**Costau Cyflogau'r CCNC**

**Nick Bourne:** Beth yw costau cyflogau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan gynnwys yswiriant gwladol, ar gyfer y flwyddyn gyfredol a beth oedd y costau cyflogi ar gyfer bob blwyddyn ers 1999? (WAQ33596)

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r wybodaeth a geisir yn cael ei chasglu'n ganolog, ond mae'r ffigurau am bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar gael yn yr adroddiadau a'r cyfrifon blynyddol y maent yn eu cyhoeddi. Mae copïau ohonynt yn y Llyfrgell.

**Effaith Cyllideb y Canghellor ar Gymru**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y bydd cyllideb 2004 Canghellor y Trysorlys yn ei chael ar Gymru? (WAQ33653)

**Y Prif Weinidog:** Mae cyllideb y Canghellor yn newyddion da i Gymru. Mae'n cefnogi cyfeiriad polisi Llywodraeth y Cynulliad drwy ddarparu mesurau i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth, gwella'r cydbwysedd o ran cyfleoedd cyflogaeth o safon ar draws y DU, creu cymdeithas decach, cyflenwi gwell gwasanaethau cyhoeddus a diogelu'r amgylchedd.

**Goblygiadau Ymosodiad Terfysgol ar Gymru**

**William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y goblygiadau i Gymru os bydd terfysgwyr yn ymosod ar y DU? (WAQ33656)

**Y Prif Weinidog:** Byddai goblygiadau i Gymru o unrhyw ymosodiad terfysgol yn unrhyw le yn, neu ar, y DU, waeth ymhle y digwyddai, a byddai gofyn i'r awdurdodau cyhoeddus i gyd weithio gyda'i gilydd i ymateb. Mae Llywodraeth y DU yn cryfhau ei gallu yn genedlaethol i gynllunio a pharatoi ar gyfer ymosodiadau terfysgol, delio â nhw a dod dros yr effeithiau, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae rhan weithgar yn y broses hon ac mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu gallu gwrthsefyll cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau brys ac asiantaethau eraill yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu eu gallu a'u capasiti i ddelio â digwyddiadau terfysgol ymhellach. Mae'r Mesur Paratoadau Sifil newydd yn darparu deddfwriaeth y gellir ei defnyddio ar fyrder ac yn effeithiol i gyflenwi'r mesurau brys sy'n ofynnol i ddelio ag ymosodiadau terfysgol ac argyfyngau o bob math.

**Etholiadau Llywodraeth Leol ac Ewropeaidd**

**Jenny Randerson:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cadw cyfnod *purdah*, gan osgoi gwneud cyhoeddiadau polisi mawr yn ystod yr wythnosau cyn yr etholiadau llywodraeth leol ac Ewropeaidd? (WAQ33862)

**Y Prif Weinidog:** Ydy. Er mwyn osgoi unrhyw ymdeimlad ein bod yn ceisio dylanwadu ar ganlyniad yr etholiadau lleol, ni fyddwn yn gwneud cyhoeddiadau na phenderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar awdurdodau lleol rhwng 17 Mai a 10 Mehefin, ac eithrio mewn argyfwng neu sefyllfaoedd cyffelyb. Ni fyddwn ychwaith yn darparu atebion terfynol i Gwestiynau'r Cynulliad na gohebiaeth am faterion felly yn ystod y cyfnod hwnnw, fel yr hysbysodd y Trefnydd y Pwyllgor Busnes yr wythnos hon. Yr wyf hefyd wedi atgyfnerthu'r cyngor sefydlog i'm cyd-Weinidogion ynglŷn â'r angen i gadw eu dyletswyddau fel Gweinidogion a'u dyletswyddau plaid ar wahân, ac osgoi unrhyw bosibilrwydd y câi adnoddau swyddogol eu defnyddio at yr ail bwrpas.

Ni fydd moratoriwm o'r fath ar faterion Ewropeaidd, gan fod gormod o bellter rhwng cyfrifoldebau'r Cynulliad a rôl Senedd Ewrop i achosi unrhyw argraff gredadwy fod penderfyniadau'r Cynulliad yn ceisio dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad.

**Cost Hysbysebu Swyddi yn y Cynulliad a CCNC**

**Leighton Andrews:** Faint o arian a wariwyd ar hysbysebu swyddi yn *The Western Mail* gan y Cynulliad a CCNC ym mlwyddyn ariannol 2002-03? (WAQ33887)

**Y Prif Weinidog:** Gwariwyd tua £575,000 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hysbysebu swyddi ym mlwyddyn ariannol 2002-03. Nid yw'r wybodaeth am CCNC yn cael ei chadw'n ganolog.

**Effeithiolrwydd Hysbysebion Recriwtio gan y Cynulliad a CCNC**

**Leighton Andrews:** Pa werthusiad sydd wedi'i wneud o effeithiolrwydd yr hysbysebion recriwtio sy'n cael eu rhoi gan y Cynulliad a CCNC yn *The Western Mail*? (WAQ33888)

**Y Prif Weinidog:** Cofnodir gwybodaeth i ddweud ym mha gyhoeddiad y gwelodd ymgeiswyr gyfle recriwtio bob tro y caiff swydd ei hysbysebu yn y wasg. Caiff y wybodaeth honno ei choladu'n flynyddol. Yn y cyfnod 2002-03, deilliodd 45 y cant o'r ymatebion a gawsom o hysbysebion yn *The Western Mail*. Bydd y polisi hysbysebion recriwtio yn cael ei adolygu'n ddiweddarach eleni a bydd y wybodaeth hon yn elfen benodol yn y gwerthuso.

Nid yw'r wybodaeth am CCNC yn cael ei chadw'n ganolog. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i CCNC ymgymryd â'u busnes gan roi ystyriaeth briodol i ddefnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, mae'n ofynnol iddynt adolygu eu gwasanaethau a'u gweithgareddau yn rheolaidd—bob pum mlynedd yw'r amserlen a awgrymir—a thrwy eu cynlluniau corfforaethol dylent allu dangos tystiolaeth glir i'r Cynulliad o'u rhaglen weithredu er mwyn cynhyrchu gwelliannau effeithlonrwydd parhaus.

**Cylchgronau a gyhoeddir gan Asiantaethau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad**

**Glyn Davies:** Pa gylchgronau sy'n cael eu cyhoeddi yn rheolaidd gan asiantaethau sy'n cael eu hariannu'n gyfangwbl neu'n rhannol gan y Cynulliad neu gan Lywodraeth y Cynulliad ei hun a beth yw cost flynyddol pob cyhoeddiad? (WAQ33890)

**Y Prif Weinidog:** Cylchgronau a chylchlythyron ynghyd â'r costau blynyddol:
- Cylchlythyr y GIG—£20,000
- Cylchlythyr Plant a Theuluoedd—£7,000
- Cylchlythyr Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru—£6,000
- Cylchlythyr Plant yn Gyntaf—£2,000
- Cylchgrawn MasnachCymru Rhyngwladol—£60,000
- Dolenni—cylchlythyr mewnol staff y Cynulliad—£49,000
- Cylchlythyr gostwng lefel troseddu—£5,000
- *Gwlad*—cylchgrawn ffermio misol—£106,000

- Cylchgrawn *Bygiau Baco*—£6,000
- Cylchlythyr diweddaru'r Prif Swyddog Meddygol—£6,000
- SHARP—cylchlythyr y rhaglen ymchwil i weithredu cynaliadwy ar iechyd—£2,000
- Cylchlythyr InterSexion—£5,000
- Cylchlythyr iechyd y gweithle safonol—£6,000
- Cadw: Etifeddiaeth y Cymry—£35,000. Mae hwn yn rhan o becyn aelodaeth 'Etifeddiaeth y Cymry', a enillodd £282,0000 i Cadw yn 2002-03.

Dim ond drwy dreulio amser a/neu gost afresymol y gellir cael gwybodaeth oddi wrth y CCNC. Mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf.

**Bil Cyflogau ar gyfer Gweision Sifil a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Nick Bourne:** Beth yw'r bil cyflogau ar gyfer y gweision sifil sy'n cael eu cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y flwyddyn gyfredol, gan gynnwys costau yswiriant gwladol, a beth oedd y costau ym mhob blwyddyn ers 1999? (WAQ34004)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r bil cyflogau disgwyliedig ar gyfer gweision sifil a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond heb gynnwys Swyddfa'r Llywydd, yn y flwyddyn gyfredol, yn cynnwys costau yswiriant gwladol, a'r costau gwirioneddol ym mhob blwyddyn er 1999 fel a ganlyn. Mater i Bwyllgor y Tŷ yw'r bil cyflogau am weision sifil yn Swyddfa'r Llywydd.

| | | |
|---|---|---|
| 1999-2000 | £58,549,000 | (trosglwyddodd saith aelod staff o'r Asiantaeth Hyfforddi Athrawon i mewn yn ystod y flwyddyn) |
| 2000-01 | £67,202,000 | (trosglwyddodd 197 aelod staff o Awdurdod Gwasanaethau Iechyd Cyffredin Cymru, Hybu Iechyd Cymru, Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru, Gweithrediaeth Rhaglen Ewropeaidd Cymru a MasnachCymru Rhyngwladol i mewn yn ystod y flwyddyn) |
| 2001-02 | £78,031,000 | (trosglwyddodd 116 aelod staff o'r Uned Cymorth Effeithiolrwydd Clinigol, Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru, a'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig i mewn yn ystod y flwyddyn) |
| 2002-03 | £90,062,000 | (trosglwyddodd 254 aelod staff o Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru a Chymdeithas Allforio Cymru i mewn yn ystod y flwyddyn) |
| 2003-04 | £105,171,000 | (trosglwyddodd 73 aelod staff o Gomisiwn Iechyd Cymru, Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti a'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol i mewn yn ystod y flwyddyn) |

**Silesia (Materion Ewropeaidd)**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf am y camau a gymerwyd i gydweithredu â Silesia ar faterion Ewropeaidd? (WAQ34011)

**Y Prif Weinidog:** Ers llofnodi'r memorandwm dealltwriaeth rhwng Cymru a Silesia ym mis Hydref 2002, mae nifer o brosiectau cydweithio wedi cael eu nodi ym meysydd y celfyddydau a diwylliant, y cronfeydd strwythurol, datblygu economaidd a chymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint, addysg, datblygu cynaliadwy ac adfywio/adfer tir. Mae swyddogion y Cynulliad a chyrff partner yng Nghymru yn tywys y materion hyn yn eu blaen ar y cyd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth Silesia.

Mae'r cydweithredu yn mynd rhagddo'n dda ar amryw o lefelau. Yr wythnos diwethaf ymwelodd grŵp o lysgenhadon Pwylaidd o Gliwicki yn Silesia â gogledd Cymru o dan fenter Cyngor Sir Ddinbych i annog cyfleoedd busnes a dod â Gwlad Pwyl a Phrydain yn nes at ei gilydd. Fel rhan o ddathliadau ehangu'r Cynulliad ym mis Mai, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn trefnu cynhadledd ar 'Yr Arferion Gorau' a bydd swyddog o Lywodraeth Silesia yn un o'r siaradwyr gwadd.

Cadarnhawyd yn ddiweddar y bydd Mr Michael Czarski, Marsial Silesia, yn ymweld â Chymru rhwng 3 Mehefin a 5 Mehefin.

**Latfia (Materion Ewropeaidd)**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf am y camau a gymerwyd i gydweithredu â Latfia ar faterion Ewropeaidd? (WAQ34012)

**Y Prif Weinidog:** Ers fy ymweliad â Latfia ym mis Medi 2003 cafwyd cytundeb o'r naill ochr a'r llall i ehangu'r cydweithredu rhwng Cymru a Latfia a'i ddatblygu ymhellach. Mae trafodaethau ynghylch memorandwm dealltwriaeth yn tynnu tua'r terfyn. Yn sail i'r memorandwm, mae nifer o feysydd ar gyfer cydweithredu, yn cynnwys materion Ewropeaidd, yn cael eu hystyried gan y swyddogion, yn dilyn yr ymweliad gan Ei Ardderchowgrwydd Janis Dripe, Llysgennad Latvia, yn ddiweddar.

**Cyfran o Staff sy'n Gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd o Gefndir Lleiafrif Ethnig**

**Nick Bourne:** Pa gyfran o'r staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd o gefndir lleiafrif ethnig, fesul categori cefndir lleiafrif ethnig, ac a wnaiff y Prif Weinidog nodi'r ffigurau ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ34018)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ffigurau am 2002, 2003 a 2004 wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

| | **2002** | **2003** | **2004** |
|---|---:|---:|---:|
| Asiaidd—Bangladeshaidd | 1 | 0 | 1 |
| Asiaidd —Indiaid | 6 | 10 | 9 |
| Asiaidd —Pacistanaidd | 9 | 10 | 11 |
| Cefndir Asiaidd arall | 2 | 5 | 4 |
| Du—Affricanaidd | 0 | 4 | 1 |
| Du—Caribïaidd | 4 | 6 | 5 |
| Cefndir Du arall | 2 | 2 | 4 |
| Tsieineaidd | 2 | 4 | 2 |
| Cymysg Asiaidd a Gwyn | 13 | 13 | 10 |
| Cymysg Du Affricanaidd a Gwyn | 2 | 3 | 2 |
| Cymysg Du Caribïaidd a Gwyn | 6 | 5 | 1 |
| Cefndir Ethnig Cymysg arall | 7 | 7 | 7 |
| Cefndir Ethnig arall | 12 | 16 | 14 |
| **Cyfanswm** | **66** | **85** | **71** |

Mae'r ffigurau mwyaf cywir sydd gennym ar hyn o bryd o ran monitro cefndir ethnig staff wedi'u seilio ar yr arolwg diweddaraf o'r holl staff a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2002 fel rhan o fenter ehangach gan Swyddfa'r Cabinet. Bryd hynny yr oedd 66 aelod staff yn gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd yn ystyried eu bod o gefndir lleiafrifol ethnig, a gynrychiolai 1.9 y cant o'r staff mewn swydd; dychwelodd tua 50 y cant o'r staff ymatebion i'r holiadur ar y pryd. Nid oes gorfodaeth o gwbl ar y staff i ddweud wrthym am eu cefndir ethnig.

Yr ydym wedi casglu gwybodaeth o grŵp arolygu llai am fis Gorffennaf 2003 a mis Chwefror 2004. Ym mis Gorffennaf 2003 yr oedd 85 aelod staff yn gweithio i'r Cynulliad Cenedlaethol a ddywedodd eu bod o gefndir lleiafrifol ethnig, a gynrychiolai gyfran o 2.2 y cant o'r staff mewn swydd ac, ym mis Chwefror 2004, yr oedd 71, a gynrychiolai gyfran o 1.75 y cant o'r staff mewn swydd.

Nid oes gennym wybodaeth am y blynyddoedd cynt yn ôl i 1999 ond ar ydym ar hyn o bryd yn cyflwyno modiwl hunanwasanaeth yn y system technoleg gwybodaeth adnoddau dynol a fydd yn caniatáu i'r staff fewnbynnu eu data eu hunain am darddiad ethnig a chenedligrwydd. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro'r

ystadegau yn y maes hwn yn agos a bydd yn sicrhau ystadegau mwy dibynadwy ar gyfer y dyfodol. Diwedd Ebrill yw'r dyddiad a gynlluniwyd o ran rhoi'r modiwl hunanwasanaeth ar waith yn derfynol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Ysgol Gyfun Maesydderwen

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu cae chwarae astroturf maint llawn yn Ysgol Gyfun Maesydderwen, Ystradgynlais? (WAQ33541)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Cyngor Sir Powys wedi cyflwyno cais i'r gronfa cyfleoedd newydd i ddarparu cae chwarae maint llawn gyda thyweirch artiffisial arno yn Ysgol Maesydderwen. Deallaf fod y cais yn cael ei asesu ar hyn o bryd a bod penderfyniad pa un a yw'r cais i fynd yn ei flaen at banel y gronfa cyfleodd newydd yng Nghymru i'w ddisgwyl yn fuan.

### Cyllid gan y Loteri ar gyfer Prosiectau Chwaraeon

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid gan y loteri ar gyfer prosiectau chwaraeon yng Nghymru? (WAQ33586)

**Alun Pugh:** Gweinyddwyd arian loteri ar gyfer prosiectau chwaraeon yng Nghymru gan Gyngor Chwaraeon Cymru er 1995. Mae hyn wedi arwain at ddyfarnu gwerth £105 miliwn o grantiau i dros 700 o brosiectau ledled Cymru. Yn ddiamheuaeth, daeth hyn â budd sylweddol nid yn unig o ran sefydlu amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon cenedlaethol ond mae hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn cefnogi gwaith datblygu chwaraeon o lefel y gymuned hyd at lefel elît.

### Cefnogaeth a roddwyd i Gerddorfeydd

**Nick Bourne:** Pa gefnogaeth a roddwyd i gerddorfeydd ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru? (WAQ33587)

**Alun Pugh:** Yn 2003-04, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad, drwy law Cyngor Celfyddydau Cymru, grant o £781,738 i Gerddorfa Genedlaethol Cymru y BBC. Derbyniodd Opera Cenedlaethol Cymru grant refeniw o £3.8 miliwn yn 2003-04 oddi wrth y cyngor celfyddydau. Mae'r grant hwnnw yn ariannu cerddorfa'r cwmni, ymhlith costau eraill. Yn ogystal, dosbarthwyd cyfanswm o £200,000 yn 2003-04 i chwe cherddorfa siambr ym mlwyddyn gyntaf cynllun tair blynedd i hybu datblygiad cerddorfeydd siambr.

Mae 13 o gerddorfeydd amatur sy'n gysylltiedig â Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru ar hyn o bryd. Cafodd y ffederasiwn grant o £240,993 oddi wrth y cyngor celfyddydau yn 2003-04.

### Cerddorfeydd a Bandiau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi, yn ôl ardaloedd llywodraeth leol, pa gymorth a roddir i gerddorfeydd a bandiau ledled Cymru? (WAQ33588)

**Alun Pugh:** Nid yw'r rhan fwyaf o'r cerddorfeydd a'r bandiau a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Celfyddydau Cymru yn gysylltiedig ag ardal un awdurdod lleol. Maent yn denu eu chwaraewyr o ardal ehangach ac, o dan delerau'r arian a dderbyniant oddi wrthym, mae'n ofynnol iddynt gynnal cyngherddau a gweithdai ar gyfer ysgolion a cholegau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol. Dylid gofyn i'r awdurdod lleol perthnasol pa gymorth sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod.

**Arian Loteri Cymru sy'n cael ei ailgyfeirio at Gais Llundain i Gynnal y Gemau Olympaidd**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch arian loteri sy'n cael ei gyfeirio o Gymru ar gyfer cais Llundain i gynnal y gemau Olympaidd? (WAQ33604)

**Alun Pugh:** Ydwyf—ond nid arian loteri na Chynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n talu'r costau o wneud cais i gynnal y Gemau Olympaidd. Trysorlys y DU sy'n talu holl gostau llunio'r cais. Ceir penderfyniad pa un a yw'r cais wedi llwyddo ai peidio yr haf nesaf.

**Hysbysebu Swyddi ar gyfer Siaradwyr Cymraeg**

**Lisa Francis:** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi ynghylch hysbysebu swyddi lle mae'n ofynnol cael siaradwr Cymraeg? (WAQ33824)

**Alun Pugh:** Mae cyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Cynlluniau Iaith Gymraeg: Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993', yn rhoi canllawiau ar hysbysebion recriwtio i gyrff sydd â chynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn ymdrin â fformat, maint ac ansawdd hysbysebion, a pha mor ddarllenadwy ac amlwg ydynt, yn cynnwys hysbysebion am swyddi a hysbysebir lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

Mae'r ddogfen uchod hefyd yn cynnwys canllawiau ar y mesurau y mae'n ofynnol i gyrff sydd â chynlluniau iaith Gymraeg eu sefydlu i geisio denu nifer briodol o siaradwyr Cymraeg medrus. Mae'n ofynnol hefyd i gynlluniau iaith Gymraeg gynnwys disgrifiad o'r camau sydd i gael eu cymryd i amlygu'r ffaith fod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn annog cyrff ar hyn o bryd i lunio strategaethau sgiliau ieithyddol fel rhan o'u gwaith cynllunio adnoddau dynol. Bydd strategaethau o'r fath yn galluogi sefydliadau i gadw golwg gyffredinol ar eu hanghenion o ran sgiliau ieithyddol ac ar yr adnoddau sydd ganddynt, ac i gyd-drefnu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio er mwyn hybu amcanion cynlluniau iaith Gymraeg.

**Hyrwyddo a Chynorthwyo Theatrau**

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i hyrwyddo a chynorthwyo theatrau ledled Cymru? (WAQ33846)

**Alun Pugh:** Yn 2003-04 dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Cymru grant gwerth £2.9 miliwn i theatrau ar draws Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf ac i'w helpu i gynhyrchu a chyflwyno dramâu. Rhwng 2002 a 2003 bu bron i ni ddyblu'r arian ar gyfer y fenter theatr mewn addysg, o £900,000 i £1.7 miliwn. Mae menter y celfyddydau y tu hwnt i Gaerdydd wedi'i thargedu at ddatblygu a chynhyrchu dramâu mewn canolfannau canolig eu maint ar hyd a lled Cymru ac at wella mynediad at waith o safon mewn ardaloedd difreintiedig. Mae swm o £250,000 ar gael yn 2004-05, yn cynyddu i'r £2 filiwn llawn yn 2006-07. Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn agor gyda'i chynhyrchiad cyntaf erioed ar 23 Ebrill yn Theatr yr Wyddgrug, ac mae'r grŵp llywio a sefydlwyd gan Gyngor y Celfyddydau yn bwrw ymlaen yn dda â'r gwaith o lunio cynigion i ddatblygu theatr Saesneg ei hiaith.

**Cyllid a ddyrannwyd i Sir y Fflint**

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i sir y Fflint ers mis Mai 2003? (WAQ33879)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu cyllid i sir y Fflint er mis Mai 2003 drwy'r portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon fel a ganlyn:

- Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi rhoi dyfarniadau cyfalaf i 27 o brosiectau yn sir y Fflint, gwerth £4.2 miliwn i gyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi darparu cyllid uniongyrchol o £124,807 i Gyngor Sir y Fflint i ariannu'r peilot nofio am ddim yn lleol i blant a phobl ifanc.

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu £1.9 miliwn i sir y Fflint.
- Mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru wedi rhoi tri grant i amgueddfeydd sir y Fflint, gwerth £5,226.
- Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi darparu cyfanswm o £5,340 mewn grantiau. Yn ogystal, mae ysgolion a llyfrgelloedd sir y Fflint yn elwa o'r holl wasanaethau a ddarperir gan y cyngor llyfrau i bob awdurdod yng Nghymru, megis dosbarthu gwybodaeth am lyfrau yn rheolaidd ac ymweliadau gan swyddogion ysgolion sy'n arddangos llyfrau a deunyddiau addysgol.
- Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi darparu cyfanswm o £170,500 i sir y Fflint drwy'r cynlluniau canlynol: Menter Iaith Sir y Fflint, athrawon bro, cyrsiau Cymraeg preswyl yng Nglan-llyn, a *Papur Fama* (y papur bro lleol). Caiff arian pellach ei ddosbarthu hefyd ledled Cymru gan gyrff eraill megis y Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru a Merched y Wawr.
- Mae Cadw wedi darparu cyfanswm o £44,652 yn sir y Fflint, gan gynnwys £10,600 i gastell y Fflint a £33,400 mewn grantiau.

### Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Datblygiadau Arfaethedig)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau gyda Russell Goodway a/neu Gyngor Dinas Caerdydd am gynorthwyo'r datblygiadau arfaethedig yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru? (WAQ33881)

**Alun Pugh:** Nac ydwyf.

### Cynlluniau i Ddatblygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw fanteision a allai ddod i Gaerdydd a Chymru yn sgîl y cynlluniau i ddatblygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru? (WAQ33882)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi trafod â Choleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru y cynnydd posibl yn y manteision diwylliannol a chymdeithasol a ddaw yn sgîl y cynlluniau i ddatblygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac os ydyw, a all roi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ33886)

**Alun Pugh:** Bûm ar ymweliad safle â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i drafod ei gynlluniau datblygu ar 25 Medi y llynedd. Gwnaeth y cynlluniau argraff arnaf, yn enwedig y cynigion ar gyfer pafiliwn cerddoriaeth newydd. Dymunaf bob llwyddiant iddo.

### Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru mewn cysylltiad â'i gynlluniau datblygu? (WAQ33889)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cynllun datblygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ers dechrau cynllun datblygu'r coleg yn 2000-01, mae CCAUC wedi darparu dros £18.5 miliwn ar ffurf dyraniadau grant, a oedd yn cynnwys pecyn cyllido arbennig i fod yn gefn i'r cynllun datblygu. Mae'r pecyn yn rhoi i'r coleg lefel o gyllid ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant perfformio sy'n rhagori ar yr hyn a ddarperir i sefydliadau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban.

### Monitro'r Mentrau Iaith

**Owen John Thomas:** A all y Gweinidog ddweud wrthyf sut mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn monitro'r mentrau iaith, faint o arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer monitro'r mentrau iaith a faint o staff y bwrdd sy'n monitro'r mentrau iaith? (WAQ33891)

**Alun Pugh:** Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn monitro'r mentrau iaith yn y ffyrdd canlynol:

- drwy fesur cynnydd yn erbyn targedau. Dim ond ar yr amod fod cynnydd digonol yn cael ei wneud yng ngwaith y mentrau iaith y telir grantiau.
- drwy fonitro a gwerthuso gwaith y mentrau iaith. Mae hyn yn golygu ymweld â phob menter o leiaf unwaith y flwyddyn i gwrdd â'r staff a monitro'r gweithgareddau yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt. Mae'r bwrdd hefyd yn cwrdd â staff y mentrau yn ganolog yn rheolaidd i drafod amryw o faterion, gan gynnwys cydweithredu ar brosiectau cyffredin. Mae'r bwrdd hefyd yn trefnu cynhadledd flynyddol ar gyfer y mentrau.
- drwy fonitro allanol. Yn 2000 cynhaliwyd adolygiad o'r mentrau iaith gan Iaith Cyf. Canmolodd yr adolygiad hwn waith y mentrau yn ogystal â chynnig nifer o argymhellion o ran datblygu i'r dyfodol.

Ar wahân i'r adolygiad allanol gan Iaith Cyf, daw'r gost o fonitro'r mentrau o gyllideb staffio graidd y bwrdd.

Mae a wnelo tri aelod o staff y bwrdd yn uniongyrchol â monitro'r mentrau iaith fel rhan o'u cyfrifoldebau o fewn tîm cynllunio iaith y bwrdd.

Rhaid cofio bod y mentrau yn cael arian o ffynonellau eraill megis yr awdurdodau lleol, arian loteri, Plant mewn Angen, ac Ewrop, a bod gan bob un o'r rhain eu mecanweithiau monitro eu hunain.

### Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru

**Michael German:** Pa gymorth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru? (WAQ33897)

**Alun Pugh:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth uniongyrchol i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Ariennir Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru drwy gytundeb lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r gerddorfa yn cael cyngor a chymorth ymarferol oddi wrth Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, a dderbyniodd £162,200 yn 2003-04 gan Gyngor Celfyddydau Cymru gogyfer gweithgareddau cymorth ar gyfer y gerddorfa hon a chyrff eraill yn y sector celfyddydau ieuenctid.

### Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Ofcom Cymru

**Leighton Andrews:** A yw'r Swyddfa Gysylltiadau wedi ymgynghori â'r Gweinidog ar benodiadau i bwyllgor cynghori cenedlaethol Ofcom Cymru? (WAQ33901)

**Alun Pugh:** Mae Ofcom wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am yr hyn sy'n digwydd ar adegau allweddol yn y broses o benodi aelodau i bwyllgor cynghori cenedlaethol Cymru. Bydd sefydlu cytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ofcom ynghylch ymgynghori ar faterion sy'n effeithio ar Gymru yn rhan o'n trafodaethau gydag Ofcom yn y dyfodol agos.

### Cronfa Cyfleoedd Newydd i Ysgolion

**Laura Anne Jones:** Faint o'r arian a ddyrannwyd i Gymru o'r gronfa cyfleoedd newydd i ysgolion sydd wedi ei wario hyd yma? (WAQ33939)

**Alun Pugh:** Nid yw'r loteri genedlaethol yn fater a ddatganolwyd. Nod rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion y gronfa cyfleoedd newydd yw dosbarthu cyfanswm net o £46.3 miliwn er mwyn darparu cyfleusterau chwaraeon i bobl ifanc a chymunedau yng Nghymru. Mae gan yr awdurdodau lleol tan 29 Mawrth 2004 i gyflwyno ceisiadau unigol manwl.

Ar 24 Mawrth 2004, yr oedd y gronfa wedi rhwymo £8,901,004. Cyfarfu'r pwyllgor addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ar 29 Mawrth i ystyried ceisiadau a nod y gronfa cyfleoedd newydd yw rhwymo'r holl arian sydd ar gael o dan y rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion erbyn diwedd mis Rhagfyr 2004.

## Cyllid a Ddyrannwyd gan Cadw

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd gan Cadw yn benodol ar gyfer dehongli ym mhob un o'i safleoedd, yn ystod y tair blynedd diwethaf? (WAQ33940)

**Alun Pugh:** Mae 127 o henebion yng ngofal y wladwriaeth. Dros y tair blynedd rhwng 2001-02 a 2003-04, dyrannwyd cyllid er mwyn newid y dehongli neu ddarparu gwaith dehongli o'r newydd ar 17 o'r 30 safle sydd wedi'u staffio, fel a ganlyn:

| Safle | 2001-02 (£) | 2002-03 (£) | 2003-04 (£) |
|---|---:|---:|---:|
| Gwaith haearn Blaenafon | 41,749 | - | 3,412 |
| Caerllion | 180 | 2,806 | 17,255 |
| Castell Caernarfon | 8,981 | 6,739 | 65,701 |
| Castell Caerffili | 10,531 | 16,222 | 18,541 |
| Castell Carreg Cennen | - | 1,907 | 1,612 |
| Castell Coch | 14,969 | 13,635 | 11,844 |
| Castell Cas-gwent | 4,824 | 24,501 | 366 |
| Castell Conwy | 18,312 | 34,831 | 563 |
| Castell Criccieth | 2,108 | 42,773 | 4,922 |
| Castell Dolwyddelan | - | 1,872 | 4,193 |
| Castell Harlech | - | 20,073 | 19,975 |
| Castell Cydweli | 10,716 | 36,870 | 13,536 |
| Plas Mawr | 1,198 | 3,913 | 1,492 |
| Castell Rhaglan | - | - | 26,575 |
| Abaty Ystrad Fflur | - | 1,907 | - |
| Abaty Tyndyrn | 10,716 | 56,997 | 13,536 |
| Tre-twr | 6,153 | 7,050 | 5,982 |

Dyrannwyd cyllid hefyd ar gyfer dehongli ar ryw 97 o safleoedd sydd heb eu staffio, gwerth £21,110, £34,360 a £30,812 dros y tair blynedd.

## Dadansoddiad o'r Cyllid a Ddyrannwyd gan Cadw

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd gan Cadw ar gyfer pob un o'i safleoedd yn ystod y tair blynedd diwethaf? (WAQ33941)

**Alun Pugh:** Dros y tair blynedd rhwng 2001-02 a 2003-04 dyrannodd Cadw arian i'r 30 safle wedi'i staffio sydd yng ngofal y wladwriaeth fel a ganlyn. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch o weld lefel y buddsoddiad cyhoeddus yng ngwaith haearn Blaenafon.

| Safle | 2001-02 (£) | 2002-03 (£) | 2003-04 (£) |
|---|---:|---:|---:|
| Castell Biwmares | 57,220 | 117,257 | 58,140 |
| Gwaith haearn Blaenafon | 400,688 | 313,354 | 596,456 |
| Baddonau Caer Caerllion | 65,551 | 80,889 | 105,973 |
| Castell Caernarfon | 205,432 | 131,738 | 215,563 |
| Castell Caerffili | 600,073 | 1,094,671 | 304,257 |
| Castell Carreg Cennen | 628 | 2,601 | 2,272 |
| Castell Coch | 486,417 | 246,380 | 154,246 |
| Castell Cas-gwent | 194,528 | 177,942 | 337,920 |
| Castell Cilgerran | 628 | 649 | 330 |
| Castell Conwy | 311,509 | 294,005 | 399,896 |
| Castell Criccieth | 18,741 | 59,552 | 23,714 |
| Abaty Cymer | 5,816 | 3,173 | 3,173 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Castell Dolwyddelan | 1,448 | 3,344 | 5,689 |
| Castell Harlech | 46,044 | 73,427 | 112,325 |
| Castell Cydweli | 110,959 | 108,456 | 140,985 |
| Castell Talacharn | 202,349 | 26,239 | 106,216 |
| Castell Oxwich | 61,608 | 57,313 | 32,313 |
| Plas Mawr | 37,322 | 65,701 | 53,057 |
| Castell Rhaglan | 107,848 | 60,556 | 110,952 |
| Castell Rhuddlan | 174,324 | 245,319 | 22,303 |
| Capel Rug | 12,681 | 13,692 | 15,352 |
| Palas yr Esgob, Tyddewi | 306,835 | 320,890 | 363,191 |
| Caer Rufeinig ac Amgueddfa Segontium | 53,562 | - | - |
| Abaty Ystrad Fflur | 13,413 | 17,128 | 37,624 |
| Abaty Talyllychau | - | - | 590 |

| **Safle** | **2001-02 (£)** | **2002-03 (£)** | **2003-04 (£)** |
|---|---|---|---|
| Abaty Tyndryn | 302,920 | 234,141 | 250,179 |
| Cwrt a Chastell Tre-twr | 94,195 | 195,877 | 62,530 |
| Abaty Glyn y Groes | 14,363 | 15,385 | 16,123 |
| Castell Weblai | 639 | 324 | 330 |
| Castell Gwyn | 13,412 | 14,433 | 16,506 |

Dyrannwyd symiau ychwanegol i'r 97 safle heb eu staffio sydd yng ngofal y wladwriaeth, gwerth £735,774, £711,382 a £576,401 i gyd dros y tair blynedd.

**Materion Darlledu**

**Leighton Andrews:** Ar sawl achlysur y mae'r Gweinidog a'i ragflaenydd wedi cyfarfod â Gweinidogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i drafod materion darlledu yng Nghymru ers mis Medi 2000? (WAQ33942)

**Alun Pugh:** Mae fy rhagflaenydd a minnau wedi cwrdd â Gweinidogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon droeon ers mis Medi 2000 i drafod materion darlledu yng Nghymru, gan gynnwys dau achlysur pan na thrafodwyd dim byd arall.

**Prosiectau Isadeiledd Pêl-Droed**

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â gwariant a chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiectau isadeiledd pêl-droed yng Nghymru? (WAQ33982) [W]

**Alun Pugh:** Yn dilyn yr argymhellion a wnaed gan y fforwm pêl-droed, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2002 y byddai dros £1.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros gyfnod o dair blynedd i gefnogi'r broses o ddatblygu pêl-droed yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc.

Yn ogystal â hyn, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn adrodd bod bron i £700,000 o arian loteri wedi'i ddyrannu dros y flwyddyn ddiwethaf i amrediad o brosiectau sy'n gysylltiedig â phêl-droed. Ymhlith y rhain y mae dyfarniadau cyfalaf a grantiau eraill llai ar gyfer dillad ac offer er mwyn cefnogi pêl-droed yng Nghymru.

**Uwch-Gynghrair Pêl-droed Cymru**

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn ag unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael gyda chynrychiolwyr uwch-gynghrair pêl-droed Cymru? (WAQ33984) [W]

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â chynrychiolwyr uwch-gynghrair pêl-droed Cymru. Fodd bynnag, yr wyf wedi trefnu i gwrdd â hwy yn y dyfodol agos i drafod amrediad o faterion.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Banc Gwybodaeth ar gyfer Entrepreneuriaid

**Lorraine Barrett:** A wnaiff Gweinidog roi adroddiad ar hynt y gwaith o ddatblygu banc gwybodaeth ar gyfer entrepreneuriaid? (WAQ33273)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Bydd gwahoddiad i dendro i roi cyngor ynglŷn â model priodol ar gyfer y banc gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Caiff ei weithredu o fis Ebrill 2005 ymlaen.

### Staff Bwrdd Croeso Cymru

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ffordd y mae staff Bwrdd Croeso Cymru yn cydweithio â VisitBritain? (WAQ33317)

**Andrew Davies:** Mae Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â VisitBritain a'r byrddau croeso cenedlaethol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i hyrwyddo Prydain dramor fel cyrchfan i dwristiaid ac i gynhyrchu refeniw ychwanegol o dwristiaeth ledled Prydain.

Fel rhan o gylch gwaith VisitBritain i hyrwyddo Prydain dramor, gan gynnwys Cymru, mae'r bwrdd croeso yn gweithio'n agos iawn gyda hwy i sicrhau y caiff Cymru ei chynrychioli'n deg ar bob lefel. Mae'r bwrdd croeso wrthi ar hyn o bryd yn gweithio i sicrhau bod gan VisitBritain dargedau dichonadwy a mesuradwy ar gyfer ei waith dramor ar ran Cymru, a bod modd monitro a gwerthuso'r gwaith hwn.

### Agendâu Cymunedau yn Gyntaf

**Leighton Andrews:** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi mewn llythyrau cylch gwaith at gyrff a noddir gan y Cynulliad o fewn ei bortffolio ynghylch mynd i'r afael ag agendâu Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33322)

**Andrew Davies:** Mae disgwyl i CCNC ymgymryd â'u gwaith yn unol â gwerthoedd, egwyddorion a safonau'r Cynulliad ac iddynt gyfrannu, fel sy'n briodol, tuag at ei hagenda strategol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. I sicrhau bod hyn yn digwydd, bu Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu proses cynllunio busnes newydd sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweithio drwy bartneriaeth i wireddu agenda'r Llywodraeth. O safbwynt agendâu Cymunedau yn Gyntaf, mae'r llythyrau cylch gwaith a anfonir at bob CCNC gweithredol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi sut y byddant yn cydweithio â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, yn cynorthwyo ac yn hybu'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu cymunedol a'u rhoi ar waith, ac yn cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau cymunedol yr awdurdodau lleol. Bydd gofyn i CCNC ddangos sut y byddant yn cyflawni hyn yn eu cynlluniau corfforaethol.

### Trenau Hwyr rhwng Gorsaf Paddington yn Llundain a De Cymru

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael sylwadau ynglŷn â'r trenau hwyr rhwng gorsaf Paddington yn Llundain a de Cymru? (WAQ33568)

**Andrew Davies:** Ydwyf. Trafodais hynny gydag uwch reolwyr First Great Western ar 11 Rhagfyr 2003. Mae FGW yn adolygu amseriad y trên olaf o Paddington, er mwyn penderfynu a oes modd canfod ateb ffafriol o fis Rhagfyr 2004.

## Refeniw i Gymru

**Lisa Francis:** Pa ddulliau o gasglu tystiolaeth y mae Bwrdd Croeso Cymru yn eu defnyddio er mwyn cyfrifo refeniw posibl i Gymru? (WAQ33573)

**Lisa Francis:** Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r ffigur o £100 miliwn y mae Bwrdd Croeso Cymru yn ei ddweud fydd y refeniw economaidd i Gymru pe bai'r camau i orfodi'r rhai sy'n darparu llety i gofrestru yn cael eu mabwysiadu? (WAQ33575)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â'r refeniw gwerth £100 miliwn i Gymru, ai ffigur blynyddol yw hwn? (WAQ33577)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi gofyn i gadeirydd y bwrdd croeso am ymateb manwl i'r materion a godir yn y cwestiynau hyn. Byddaf yn anfon copi o'i ymateb atoch pan ddaw i law. Byddaf hefyd yn darparu'r wybodaeth honno i aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, gan fod rhai o'r materion wedi cael eu codi yn ystod y cyfarfod ar 17 Mawrth.

## Age Concern

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y grantiau y gellir eu prosesu o Cymru Ar-lein, a allai fod ar gael i ddarparu hyfforddiant i sefydliadau megis Age Concern sy'n dymuno cynnal gwersi cyfrifiadurol i'r henoed? (WAQ33576)

**Andrew Davies:** Gellir gweld rhestr o'r cynlluniau cymorth grant i fudiadau gwirfoddol ar wefan y Cynulliad, http://www.cymru.gov.uk/themesvoluntarysector/content/grantsguide/contents-w.htm. Nid oes gan Cymru Ar-lein gynlluniau o'r fath.

Mae Cymru Ar-lein yn darparu sesiynau hyfforddi TGCh rhad ac am ddim i holl ddinasyddion Cymru. Lansiwyd ymgyrch llywio'r llygoden/meet the mouse ym mis Tachwedd 2003. Hyd yma, mae wedi ymweld â 15 o drefi yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De. Gan ddefnyddio canolfan leol, mae'r sesiynau dwyawr yn dysgu sgiliau sylfaenol megis defnyddio llygoden a bysellfwrdd, chwilio'r rhyngrwyd a defnyddio e-bost.

Mae'r sesiynau ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg ac mae pawb sy'n eu mynychu yn cael pecyn gwybodaeth dwyieithog. Anogir hwy i ddatblygu eu sgiliau newydd ymhellach drwy ddefnyddio rhwydwaith y bobl yn eu llyfrgell leol neu drwy gofrestru ar gwrs mewn coleg lleol. Mae manylion pellach a'r trefniadau cyfredol i'w gweld ar http://www.cymruarlein.cymru.gov.uk/skillict/seminar.htm.

Cysylltodd trefnwyr y cwrs â chyfarwyddwr Age Concern ym mis Tachwedd i roi gwybod iddo am yr ymgyrch hon. Ers hynny maent wedi cysylltu â chydlynwyr rhanbarthol Age Concern pan fydd sesiwn llywio'r llygoden yn cael ei chynnal yn eu hardal. Gwahoddir hwy i anfon cyfranogwyr a hefyd i ddefnyddio'r sesiwn fel cyfle i hyrwyddo'r cyrsiau TGCh y mae Age Concern yn eu trefnu.

## Cau Dociau Mostyn

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael mewn perthynas â chau dociau Mostyn, a'r problemau o ganlyniad i hynny i Awyrofod Prydain ym Mrychdyn? (WAQ33582)

**Andrew Davies:** Yr wyf fi a'm cyd-Weinidogion wedi cymryd diddordeb personol manwl yn y datblygiadau yn nociau Mostyn a hefyd yn y goblygiadau posibl i Airbus ym Mrychdyn pe cyfyngid ar fynediad i'r porthladd. Yn ogystal, gofynnais i uwch swyddogion o fewn fy adran gynnal cysylltiad mynych ac agos iawn â'r naill gwmni a'r llall a rhoi'r wybodaeth lawnaf a mwyaf diweddar imi am y materion dan sylw a'r pryderon.

## Ffordd Liniaru Fewnol yn Aberhonddu

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant y ffordd liniaru fewnol yn Aberhonddu? (WAQ33597)

**Andrew Davies:** Cyngor Sir Powys sy'n ariannu'r gwaith o adeiladu ffordd gyswllt yn Aberhonddu ac mae'n asio â chynllun seilwaith trafnidiaeth aml-fodd y cyngor, sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf grant trafnidiaeth. Deallaf y dylai'r gwaith o adeiladu'r ffordd gyswllt gael ei gwblhau yn gynnar yn 2005.

## Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad

**Christine Chapman:** Sawl busnes yng Nghwm Cynon a dderbyniodd grantiau buddsoddi'r Cynulliad yn 2003? (WAQ33645)

**Christine Chapman:** Faint o fusnesau yng Nghwm Cynon a dderbyniodd grantiau buddsoddi'r Cynulliad? (WAQ33646)

**Andrew Davies:** Yn 2003, cynigwyd grant buddsoddi'r Cynulliad, gwerth £306,5000, i 11 o gwmnïau yn etholaeth Cwm Cynon. Yr oedd y cynigion hyn yn golygu buddsoddiad preifat o £776,594, cadw 153 o swyddi a chreu 10 o swyddi. Ers i'r cynllun ddechrau ym mis Ebrill 2002, gwnaethpwyd 23 o gynigion gwerth £759,750 i gwmnïau yn yr etholaeth, i gynorthwyo buddsoddiad preifat o £1,887,497 a ddylai gadw 227 o swyddi a chreu 30 o swyddi newydd.

## Grantiau Cymorth Rhanbarthol Dewisol

**Christine Chapman:** Sawl busnes yng Nghwm Cynon a dderbyniodd grant cymorth rhanbarthol dewisol yn 2003? (WAQ33647)

**Christine Chapman:** Faint o fusnesau yng Nghwm Cynon a dderbyniodd grantiau cymorth rhanbarthol dewisol? (WAQ33648)

**Andrew Davies:** Yn 2003, cynigwyd cymorth rhanbarthol dewisol gwerth £1,948,000 i bum cwmni yn etholaeth Cwm Cynon. Dylai'r cynigion hyn ddenu buddsoddiad preifat o £5,105,000, creu 99 o swyddi a diogelu 145. Ers mis Gorffennaf 1999, pan ddechreuodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnig cymorth rhanbarthol dewisol, gwnaethpwyd 26 cynnig gwerth £17,074,600 i gwmnïau yn yr etholaeth, i gynorthwyo buddsoddiad preifat o £52,342,325, y rhagwelwyd y byddai'n creu 841 o swyddi ac yn diogelu 752 ohonynt.

## Creu Swyddi

**Nick Bourne:** Yn dilyn cwestiwn WAQ32956 a'ch ateb, a allwch roi atebion i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd? (WAQ33652)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn Nhîm Cymru wedi ymrwymo i greu swyddi ledled Cymru, gan gynnwys y rhannau o Bowys yr ydych yn cyfeirio atynt.

Mae'r cymorth rhanbarthol dewisol sydd ar gael yn yr ardaloedd o amgylch Machynlleth ac Ystradgynlais a Phowys gyfan yn gymwys i gael grant buddsoddi gan y Cynulliad. Ers sefydlu Llywodraeth y Cynulliad, cynigwyd cymorth rhanbarthol dewisol a grantiau buddsoddi'r Cynulliad gwerth bron i £550,000 i 11 prosiect. Ynghlwm wrth y prosiectau hyn mae buddsoddiad gwerth bron i £2.8 miliwn a byddant yn creu ac yn diogelu dros 300 o swyddi.

Yr oedd cyfartaledd lefel y gyflogaeth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru dros y pedwar chwarter hyd at fis Tachwedd 2003 13,000 yn uwch nag yr oedd yn 1999, sef cynnydd o 6.5 y cant.

Ar lefel ward, mae'r unig ystadegau swyddogol sy'n darparu dilyniant amser yn cyfeirio at y niferoedd sy'n hawlio budd-dal diweithdra. Dengys y tabl canlynol y newidiadau yn yr ystadegau o ran y niferoedd a oedd yn hawlio budd-dal yn yr ardaloedd y cyfeiriwch atynt, ers sefydlu'r Cynulliad.

| **Niferoedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithredra, y DU, Cymru, Powys, wardiau Powys** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Chwe-04** | **Chwe-99** | **Newid Chwe-04 o'i gymharu â Chwe-99** |
| **Lefelau:** | | | |
| Y DU | 716,545 | 1,056,441 | -32 y cant |
| Cymru | 35,195 | 56,452 | -38 y cant |
| Powys | 936 | 1,524 | -39 y cant |
| Ward St. David | 14 | 18 | -22 y cant |
| Ward St. John | 29 | 49 | -41 y cant |
| Ward St. Mary | 21 | 34 | -38 y cant |
| Wardiau Aberhonddu | 64 | 101 | -37 y cant |
| Ward Ystradgynlais | 32 | 73 | -56 y cant |
| Ward Trefyclo | 21 | 37 | -43 y cant |
| Ward Dwyrain Llandrindod | 19 | 15 | 27 y cant |
| Ward Gogledd Llandrindod | 20 | 29 | -31 y cant |
| Ward De 1 Llandrindod | 18 | 13 | 38 y cant |
| Ward De 2 Llandrindod | 19 | 28 | -32 y cant |
| Ward Gorllewin Llandrindod | 14 | 31 | -55 y cant |
| Wardiau Llandrindod | 90 | 116 | -22 y cant |
| Ward Tref Rhaeadr Gwy | 23 | 27 | -15 y cant |
| ***Cyfraddau (nifer yn hawlio fesul pen o'r boblogaeth oed gwaith):*** | | | |
| Y DU | 3.8 | 5.7 | -1.9 |
| Cymru | 3.9 | 6.3 | -2.4 |
| Powys | 2.4 | 3.9 | -1.5 |

Ffynhonnell: NOMIS (23 Maw 2004), data'r wardiau wedi'i seilio ar ffiniau 1991 wedi'u rhewi

### Datblygiad Economaidd yn y De-ddwyrain

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar ddatblygiad economaidd yn y De-ddwyrain? (WAQ33654)

**Andrew Davies:** Mae ein polisïau datblygu economaidd wedi'u nodi yn 'Cymru'n Ennill' ac yn 'Cymru: Gwlad Well'. Mae'r olaf yn pwysleisio creu rhagor o swyddi a swyddi o safon uwch. Yr oedd 59,000 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros y pedwar chwarter hyd at fis Tachwedd 2003 yn ne-ddwyrain Cymru nag yr oedd yn 1999, sef cynnydd o 9.7 y cant. Mae swyddi o safon uchel wedi cael eu creu gan lawer o gwmnïau yn cynnwys Cogent, General Dynamics ac International Rectifier.

### Codi Tâl Traffig Trwm

**Nick Bourne:** A oes gan Lywodraeth y Cynulliad bolisi mewn perthynas â chodi tâl traffig trwm yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill yng Nghymru, ac os oes ganddi bolisi, a wnaiff y Gweinidog ei gyhoeddi? (WAQ33679)

**Andrew Davies:** O dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gadarnhau unrhyw gynllun i godi tâl ar ddefnyddwyr y ffyrdd y bwriedid ei gyflwyno yng Nghaerdydd neu mewn unrhyw fan arall yng Nghymru. Cyn cyflwyno cynllun o'r fath, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl gweld gwelliannau sylweddol o ran trafnidiaeth gyhoeddus, megis cyflwyno cynlluniau parcio a theithio, lonydd wedi'u neilltuo i fysiau a phartneriaethau bws o safon.

## Yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i'w gydweithwyr yn San Steffan neu i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ynghylch cynnal a chadw a gwella cledrau'r rheilffyrdd a gwasanaethau'r rheilffyrdd yng Nghymru? (WAQ33682)

**Andrew Davies:** Cyfarfûm ag aelodau'r Pwyllgor Materion Cymreig ar 17 Tachwedd 2003, pryd y tynnais ddyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y rheilffyrdd yng Nghymru i'w sylw. Cyfarfûm hefyd â Richard Bowker, cadeirydd a phrif weithredwr yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ar 18 Chwefror 2004, pryd y trafodasom nifer o faterion yn ymwneud â'r rheilffyrdd.

Yr wyf hefyd wedi cael nifer o drafodaethau gyda Dr Kim Howells AS, y Gweinidog Gwladol dros Drafnidiaeth yn yr Adran Drafnidiaeth, yn fwyaf diweddar yn dilyn y datganiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y byddai'n cynnal adolygiad i strwythur y diwydiant rheilffyrdd.

## Astudio Twristiaeth Ddiwylliannol

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y manteision economaidd o greu cyfadran yn y Barri i astudio twristiaeth ddiwylliannol? (WAQ33840)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn ymwybodol o gynnig i sefydlu canolfan ryngwladol i Gymru ar gyfer lletygarwch, twristiaeth a rheolaeth ym maes hamdden fel rhan o gampws posibl newydd i Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd ar safle ar Ynys y Barri. Gallai'r cyrsiau newydd gynnwys twristiaeth ddiwylliannol.

Mae'r hyrwyddwyr yn honni y byddai'r prosiect drwyddo draw yn dod ag amryw o fanteision yn ei sgîl, gan gynnwys rhai i'r economi.

## Blaenoriaethau yng Nghymoedd y De

**Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymoedd y De? (WAQ33841)

**Andrew Davies:** Mae llythyr cylch gwaith Awdurdod Datblygu Cymru yn nodi ei rôl mewn perthynas ag agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan, yn ogystal â'n strategaeth ar ddatblygu economaidd a nodwyd yn 'Cymru'n Ennill'. Mae'r llythyr hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r tasgau allweddol y disgwyliaf i'r awdurdod eu datblygu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'n ei gwneud yn glir mai sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl o'r cronfeydd strwythurol yw fy mlaenoriaeth bennaf i'r awdurdod yn 2004-05, sy'n cadarnhau mor bwysig yn fy ngolwg i yw datblygiadau a fydd yn dod â budd i Gymoedd de Cymru.

Yr wyf wedi trafod y materion hyn gyda bwrdd, cadeirydd a phrif weithredwr yr awdurdod datblygu yn ein cyfarfodydd rheolaidd.

## Grant Buddsoddi'r Cynulliad

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y modd y mae grant buddsoddi'r Cynulliad wedi bod o fudd i fusnesau yn Nhor-faen? (WAQ33842)

**Andrew Davies:** Mae grant buddsoddi'r Cynulliad wedi bod yn llwyddiant mawr ers ei lansio ym mis Ebrill 2002. Yn Nhor-faen, mae grant o dros £1 filiwn wedi cael ei gynnig i 34 o gwmnïau. Disgwylir i'r prosiectau hyn ddenu dros £2.4 miliwn o fuddsoddiad i mewn o du cwmnïau, a disgwylir iddynt greu 124 o swyddi newydd a chynnal 233 ohonynt.

**Bwrdd Croeso Cymru**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y setliad ariannol a roddwyd i Fwrdd Croeso Cymru ar gyfer grantiau cymorth buddsoddi yn ystod blynyddoedd ariannol 2003-04 a 2004-05? (WAQ33843)

**Andrew Davies:** Yr oedd cyllideb Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer grantiau cymorth buddsoddi yn £3.55 miliwn yn 2003-04 a chaiff ei chynnal ar y lefel hon ar gyfer 2004-05. Nodir darpariaeth ychwanegol wirioneddol a thebygol o ffynonellau eraill yn ei lythyr cylch gwaith, y mae copi ohono yn y Llyfrgell.

**Cynyddu'r Cyfleoedd am Swyddi yn y De-ddwyrain**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cynyddu ymhellach ar y cyfleoedd am swyddi yn y De-ddwyrain? (WAQ33844)

**Andrew Davies:** Mae'r Cynulliad a'i bartneriaid yn Nhîm Cymru yn parhau i weithio er mwyn denu buddsoddiad i mewn i Gymru gyfan. Ers sefydlu'r Cynulliad, mae'r buddsoddiad i mewn i dde-ddwyrain Cymru wedi arwain at wariant cyfalaf rhagamcanedig o dros £558 miliwn, gan greu dros 9,500 o swyddi a diogelu 5,333.

**Datblygiad Economaidd yng Nghymoedd y De**

**Janice Gregory:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i annog datblygiad economaidd y cymunedau hynny yng Nghymoedd y De nad ydynt yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33845)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad am weld cymunedau cryf a diogel ar hyd a lled Cymru. Mae cymunedau Cymoedd de Cymru o fewn ardaloedd Amcan 1 a haen 1 a gynorthwyir ac mae amrywiaeth eang o gymorth pwrpasol, gan gynnwys cyngor busnes, eiddo, cymorth ariannol a hyfforddiant, ar gael i annog datblygu economaidd.

**Polisïau i Hybu Creu Swyddi**

**Nick Bourne:** Sut y mae polisïau'r Gweinidog yn rhoi hwb i'r gwaith o greu swyddi yng Nghymru? (WAQ33847)

**Andrew Davies:** Yn dda iawn. Mae mynegai rheolwyr prynu y Royal Bank of Scotland yn ddiweddar yn awgrymu bod mynegai cyflogaeth Cymru yn codi yn gyflymach na chyfradd y DU. Mae nifer y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra ar lefelau isel nas gwelwyd ers canol y 1970au. Yr oedd y lefel gyflogaeth yng Nghymru am y tri mis hyd at fis Ionawr 2004 24,000 yn uwch nag yr oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl, ac 84,000 yn uwch nag yn yr un cyfnod ddwy flynedd yn ôl.

**Seilwaith Trafnidiaeth**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei gynlluniau i wella ein seilwaith trafnidiaeth? (WAQ33848)

**Andrew Davies:** Yn 2004-05, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi dros £130 miliwn i gynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Ar ben hynny, yr ydym yn darparu £85 miliwn i hybu buddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth lleol, gan gynnwys cyllid tuag at gynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd, trafnidiaeth integredig, cerdded a beicio a Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

## Ffordd Fenter Sirhywi

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch nifer y swyddi yr amcangyfrifir a gaiff eu creu yn Oakdale yn sgîl ffordd fenter Sirhywi? (WAQ33849)

**Andrew Davies:** Amcangyfrifir y bydd ffordd fenter Sirhywi, a fydd yn darparu mynediad i Barc Busnes Oakdale, yn datgloi'r potensial i greu hyd at 5,000 o swyddi yn Oakdale.

## Gwasanaeth Valley Lines

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Arriva, ac eraill sydd â buddiant yn y mater, ynghylch rhoi hwb i ddatblygiad economaidd drwy wella'r gwasanaeth Valley Lines? (WAQ33850)

**Andrew Davies:** Cyfarfûm â Mr Bob Davies, prif weithredwr Arriva Trains, ar 11 Tachwedd 2003 a thrafodasom welliannau i'r gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Un ymrwymiad allweddol sydd wedi'i gynnwys ym masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r gororau yw'r angen i wella'r gwasanaethau trên ar draws rhwydwaith Valley Lines. Bydd amserlen safonol Arriva, y bydd yn ei chyflwyno ym mis Rhagfyr 2005, yn gwella amlder y gwasanaethau trenau i'r Cymoedd yn sylweddol. Mae Arriva wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori am ei amserlen ac mae copi ohoni wedi cael ei anfon at holl Aelodau'r Cynulliad.

## Adenydd A380 sy'n cael eu Cynhyrchu ym Mrychdyn

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith bosibl ar economi Cymru os na ellir cludo'r adenydd A380 sy'n cael eu cynhyrchu ym Mrychdyn ar long o ddoc Mostyn? (WAQ33851)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn gwbl hyderus y bydd Airbus yn parhau i gynhyrchu adenydd ym Mrychdyn i'w cludo ymlaen i Toulouse, gan ddod â budd sylweddol i economi Cymru.

## Lefelau'r Gweithgarwch Economaidd yn Nwyrain Abertawe

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau'r gweithgarwch economaidd yn Nwyrain Abertawe? (WAQ33866)

**Andrew Davies:** Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, yr oedd 71.8 y cant o'r boblogaeth o oed gwaith yn Nwyrain Abertawe yn weithgar yn economaidd yn 2001, o'i gymharu â 73.1 y cant drwy Gymru gyfan. Nid oes ffigurau mwy diweddar am weithgarwch economaidd ar lefel etholaethau unigol ar gael eto. Gostyngodd nifer y rhai oedd yn hawlio lwfans ceisio gwaith 30 y cant rhwng mis Chwefror 1999 a Chwefror 2004 (o'i gymharu â gostyngiad o 36 y cant i Gymru gyfan).

## Lefelau Diweithdra Ymysg Ieuenctid yn Nwyrain Abertawe

**Val Lloyd:** A all y Gweinidog ddarparu ffigurau ar lefelau diweithdra ymysg ieuenctid yn Nwyrain Abertawe o 1999 i 2003? (WAQ33867)

**Andrew Davies:** Rhoddir y wybodaeth sydd ar gael yn y tabl. Ar gyfartaledd, yr oedd nifer y bobl ifanc 16 i 24 oed oedd yn hawlio lwfans ceisio gwaith yn Nwyrain Abertawe yn 2003 6 y cant yn is nag yr oedd yn 1999.

**Pobl ifanc 16 i 24 oed yn hawlio lwfans ceisio gwaith yn Nwyrain Abertawe**

| | **Nifer yn hawlio ar gyfartaledd** |
|---|---|
| 1999 | 551 |
| 2000 | 583 |
| 2001 | 545 |

| | |
|---|---|
| 2002 | 501 |
| 2003 | 520 |

**Ffynhonnell:** System weinyddol Canolfan Byd Gwaith.

### Diogelwch Teithwyr Trên

**Sandy Mewies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i wella diogelwch teithwyr trên yn y Gogledd? (WAQ33877)

**Andrew Davies:** Cyfarfûm â Mr Bob Davies, prif weithredwr Arriva Trains, ar 11 Tachwedd 2003 a thrafodasom welliannau i wasanaethau trenau yn y Gogledd, gan gynnwys gwelliannau i orsafoedd a gwella diogelwch teithwyr.

Ers hynny, mae Arriva wedi cwrdd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a grwpiau defnyddwyr y rheilffyrdd yn y Gogledd i drafod eu dyheadau, ac mae wrthi yn awr yn datblygu rhaglen waith i'w chyflawni'n raddol. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn ariannu'r gwelliannau hyn i'r gorsafoedd ac yr ydym wedi neilltuo £750,000 yn 2004-05.

### Cyllid y Cynulliad a ddyrannwyd i Sir y Fflint

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i sir y Fflint ers mis Mai 2003? (WAQ33878)

**Andrew Davies:** Nid yw'r wybodaeth ar gael yn y ffurf y gofynnwyd amdani. Mae sawl cronfa yn y cyllidebau datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn ymateb i geisiadau am gymorth a hynt prosiectau, gan gynnwys buddsoddiad o'r sector preifat. Ni phenderfynir ymlaen llaw felly ar ddyraniadau i awdurdodau lleol unigol. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau y dyrannwyd grant trafnidiaeth o dros £5.5 miliwn i awdurdod unedol sir y Fflint yn 2003-04. Ar ben hynny, yr oedd dyraniad refeniw sir y Fflint yn 2003-04 gogyfer â'i chynllun trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn £260,000 a'i grant diogelwch y ffyrdd yn £412,000.

### Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Cynnydd yn y Manteision i Dwristiaeth)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi trafod â Bwrdd Croeso Cymru y cynnydd posibl yn y manteision i dwristiaeth a ddaw yn sgîl y cynlluniau i ddatblygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac, os ydyw, a all roi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ33885)

**Andrew Davies:** Nac ydwyf.

### Nifer y Damweiniau mewn Lleoliadau Penodol

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ30636, a wnaiff y Gweinidog restru nifer y damweiniau ym mhob lleoliad? (WAQ33927)

**Andrew Davies:** Yn ychwanegol at WAQ30636, amgaeir yma ystadegau damweiniau ar gyfer pob lleoliad. Mae'r data hwn yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd o fis Ionawr 2000 ac mae'n cynnwys safleoedd o fewn darn 100 milltir o hyd sydd (A) â'r nifer fwyaf o ddamweiniau a (B) â'r nifer fwyaf o ddamweiniau angheuol.

Y manylion, heb eu nodi mewn unrhyw drefn benodol, yw:

(A) Y nifer fwyaf o ddamweiniau

| **Ffordd** | | **Nifer y Damweiniau** | **Nifer a Anafwyd** | **Nifer a Laddwyd** | **Anafiadau Difrifol** | **Mân Anafiadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A4042 | Cylchfan New Inn, Pont-y-pŵl | 15 | 24 | 0 | 1 | 23 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A465 | Cyffordd yr A465 â Chyffordd 43 yr M4 | 15 | 25 | 0 | 0 | 25 |
| A470 | Cylchfan Black Cat* yr A470/A55 | 15 | 25 | 0 | 1 | 24 |
| A470 | Cyfnewidfa Coryton yr A470 | 26 | 48 | 0 | 1 | 47 |
| A48 | Yr A48 o Faglan i Lansawel | 16 | 22 | 0 | 1 | 21 |
| A48 | Cyffordd Pont Abraham yr A48/M4 | 20 | 27 | 0 | 8 | 19 |
| M4 | Cyffordd 30 yr M4, Porth Caerdydd | 15 | 23 | 0 | 1 | 22 |
| M4 | Cyffordd 32 yr M4, Coryton | 18 | 32 | 2 | 4 | 26 |
| M4 | Cyffordd Capel Llanilltern yr M4 | 17 | 26 | 0 | 0 | 26 |
| M4 | Cyffordd 43 yr M4, Llandarsi | 16 | 29 | 0 | 0 | 29 |
| M4 | Cyffordd 45 yr M4, Ynysforgan | 16 | 23 | 0 | 0 | 23 |
| M4 | Cyffordd 47 yr M4, Penllergaer | 16 | 25 | 0 | 5 | 20 |

* Cylchfan Black Cat yr A470/A55, wedi ei hepgor o'r ateb blaenorol

(B) Angheuol

| **Ffordd** | | **Nifer y Damweiniau** | **Nifer a Anafwyd** | **Nifer a Laddwyd** | **Anafiadau Difrifol** | **Mân Anafiadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A40 | Arnold's Hill | 3 | 8 | 2 | 4 | 2 |
| A4042 | Little Mill | 2 | 4 | 2 | 2 | 0 |
| A4042 | I'r de o Gylchfan Hardwick | 2 | 6 | 2 | 1 | 3 |
| A470 | Ffynnon Taf | 5 | 13 | 2 | 6 | 5 |
| A470 | Dolhelfra | 2 | 6 | 2 | 2 | 2 |
| A470 | Ger Betws-y-coed | 4 | 8 | 2 | 2 | 4 |
| A470 | Ger Plas Maenan | 2 | 3 | 2 | 0 | 1 |
| A477 | Red Roses | 5 | 12 | 2 | 4 | 6 |
| A483 | I'r de o Riwabon | 3 | 8 | 3 | 0 | 5 |
| A494 | Ger Llanuwchllyn | 2 | 4 | 2 | 0 | 2 |
| A5 | Troeon Padog | 4 | 5 | 2 | 1 | 2 |
| M4 | Ger Highcross, Cyffordd 27 yr M4 | 3 | 12 | 2 | 2 | 8 |
| M4 | Cyffordd 32, Coryton | 18 | 32 | 2 | 4 | 26 |
| M4 | Cyffordd 42, Pentyla | 4 | 7 | 2 | 0 | 5 |

## Y Diwydiant Prosesu Coed

**Leighton Andrews:** Pa asesiadau economaidd sydd wedi eu cynnal o'r cyfleoedd sydd ar gael i'r diwydiant prosesu coed yng Nghymru? (WAQ33943)

**Andrew Davies:** Mae Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth newydd gyllido gwaith ymchwil fydd yn sylfaen ar gyfer y cymorth a roddir i'r diwydiant coed yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ymchwil yn cael ei wneud gan Jaakko Pöyry Consulting, sy'n arbenigwyr byd-enwog yn y diwydiant coed. Mae'r ymchwil yn cynnwys ymarferiad i fapio'r diwydiant coedwigaeth sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, ynghyd ag astudiaeth feincnodi, i archwilio'r opsiynau strategol sydd ar gael o ystyried yr adnoddau a'r diwydiant fel y maent. Cyflwynwyd adroddiad drafft i weithgor 3 (sy'n darlunio Cymru fel lleoliad ymysg y gorau yn y byd ar gyfer diwydiannau coedwigaeth) y Fforwm Coedwigaeth ar 24 Mawrth 2004, a bydd yr adroddiad terfynol ar gael cyn diwedd Ebrill 2004.

## Trefnwyr Gwyliau

**Lisa Francis:** Faint o drefnwyr gwyliau fydd yn methu â masnachu ar ôl y Pasg, ac ymlaen i dymor yr haf, o ganlyniad i'r toriad mewn cymorth grant? (WAQ33963)

**Andrew Davies:** Nid yw'r cymorth grant i Fwrdd Croeso Cymru wedi cael ei gwtogi. Mae ar lefel uwch nag y bu erioed ar hyn o bryd a bydd yn cynyddu fymryn o 2004-05. Mae grantiau cymorth buddsoddi yn cael eu darparu ar gyfer prosiectau cyfalaf, nid fel cymhorthdal tuag at gostau rhedeg busnesau nad ydynt fel arall yn gallu cystadlu yn y farchnad. Mae'r cymorth ariannol o gronfeydd strwythurol Ewrop i raglenni'r bwrdd croeso yn hwb pellach ac mae grantiau wedi cael eu dyfarnu i lawer o brosiectau datblygu drwy gyfrwng y cyllid a oedd ar gael o'r rhain. Mae cam cyntaf y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd o dan gronfeydd strwythurol Ewrop wedi dod i ben ac mae cais am arian pellach ar gyfer ail gam yn cael ei baratoi. Disgwylir penderfyniad ar y cais hwnnw yn yr hydref. Yn y cyfamser, mae'r bwrdd croeso yn blaenoriaethu ei gymorth buddsoddi sydd wedi golygu bod rhai prosiectau wedi cael eu dal yn ôl hyd nes y bydd canlyniad ei gais am ragor o gyllid oddi wrth yr UE yn hysbys.

## Bwrdd Croeso Cymru

**Lisa Francis:** Faint o drefnwyr gwyliau sydd wedi derbyn llythyrau gan Fwrdd Croeso Cymru yn ymwneud â phrosiectau yr oeddynt yn gweithio arnynt? (WAQ33964)

**Lisa Francis:** Faint o drefnwyr gwyliau yng ngogledd Cymru sydd wedi derbyn llythyrau eleni gan Fwrdd Croeso Cymru yn eu hysbysu am doriadau yng ngrantiau'r bwrdd ar gyfer prosiectau yr oeddynt yn gweithio arnynt? (WAQ33965)

**Andrew Davies:** Nid oes lleihad yng nghymorth grant Bwrdd Croeso Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n dal ar lefel uwch nag y bu erioed. Mae'r bwrdd croeso yn derbyn grant ychwanegol o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Dywed Bwrdd Croeso Cymru wrthyf ei fod, hyd yma, wedi anfon 35 o lythyrau at ymgeiswyr am grant mewn ymateb i geisiadau a ddaeth i law am grantiau cymorth buddsoddi. Mae'r llythyrau yn egluro wrth yr ymgeiswyr fod cam cyntaf rhaglen gyfalaf y bwrdd croeso o dan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd wedi dod i ben a bod eu cais am grant yn cael ei ddal yn ôl hyd nes y bydd canlyniad cais am ragor o arian strwythurol oddi wrth yr UE yn hysbys. Pymtheg o lythyrau o'r fath sydd wedi cael eu hanfon at fusnesau yng ngogledd Cymru.

## Grantiau ar gyfer Prosiectau Twristiaeth a gymeradwywyd gan WEFO yn 2004

**Lisa Francis:** Faint o grantiau ar gyfer prosiectau twristiaeth a gymeradwywyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru eleni? (WAQ33967)

**Andrew Davies:** Nid yw WEFO eto wedi cymeradwyo unrhyw brosiectau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth yn 2004, gan ei bod yn gweithio ar sail blynyddoedd calendr yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, er bod nifer o brosiectau yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

## Grantiau ar gyfer Prosiectau Twristiaeth a gymeradwywyd gan WEFO yn 2003

**Lisa Francis:** Faint o grantiau ar gyfer prosiectau twristiaeth a gymeradwywyd gan WEFO y llynedd? (WAQ33968)

**Andrew Davies:** Cymeradwyodd WEFO 13 o brosiectau a oedd yn hybu twristiaeth yn uniongyrchol yn ystod 2003, ac ymhlith noddwyr y prosiectau yr oedd Bwrdd Croeso Cymru a Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru. Dylid nodi hefyd fod prosiectau eraill sy'n cael cymorth o du rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yng Nghymru yn cynnwys elfen o gefnogaeth i dwristiaeth leol, er na chaent eu hystyried yn 'brosiectau twristiaeth'—prosiectau megis tramffordd y Gogarth, plasty Aberglasne, Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Theatr Mwldan.

### Cymorth Grant ar gyfer Prosiectau Twristiaeth

**Lisa Francis:** A ddywedwyd wrth WEFO am ohirio'r holl daliadau cymorth grant ar gyfer prosiectau twristiaeth? (WAQ33969)

**Andrew Davies:** Naddo.

### Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

**Lisa Francis:** Faint o arian y bydd partneriaeth twristiaeth ranbarthol gogledd Cymru yn ei ddyrannu tuag at gyllido canolfannau croeso eleni? (WAQ33970)

**Lisa Francis:** Faint o arian gafodd ei ddyrannu gan bartneriaeth twristiaeth gogledd Cymru y llynedd tuag at gyllido canolfannau croeso? (WAQ33979)

**Andrew Davies:** Dyrannodd partneriaeth twristiaeth gogledd Cymru £46,000 yn 2002-03, a £30,000 yn 2003-04, i ganolfannau croeso.

### Cwmni Gwybodaeth i Dwristiaid

**Lisa Francis:** Beth yw pwrpas y cwmni gwybodaeth i dwristiaid? (WAQ33971)

**Lisa Francis:** Pa berthynas sydd rhwng y cwmni gwybodaeth i dwristiaid a 'visitwales.com'? (WAQ33972)

**Lisa Francis:** Ai pwrpas y cwmni gwybodaeth i dwristiaid yw darparu gwasanaeth cyfeirio ar gyfer ymwelwyr ac, os felly, sut y rhoddir hyn ar waith? (WAQ33973)

**Andrew Davies:** Nid wyf yn ymwybodol o gwmni o'r enw hwnnw, ac nid yw Bwrdd Croeso Cymru yn ymwybodol ohono ychwaith.

### Bwrdd Croeso Cymru (Costau Marchnata)

**Lisa Francis:** Faint o arian a wariodd Bwrdd Croeso Cymru y llynedd ar farchnata? (WAQ33974)

**Andrew Davies:** Gwariodd Bwrdd Croeso Cymru £13.582 miliwn ar ei weithgareddau marchnata yn y DU a thramor yn 2002-03.

### Niferoedd Ymwelwyr

**Lisa Francis:** Faint o gyfrifoldeb y mae Bwrdd Croeso Cymru yn ei gymryd dros niferoedd ymwelwyr? (WAQ33976)

**Andrew Davies:** Mae gan Fwrdd Croeso Cymru swyddogaeth statudol i annog pobl i ymweld â Chymru. Mae gan ei ymgyrchoedd marchnata, megis 'Mawredd Mawr', rôl allweddol yn dylanwadu ar bobl i ymweld â Chymru, ac mae gan y bwrdd dargedau penodol o ran ffrwyth ymgyrchoedd o'r fath—yn ymwneud yn bennaf â gwariant gan ymwelwyr. Fodd bynnag, mae llawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth a dylanwad y bwrdd sy'n gallu effeithio ar niferoedd ymwelwyr, ac mae hynny 'n digwydd yn aml.

### Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol

**Lisa Francis:** Faint o arian sydd wedi ei ddyrannu i bartneriaethau twristiaeth rhanbarthol yng Nghymru? (WAQ33977)

**Lisa Francis:** Faint o arian y mae pob un o'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yng Nghymru yn ei dderbyn? (WAQ33978)

**Andrew Davies:** Gyda'i gilydd, bydd y partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yn derbyn £3.5 miliwn yn 2004-05. Mae'r dadansoddiad rhanbarthol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Partneriaeth twristiaeth gogledd Cymru | £1,155,000 |
| Partneriaeth twristiaeth canolbarth Cymru | £665,000 |
| Twristiaeth rhanbarth y brifddinas | £805,000 |
| Partneriaeth twristiaeth de-orllewin Cymru | £875,000 |

### Consesiynau Teithio i Bobl Dros 60 a 65 oed

**Glyn Davies:** Pa gonsesiynau teithio am ddim sydd ar gael i bobl dros 60 oed a'r rheini dros 65 oed yng Nghymru? (WAQ34007)

**Glyn Davies:** Pa gonsesiynau teithio am bris gostyngol sydd ar gael i bobl dros 60 oed a'r rheini dros 65 oed yng Nghymru? (WAQ34008)

**Andrew Davies:** Er 1 Ebrill 2002, yr oedd gofyniad ar awdurdodau lleol i warantu teithio am ddim ar wasanaethau bws lleol i fenywod 60 oed a throsodd, i ddynion 65 oed a throsodd ac i bobl anabl. Er 1 Ebrill 2003, cafodd hyn ei ymestyn i ddynion 60 oed a throsodd. Yn ogystal, mae rhyddid i'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd gynnig consesiynau teithio i ddosbarthiadau o bobl fel a bennwyd yn Neddf Trafnidiaeth 1985. Mae teithwyr 60 oed a throsodd ar y rheilffyrdd yn gymwys yn awtomatig i gael cerdyn rheilffordd i bobl hŷn, sy'n eu galluogi i deithio ar hyd a lled rhwydwaith rheilffyrdd y DU am draean o gost y rhan fwyaf o docynnau dosbarth cyntaf a thocynnau arferol. Mae'r tocyn rheilffordd yn costio £18, ac mae'n ddilys am flwyddyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cymunedau yn Gyntaf (Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad)

**Leighton Andrews:** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi mewn llythyrau cylch gwaith at gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o fewn ei phortffolio ynghylch mynd i'r afael ag agendâu Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33318)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae disgwyl i CCNC ymgymryd â'u gwaith yn unol â gwerthoedd, egwyddorion a safonau'r Cynulliad ac iddynt gyfrannu, fel sy'n briodol, tuag at ei agenda strategol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. I sicrhau bod hyn yn digwydd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn datblygu proses cynllunio busnes newydd sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweithio drwy bartneriaeth i wireddu agenda'r Llywodraeth. O safbwynt agendâu Cymunedau yn Gyntaf, mae'r llythyrau cylch gwaith a anfonir at bob CCNC gweithredol yn datgan ei bod yn ofynnol iddynt nodi sut y byddant yn cydweithio â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf; sut y byddant yn cynorthwyo ac yn hybu'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu cymunedol a'u rhoi ar waith; a sut y byddant yn cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau cymunedol yr awdurdodau lleol. Bydd gofyn i CCNC ddangos sut y byddant yn cyflawni hyn yn eu cynlluniau corfforaethol.

## Cyrhaeddiad Addysgol mewn Cymunedau Difreintiedig

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sydd wedi'i wneud o ran cyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? (WAQ33506)

**Jane Davidson:** Mae ein polisïau wedi eu bwriadu i wella cyrhaeddiad yn yr ysgolion yn ein holl gymunedau. Gall disgyblion ac ysgolion lwyddo, ni waeth ymhle y maent wedi'u lleoli. Yr ydym wedi datblygu ystod eang o bolisïau a fydd yn cael effaith lesol ar gyrhaeddiad—lleihau maint dosbarthiadau iau, y cyfnod sylfaen, gwell pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, y rhaglen anelu at ragoriaeth sydd wedi'i thargedu at ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3, bagloriaeth Cymru a'r llwybrau dysgu 14-19. Yr wyf hefyd wedi ymrwymo i gau'r blwch rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio waethaf. Dangosodd adroddiad 'Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion' am ysgolion uwchradd a gyhoeddwyd yn 2002 fod modd i ysgolion dorri'r ddolen gyswllt rhwng amddifadedd a pherfformiad isel, er bod cysylltiad agos rhwng y ddau beth. Disgrifiai'r adroddiad nodweddion allweddol ysgolion sy'n gweithredu'n llwyddiannus o dan amgylchiadau anodd. Mae astudiaeth gyffelyb yn cael ei chynnal mewn perthynas ag ysgolion cynradd a chaiff ei chwblhau eleni.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £170 miliwn drwy raglen y grantiau cynnal addysg a hyfforddiant a'r gronfa ysgolion gwell i awdurdodau lleol Cymru. Dyrennir arian ar sail fformiwla, sy'n cynnwys ffactor amddifadedd. Mae grant arbennig o £3 miliwn wedi cael ei ddarparu hefyd yn y flwyddyn ariannol hon a chaiff ei ddarparu eto yn 2004-05 i alluogi'r awdurdodau lleol i gynorthwyo ysgolion sy'n perfformio'n wael.

## Cyfleusterau Chwaraeon Ysgolion

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau chwaraeon ysgolion ledled Cymru? (WAQ33510)

**Jane Davidson:** Mae'r cyfleusterau chwaraeon yn ein hysgolion yn hanfodol bwysig o ran cyflwyno'r cwricwlwm yn yr un ffordd ag y mae holl adeiladau a chyfleusterau ysgolion. O'r herwydd, maent yn dod o fewn ein targed y dylai pob ysgol yng Nghymru, erbyn 2010, fod mewn cyflwr da yn saernïol fel bod modd cyflwyno'r cwricwlwm a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Daw'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau chwaraeon o fewn y meini prawf ar gyfer y grant gwella adeiladau ysgolion. Mae'r awdurdodau addysg lleol yn rhydd i benderfynu pa ysgolion a ddylai elwa ac i benderfynu ar natur y prosiectau yr ymgymerir â hwy yng ngoleuni anghenion a blaenoriaethau lleol sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Dros y pedair blynedd nesaf bydd rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon ysgol y gronfa cyfleoedd newydd yng Nghymru, sy'n werth dros £48 miliwn, yn cefnogi prosiectau i adnewyddu cyfleusterau chwaraeon presennol dan do ac awyr agored a darparu rhai newydd at ddefnydd ysgolion a'r gymuned ehangach. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo addysg gorfforol a chwaraeon o fewn cwricwlwm yr ysgol a thrwy weithgareddau allgyrsiol ac mae wedi ei theilwrio i sicrhau ei bod yn ateb anghenion Cymru. Mae'r gronfa cyfleoedd newydd yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr awdurdodau lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru ac Estyn i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rhoi ar waith drwy brosiectau sy'n ategu ac yn ychwanegu at gynlluniau lleol a'r cynllun gweithredu i Gymru ar addysg gorfforol a chwaraeon ysgol. Yr awdurdodau lleol sy'n arwain y gwaith o bennu'r blaenoriaethau lleol o ran arian o du'r gronfa cyfleoedd newydd. Bydd y cyfleoedd ehangach a'r cyfleusterau rhagorach a geir yn sgîl hyn yn gyfraniad pwysig tuag at wella ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i holl bobl ifanc Cymru.

## Comisiwn Rees

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn dilyn cyhoeddi cylch gorchwyl comisiwn Rees? (WAQ33512)

**Jane Davidson:** Bydd yr Athro Rees yn dechrau ar ei hadolygiad pan gaiff y Mesur Addysg Uwch Gydsyniad Brenhinol. Y gobaith yw y gallai hynny ddigwydd ym mis Gorffennaf. Bydd aelodaeth y grŵp adolygu yn cynnwys aelodau o'r grŵp ymchwilio i galedi ymysg myfyrwyr ynghyd â rhai aelodau ychwanegol i adlewyrchu'r cylch gwaith ehangach. Yr wyf yn gobeithio cadarnhau'r aelodaeth yn fuan. Yr wyf wedi gofyn i'r Athro Rees adrodd ar fater allweddol y polisi o ran ffïoedd amrywiol erbyn mis Chwefror 2005 a darparu adroddiad terfynol erbyn mis Mai 2005.

## Cyrsiau mewn Prifysgolion a ddysgir yn Gymraeg yn Unig

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cyrsiau ym mhrifysgolion Cymru sy'n cael eu dysgu yn Gymraeg yn unig? (WAQ33514) [R]

**Jane Davidson:** Mae data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch am 2002-03 yn cofnodi oddeutu 120 o gyrsiau yr ymgymerodd myfyrwyr â nhw yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni anrhydedd sengl neu gyd-anrhydedd neu raglenni anrhydedd gyfun, gan gynnwys iaith a llenyddiaeth Gymraeg, rhai amser llawn a rhan-amser, yn ogystal â chymwysterau lefel ôl-radd. Cofnodir pob cyfuniad o bynciau fel cwrs ar wahân, ac mae oddeutu 100 o'r cyrsiau yn bynciau ar wahân i'r Gymraeg ei hun neu'n cynnwys pwnc arall ynghyd â'r Gymraeg.

Cofnodwyd tua 350 o gyrsiau lle'r oedd myfyrwyr yn dilyn rhyw elfen o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r ganran, fodd bynnag, amrywio o gyfran sylweddol o'r cwrs yn cael ei ddilyn drwy gyfrwng y Gymraeg i elfennau cymharol fach.

O ran y data a ddarparwyd, casglir data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar sail myfyrwyr unigol. Drwy ddadansoddi'r maes hwn ceir rhyw syniad o'r ddarpariaeth y manteisiwyd arni yn hytrach na chofnod pendant o nifer y cyrsiau lle gwnaed yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'n cipio cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg ond nad oes neb yn cofrestru amdanynt.

## Cau Ysgolion Gwledig

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gau ysgolion gwledig? (WAQ33517)

**Jane Davidson:** Yr awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol am drefniadaeth ysgolion yn eu hardaloedd lleol. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau addysg lleol yn cael eu cyflenwi'n effeithiol. Os bydd cynnig i gau ysgol yn ysgogi gwrthwynebiadau, a bod y penderfyniad yn cael ei gyfeirio ataf fi, rhaid imi gael fy argyhoeddi fod yr awdurdod addysg lleol wedi cymryd yr holl faterion perthnasol i ystyriaeth. Yn arbennig, rhaid imi fod yn fodlon fod unrhyw gynnig i gau ysgol yn adlewyrchu'r angen i gynnal a gwella safonau, ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r hyn sydd orau gan rieni a'i fod yn darparu mynediad i ysgolion sy'n weddol leol. Ni fyddwn fel arfer yn barod i gymeradwyo cau ysgol boblogaidd ac effeithiol oni bai fod tystiolaeth y byddai'r ysgol a awgrymir yn ei lle yn cynnig cystal addysg a'r un amrywiaeth o addysg o leiaf, a hynny am gost is drwyddi draw.

Lle bo a wnelo cynigion cau ag ysgolion gwledig, mae ystyriaethau ychwanegol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys y sialensiau addysgol a wynebir gan ysgolion bach, y goblygiadau cludiant rhwng yr ysgol a'r cartref a'r cynnydd yn hyd y siwrneiau, yr effaith ar y gymuned yn ei chyfanrwydd ac i ba raddau y mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned gyfan fel adnodd dysgu.

Nid yw hyn yn golygu y dylai ysgolion gwledig aros ar agor bob amser, ond rhaid i'r achos o blaid eu cau fod yn un cryf a rhaid i'r cynigion fod er lles pennaf y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.

## Y Mesur Trafnidiaeth Ysgol Drafft

**David Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan am y Mesur Trafnidiaeth Ysgol drafft? (WAQ33518)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddarach am y datblygiadau mewn cysylltiad â'r Mesur Trafnidiaeth Ysgol drwy gyfrwng adroddiadau briffio yn hytrach na thrwy drafodaethau gyda'm cydweithwyr yn San Steffan. Mae fy swyddogion a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wedi ymwneud llawer â'r gwaith o baratoi'r Mesur drafft, a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ar 8 Mawrth.

## Prydau Ysgol

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth prydau ysgol? (WAQ33520)

**Jane Davidson:** Yr awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol am brydau ysgol, neu gyrff llywodraethu'r ysgolion lle mae'r swyddogaeth wedi cael ei dirprwyo. Rhaid i awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ddarparu ciniawau ysgol i ddisgyblion sydd â hawl i brydau am ddim a gallant ddarparu ar gyfer disgyblion eraill. Rhaid i giniawau ysgol gydymffurfio â'r safonau maeth gofynnol a nodwyd yn Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2003 yn rhoi cyngor i awdurdodau addysg lleol ac arlwywyr ysgolion ar fodloni'r safonau a nodwyd yn y rheoliadau neu ragori arnynt. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor hefyd ynghylch deiet iach a darparu bwyd iach y mae pobl ifanc yn ei fwynhau, ynghyd â ffyrdd o wella'r gwasanaeth prydau ysgol ac annog disgyblion i'w ddefnyddio.

## Gwella Adeiladau Ysgolion

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'n eu cymryd i wella adeiladau ysgolion? (WAQ33522)

**Jane Davidson:** Mae'r cyfrifoldeb am adeiladau ysgolion yn gorffwys yn bennaf gyda llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn derbyn cymorth gan y Cynulliad i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion mewn dwy brif ffordd. Mae cyllid cyfalaf cyffredinol yn cael ei ddarparu drwy'r setliad cyfalaf ac mae'n cynnwys £54.939 miliwn ar gyfer addysg ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r cyllid hwn wedi cael ei glustnodi, ac mae'r awdurdodau'n rhydd i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben cyfalaf.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn derbyn cyllid na cheir ei ddefnyddio ond at ddibenion cyfalaf addysg drwy'r rhaglen grant gwella adeiladau ysgolion. Bydd y cyllid hwn yn cynyddu i £139 miliwn yn 2005-06. Mae'r grant yn rhoi dyraniad blynyddol i bob awdurdod ar sail fformiwla ac, yn y cyfnod 2005-10, bydd pob awdurdod yng Nghymru hefyd yn cael cyfandaliad o £9 miliwn ar gyfer prosiectau mwy.

Yr awdurdod lleol sy'n penderfynu, yng ngoleuni anghenion a blaenoriaethau lleol, pa ysgolion unigol ddylai elwa a phryd.

Mae'r Cynulliad hefyd yn darparu cymorth grant o 85 y cant tuag at wariant cyfalaf cymwys a wynebir gan gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Bydd y gyllideb flynyddol ar gyfer hyn yn parhau i fod yn £9.5 miliwn.

## Cynigion Estyn i Agor Ysgolion Drwy Gydol y Flwyddyn

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion Estyn i agor ysgolion drwy gydol y flwyddyn? (WAQ33523)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn ymwybodol fod Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi dros Gymru, yn ei hadroddiad blynyddol am 2002-03, a gyhoeddwyd ar 9 Chwefror 2004, wedi awgrymu y dylid adolygu trefniadau cyfredol y flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau ei bod yn ateb anghenion yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg lleol yw materion o'r fath.

Mae fy swyddogion, serch hynny, wedi ysgrifennu at Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn gofyn am gyfarfod i drafod pa newidiadau y maent yn ystyried eu cyflwyno o bosibl, os ydynt yn ystyried newidiadau o gwbl.

### Addysg Ôl-16 yn y Gogledd

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar addysg ôl-16 yn y Gogledd? (WAQ33525)

**Jane Davidson:** Mae'r sefyllfa drwyddi draw yn y Gogledd yn gadarnhaol iawn. Mae'r niferoedd sy'n cyfranogi mewn rhaglenni dysgu yn dal i gynyddu, mae'r canlyniadau Safon Uwch yn dal i wella, ac mae'r hyn sy'n cael ei gyflawni drwy hyfforddiant academaidd a galwedigaethol arall hefyd yn dda iawn. Mae'n werth nodi i Goleg Glannau Dyfrdwy ennill gwobr pen-blwydd y Frenhines ym maes addysg uwch ac addysg bellach yn 2003 ac i Goleg Llandrillo ennill dyfarniad Beacon am addysgu ym maes technoleg gwybodaeth.

Yn y sector addysg uwch, mae Prifysgol Cymru, Bangor ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n cofrestru o flwyddyn i flwyddyn. Cafodd Bangor ei chynnwys yn y 500 prifysgol uchaf ar draws y byd mewn arolwg newydd, a gwelodd Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru 98 y cant o'i graddedigion busnes yn sicrhau swyddi o fewn chwe mis iddynt raddio.

### Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg

**Janet Ryder:** Faint o arian sydd wedi'i glustnodi i sicrhau continiwm ieithyddol er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r sawl sydd eisiau mynd ymlaen i addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ33543) [W]

**Jane Davidson:** Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar hyn o bryd yn rhoi £1.6 miliwn ar gyfer y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu addysg Gymraeg. Rhoddir hwn yn ychwanegol at y gost sylfaenol o addysgu myfyrwyr. Mae CCAUC hefyd yn ariannu dwy gymrodoriaeth ddysgu cyfrwng Cymraeg am gost o £25,000.

Ond nid dyma'r darlun llawn. Mae CCAUC yn helpu i ariannu'r grŵp llywio cenedlaethol, a fydd yn datblygu ac yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector, a hynny o fewn y ddarpariaeth sylfaenol. Yn ogystal, bydd pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn helpu i ariannu Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu drwy Gyfrwng y Gymraeg.

Yr wyf hefyd wedi annog sefydliadau i gyflwyno prosiectau cydweithredol ar gyfer datblygu addysg Gymraeg y gallai'r gronfa 'Ymgeisio yn Uwch' eu hariannu.

### Continiwm Ieithyddol Addysg Gymraeg

**Janet Ryder:** Pa strwythurau sydd mewn lle i sicrhau continiwm ieithyddol o addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg i addysg uwch? (WAQ33544) [W]

**Jane Davidson:** Mae Dysgu ac Addysgu Cymru wedi datblygu strategaeth dysgu dwyieithog hirdymor ac wedi sefydlu uned benodol i fynd i'r afael â hi. Mae is-bwyllgor dwyieithrwydd y cyngor, sy'n cynnwys aelodau o sawl sector, gan gynnwys rhai â gwybodaeth a phrofiad ym maes addysg uwch, yn arsylwi ar brosesau gweithredu'r strategaeth. Mae swyddog o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fel arsyllydd.

Prif nodau strategaeth ELWa yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei threfnu'n effeithiol, gan ddarparu cyrsiau sy'n bodloni gofynion dysgwyr ar bob lefel ar draws y wlad. Mae ELWa hefyd yn anelu at ddileu'r rhwystrau i ddysgu er mwyn galluogi dysgwyr i symud yn rhwydd drwy'r lefelau dysgu fel bod cynifer â phosibl ohonynt yn dod yn rhugl.

Ym maes addysg uwch, mae'r uned addysgu cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd gan Brifysgol Cymru yn 2000, yn gweithio ar ran y sector cyfan er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac er mwyn ehangu'r ddarpariaeth.

Mae CCAUC hefyd wedi sefydlu grŵp llywio cenedlaethol er mwyn paratoi strategaeth genedlaethol ac arsylwi ar brosesau ei gweithredu. Mae'r grŵp llywio wedi cytuno i ganolbwyntio'n gyntaf ar farchnata blaenweithgar ac ysgogi gofyn, datblygu a recriwtio staff, a datblygu darpariaeth newydd a dulliau arloesol o weithredu o fewn fframweithiau cydweithrediadol. Yn ogystal, mae CCAUC yn dyrannu £1.6 miliwn ar hyn o bryd fel cydnabyddiaeth o'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â darparu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r arian hwn yn ychwanegol at yr hyn a ddyrennir ar gyfer addysgu myfyrwyr.

**Dysgu Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru**

**Nick Bourne:** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo dysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru? (WAQ33590)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghymru? (WAQ33605)

**Jane Davidson:** Mae'r strategaeth ieithoedd genedlaethol i Gymru wedi'i chynnwys yn ein cyhoeddiad 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002 ac sy'n cael ei rhoi ar waith gennym. Ar lefel gynradd, mae ein prif bartner, Canolfan Wybodaeth ac Ymchwil ar Ddysgu Ieithoedd Cymru (CILT Cymru), yn goruchwylio'r gwaith o dreialu dysgu ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2, a ddechreuodd ym mis Medi 2003 ac a fydd yn parhau tan fis Gorffennaf 2005. Mae 21 o glystyrau ar draws Cymru sy'n cynnwys 96 ysgol gynradd a 22 ysgol uwchradd. Mae'r cynlluniau peilot cyfnod allweddol 2 hyn yn cynnwys amryw o fathau o ysgolion, dros eu hanner yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'r grwpiau blwyddyn yn amrywio o flwyddyn 4 i flwyddyn 6, a'r ieithoedd sy'n cael eu dysgu yw Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg ac Eidaleg. Mae'r clystyrau yn defnyddio amryw o fodelau cyflwyno, gan gynnwys athrawon uwchradd yn ymweld ag ysgolion cynradd, athrawon cynradd yn gwneud yr addysgu, defnyddio athro teithiol, neu ddefnyddio cynorthwyydd iaith dramor.

Yr ydym yn darparu cyllid o hyd at £2,000 y flwyddyn i bob ysgol gynradd, a darperir arian cyfatebol gan yr ysgol neu'r AALl.

Ar lefel uwchradd, mae CILT Cymru wedi sefydlu cyfamodau gyda 47 o ysgolion uwchradd. Mae'r rhain yn cael rhaglen o gymorth a hyfforddiant mewn swydd gogyfer â ieithoedd tramor modern er mwyn gwella eu hadran ieithoedd a hyrwyddo ieithoedd i'r disgyblion. Mae CILT Cymru yn trefnu digwyddiadau i'r athrawon a'r myfyrwyr ac mae hefyd wedi cynhyrchu fideos i godi ymwybyddiaeth o ieithoedd tramor modern ac fel y mae modd defnyddio sgiliau iaith o fewn y farchnad swyddi.

Yn ychwanegol at hynny, mae pwysigrwydd dysgu iaith dramor wedi cael ei gydnabod o fewn elfennau cymhwyster bagloriaeth Cymru, sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn 18 canolfan ar draws Cymru mewn cymysgedd o ysgolion a cholegau. Mae'n cynnwys modiwl iaith 20 awr yn rhan o'i graidd, sy'n orfodol i bob myfyriwr pa un a yw'n astudio'r celfyddydau, y gwyddorau ynteu bynciau galwedigaethol.

Mae Estyn wedi cyhoeddi canllawiau newydd i ysgolion yn dangos yr arferion gorau wrth ddysgu ieithoedd o dan y teitl 'Anelu at Ragoriaeth mewn Ieithoedd Tramor Modern'. Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau newydd i ysgolion ar y dull

o addysgu a dysgu ieithoedd, yn cwmpasu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, o dan y teitl ‘Gwneud y Cysylltiad Dysgu Iaith 5-14’.

O ran niferoedd, yng nghyfnod allweddol 3—11 i 14 oed—mae ieithoedd tramor modern yn rhan o’r cwricwlwm i bob disgybl cofrestredig mewn ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4 cesglir data am y nifer o ddisgyblion 15 oed a fydd yn ymgeisio am TGAU. Yr oedd y ffigur hwn, a gymerwyd o’r bwletin ystadegol a gyhoeddwyd gan y gyfarwyddiaeth ystadegau ym mis Awst 2003, yn 14,125 yn 2002. Mae hyn yn cynnwys 18 o ieithoedd i gyd.

Yn ôl cyfrifiad ysgolion ôl-16 mis Medi, 3,305 oedd wedi cofrestru ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Eidaleg o fewn sefydliadau chweched dosbarth yng Nghymru ym mis Medi 2003. Yr oedd rhyw 1,300 o’r rhain wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch, 1,970 ar gyfer Safon Uwch Atodol a 35 ar lefel TGAU.

O ran sefydliadau addysg bellach, mae cofnod myfyrwyr unigol ELWa yn dangos 9,805 o gofrestriadau yn 2002-03 yn yr un pedair iaith, 25 ohonynt ar lefel addysg uwch. Cofrestrodd 3,090 pellach ar gyfer ieithoedd eraill, gan gynnwys Groeg, Iseldireg, Arabeg, Wrdw a Japanaeg.

Dangosodd data oddi wrth yr asiantaeth ystadegau addysg uwch ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru fod 3,430 o israddedigion wedi cofrestru ar gyfer ieithoedd tramor modern yn 2002-03 a 220 ar lefel ôl-radd.

(Noder: mae ffigurau wedi’u talgrynnu i’r pum cofrestriad agosaf.)

### Nawdd Preifat ar gyfer Gwasanaethau Addysgol Gwladol

**Nick Bourne:** A all y Gweinidog roi manylion am unrhyw nawdd preifat a gaiff ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau addysgol gwladol yng Nghymru? (WAQ33591)

**Jane Davidson:** Noddir Anelu’n Uwch Cymru gan grŵp y Royal Bank of Scotland. Mae sioe deithiol Anelu’n Uwch Cymru yn ymweld ag ysgolion ac yn rhoi profiad ysbrydoledig i fyfyrwyr blwyddyn 9, yn eu hannog i ystyrid addysg uwch fel opsiwn.

### Ymgyfreitha

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi, fesul pob blwyddyn ers 1999, maint y gyllideb ar gyfer ymgyfreitha, a’r union swm a wariwyd ar ymgyfreitha ym mhob un o’r blynyddoedd hynny? (WAQ33601)

**Jane Davidson:** Nid oes cyllideb ar wahân ar gyfer ymgyfreitha o fewn addysg a dysgu gydol oes. Mae Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol yn ymgyfreitha ar ein rhan, ac ariennir y gwaith hwn o gyllideb gwasanaethau cyfreithiol ganolog y Cynulliad a chyllideb gyfreithiol Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol ei hun.

Ni ellir gwahaniaethu rhwng gwaith ymgyfreitha yr ymgymerwyd ag ef cyn 2001-02 a gwaith cynghori. O’r herwydd, gwariant o 2001-02 ymlaen a ddangosir isod. Mae’n ymwneud ag achos Clwyd Hall yn ddiweddar, apêl i Lys Hawliau Dynol Ewrop, ynghyd â gwaith cyn-ymgyfreitha ar ddau fater arall. Mae’r symiau’n cynnwys costau cyfreithwyr y Trysorlys, ffioedd cwnsleriaid, alldaliadau a TAW.

| | **£** |
|---|---:|
| 2001-02 | 4,067.86 |
| 2002-03 | 11,423.19 |
| 2003-04 hyd yma | 10,104.58 |
| Cyfanswm | 25,595.63 |

## Man Chwarae Arfaethedig ar gyfer Ysgol Llwynu

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint y man chwarae arfaethedig ar gyfer ysgol newydd Llwynu yn y Fenni? (WAQ33657)

**Jane Davidson:** Mae AALl Sir Fynwy wedi bod yn ymgynghori â rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill ynglŷn â'r cyfluniad gorau i'r mannau chwarae ar safle'r ysgol newydd yn Llwynu ac yn addasu ei gynlluniau yn unol â hynny. Yn ôl a ddeallaf, mae yna gaeau chwarae i'r gorllewin a fydd, o'u hystyried ar y cyd â'r cyfleusterau chwarae a ddarperir ar safle'r ysgol ei hun, yn sicrhau arwynebedd chwarae digonol ar gyfer y nifer ragamcanedig o ddisgyblion.

## Arian ar gyfer Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon

**Jonathan Morgan:** Pa ganllawiau sydd wedi'u rhoi i'r AALlau er mwyn sicrhau bod yr arian ar gyfer y cytundeb llwyth gwaith athrawon yn cael ei ddarparu yn ychwanegol at gyllideb graidd yr ysgolion? (WAQ33813)

**Jane Davidson:** Dim. Mae'r £30 miliwn o gyllid ychwanegol a ddarparwyd yn setliad refeniw llywodraeth leol (ynghyd â'r £3 miliwn a drosglwyddwyd o wariant rhaglenni i'r setliad refeniw) yn adlewyrchu ein hasesiad o gost y cytundeb. Cafodd y cyllid hwn ei nodi'n glir i'r diben hwnnw yn natganiad Sue Essex ar y gyllideb a disgwyliaf i'r awdurdodau lleol adlewyrchu ymrwymiad ychwanegol Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyllidebau addysg.

## Ysgol Pen-y-fai

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae swyddogion y Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch yr angen am ysgol newydd yn lle Ysgol Pen-y-fai? (WAQ33817)

**Jane Davidson:** Mae fy swyddogion wedi trafod anghenion yr ysgol hon gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr droeon. Mae'r awdurdod o'r farn fod darparu adeilad newydd ar gyfer ysgol gynradd Pen-y-fai yn flaenoriaeth allweddol. Daw gwaith o'r fath o fewn y meini prawf a nodwyd yn Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002 ac, felly, gall yr awdurdod ddefnyddio ei grant gwella adeiladau ysgolion oddi wrth y Cynulliad i ariannu'r gwaith.

Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi bod cyfandaliad o £9 miliwn yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol dros y cyfnod 2005-10.

Mae'r awdurdodau wedi darparu manylion bras am sut y maent yn dymuno defnyddio eu dyraniadau o £9 miliwn a gofynnwyd iddynt gadarnhau neu ychwanegu at y wybodaeth a ddarparwyd. Mae prosiect i ddarparu adeilad newydd ar gyfer yr ysgol hon wedi ei gynnwys yn y cynlluniau bras a gyflwynwyd gan yr awdurdod. Penderfynir ar amseriad y grantiau hyn mewn ymgynghoriad â CLlLC. Wrth benderfynu ar drefn y dyraniadau, un ystyriaeth allweddol fydd amseriad y cynllun neu'r cynlluniau y mae awdurdod yn ei roi neu yn eu rhoi gerbron. Disgwyliaf gyhoeddi'r dyraniadau ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

## Arian ar gyfer Ysgolion Newydd

**Peter Black:** Pa arian ychwanegol sydd ar gael i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i adeiladu ysgolion newydd yn y tair blynedd nesaf a phryd y rhagwelir y bydd yn ei dderbyn? (WAQ33818)

**Jane Davidson:** Bydd pob awdurdod yng Nghymru yn parhau i dderbyn dyraniadau grant gwella adeiladau ysgolion yn flynyddol ar sail fformiwla. Mae dyraniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2004-05 yn £1,376,933 a bydd yn derbyn symiau cyffelyb yn 2005-06 a 2006-07.

Yn ychwanegol, bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn cael cyfandaliad o £9 miliwn yn y cyfnod 2005-10 i'w alluogi i ymgymryd â chynlluniau mwy. Mae'r dyraniadau yn debygol o fod ar gael i bob awdurdod dros

fwy nag un flwyddyn ariannol ond ni phenderfynwyd eto pa bryd y bydd yr awdurdodau unigol yn derbyn eu dyraniadau.

### Terfynau Amser ar gyfer Ateb Gohebiaeth

**Peter Black:** Faint o amser y mae'r Gweinidog yn ei ganiatáu iddi'i hun er mwyn ateb gohebiaeth a sawl gwaith y mae wedi methu â chadw at yr amser hwnnw? (WAQ33852)

**Jane Davidson:** Er nad oes terfynau amser wedi cael eu pennu ar gyfer ymateb i ohebiaeth, y drefn arferol yw bod y swyddogion yn prosesu gohebiaeth o fewn 17 diwrnod gwaith. Atebwyd 89 y cant o'm gohebiaeth weinidogol o fewn 17 diwrnod gwaith.

### Yr Amser ar Gyfartaledd a Gymerwyd cyn Ymateb i Lythyron oddi wrth Aelodau'r Cynulliad

**Peter Black:** Ar gyfartaledd, faint o amser y mae'r Gweinidog wedi ei dreulio cyn ymateb i lythyron oddi wrth Aelodau'r Cynulliad? (WAQ33853)

**Jane Davidson:** Deuddeg diwrnod gwaith.

### Cyfnod Hiraf o Amser a Gymerwyd cyn Ymateb i Lythyr

**Peter Black:** Beth yw'r cyfnod hiraf o amser y mae'r Gweinidog wedi ei dreulio cyn ymateb i lythyr? (WAQ3854)

**Jane Davidson:** Deg a phedwar ugain diwrnod gwaith. Er bod hyn lawer yn hwy na'r amser a gymerir ar gyfartaledd i ymateb i lythyrau (11 diwrnod gwaith), mae angen mwy o amser i lunio ymateb cynhwysfawr i rai llythyron. Yn gyffredinol, mae angen mwy o amser pan fydd yn rhaid ymgynghori ag un o adrannau Llywodraeth y DU neu gyrff allanol.

### Cyllid Cyfalaf

**Alun Cairns:** Pa awdurdodau lleol a/neu ysgolion fydd wedi'u cynnwys yn y gyfran gyntaf ar gyfer cyllid cyfalaf? (WAQ33868)

**Alun Cairns:** Sut y mae'r Gweinidog yn blaenoriaethu cynlluniau cyllid cyfalaf ar gyfer adeiladau ysgolion newydd? (WAQ33869)

**Jane Davidson:** Bydd yr awdurdodau lleol yn cael swm ychwanegol o £9 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf, ar sail unwaith yn unig, rhwng 2005 a 2010. Mae'r symiau unwaith yn unig hyn yn ychwanegol at y gyfran wedi'i seilio ar fformiwla o'r grant gwella adeiladau ysgolion y mae'r awdurdodau yn dal i'w derbyn bob blwyddyn a'r cyllid blynyddol a ddarperir drwy'r dyraniadau cyfalaf cyffredinol.

Mae'r awdurdodau eisoes wedi darparu manylion bras am sut y maent yn dymuno defnyddio'r dyraniad o £9 miliwn y byddant yn eu cael ac yr ydym wedi gofyn iddynt gadarnhau'r wybodaeth a ddarparwyd neu ychwanegu ati. Penderfynir ar amseriad y grantiau hyn mewn ymgynghoriad â CLlLC. Wrth benderfynu ar drefn y dyraniadau, un ystyriaeth allweddol fydd amseriad y cynllun neu'r cynlluniau y mae awdurdod yn ei roi neu yn eu rhoi gerbron. Disgwyliaf gyhoeddi'r dyraniadau ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

### Ariannu Ysgol Newydd ym Mhen-y-fai

**Alun Cairns:** Pa ymrwymiad ariannol, os o gwbl, y mae'r Gweinidog wedi'i roi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr i ariannu ysgol newydd ym Mhen-y-fai? (WAQ33870)

**Jane Davidson:** Nid oes ymrwymiad pendant wedi ei roi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd. Mae pob awdurdod wedi rhoi amlinelliad bras i ddangos sut y bwriada ddefnyddio'r grant

gwella adeiladau ysgolion o £9 miliwn a delir i bob AALl yn 2005-10. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi nodi ei fod yn dymuno defnyddio rhan o'r cyllid hwn i godi adeilad newydd ar gyfer ysgol Pen-y-fai. Mae defnydd o'r fath yn gwbl briodol ac yr wyf yn disgwyl rhoi cymeradwyaeth cyn gynted ag y gwneir penderfyniadau ynglŷn â threfn y dyraniadau i'r awdurdodau unigol.

### Cyllid wedi'i Ddyrannu i Sir y Fflint

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i sir y Fflint ers mis Mai 2003? (WAQ33876)

**Jane Davidson:** Dyma'r cyllid a ddyrannwyd i Gyngor Sir y Fflint o bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mlwyddyn ariannol 2003-04:

| **Pwrpas** | **Swm (£)** |
|---|---:|
| Grant addysg i grwydriaid a phobl wedi'i dadleoli | 101,144 |
| Grantiau cynnal addysg a hyfforddiant | 2,562,046 |
| Grant gwella adeiladau ysgolion | 1,576,793 |
| Grant arbennig – mesurau gwella ysgolion | 1,689,343 |
| Grant arbennig – arloesi mewn ysgolion bach/gwledig | 183,713 |
| Grant arbennig – cymorth gweinyddol mewn ysgolion | 138,000 |
| Ehangu'r ddarpariaeth i blant tair oed | 710,500 |
| Grantiau dysgu'r Cynulliad | 1,107,581 |
| Cyfranogiad y sector gwirfoddol mewn partneriaethau pobl ifanc | 20,000 |
| ELWa – ysgolion ôl-16 | 5,322,383 |
| ELWa – dysgu cymunedol | 3,000 |
| Strategaeth sgiliau sylfaenol | 342,934 |
| **Cyfanswm** | 13,757,437 |

Y cyllid arall a ddyrannwyd i sefydliadau yn sir y Fflint yr wyf wedi gallu ei ganfod yn yr amser sydd ar gael yw £15,568 i Goleg Glannau Dyfrdwy i gyflwyno bagloriaeth Cymru.

O safbwynt cyllid ELWa ar gyfer addysg bellach, derbyniodd Coleg Glannau Dyfrdwy rhyw £12 miliwn a derbyniodd Coleg Garddwriaeth Cymru rhyw £3.5 miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyllid drwy'r drefn gyllido gylchol, cost cyfalaf a dyraniadau ar gyfer cyflwyno dysgu yn seiliedig ar waith.

Mae Gyrfa Cymru yn y Gogledd-ddwyrain yn darparu gwasanaethau yn Wrecsam, sir y Fflint a rhan o sir Ddinbych. Er bod y gwasanaethau'n cael eu gwasgaru'n gyson ar draws yr ardaloedd hyn, nid yw'r cwmni'n dadagregu'r costau fesul sir.

### Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru

**Michael German:** Beth yw'r meini prawf ar gyfer ceisiadau am leoedd yng Ngherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru? (WAQ33898)

**Michael German:** Beth yw rôl awdurdodau addysg lleol unigol wrth gymeradwyo'r holl geisiadau i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru? (WAQ33899)

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar allu Cyd-bwyllgor Addysg Cymru i flocio ceisiadau i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru nad ydynt wedi eu cymeradwyo gan awdurdod addysg lleol unigol? (WAQ33900)

**Jane Davidson:** Ariennir Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid oes cyllid yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Materion i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru a'r awdurdodau addysg lleol yw'r rhain.

## Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith debygol y cytundeb llwyth gwaith athrawon ar sir y Fflint? (WAQ33908)

**Carl Sargeant:** Pa gymorth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer Cyngor Sir y Fflint er mwyn ei alluogi i weithredu'r cytundeb llwyth gwaith athrawon? (WAQ33910)

**Jane Davidson:** Yn sir y Fflint, megis mewn mannau eraill yng Nghymru, bydd y cytundeb yn sicrhau lleihad gwirioneddol yn llwyth gwaith athrawon a, thrwy ganiatáu rhagor o amser i athrawon i ganolbwyntio ar eu dyletswyddau proffesiynol ac i gynllunio a pharatoi, bydd yn codi safonau cyrhaeddiad disgyblion.

Yr ydym wedi darparu £33 miliwn yn y setliad refeniw i lywodraeth leol i ddiwallu costau disgwyliedig gweithredu'r cytundeb y flwyddyn nesaf. Cyfran sir y Fflint o'r arian yw £1.682 miliwn. Bydd pob awdurdod ac ysgol wedi dechrau o fannau gwahanol a bydd angen felly i'r awdurdodau weithio'n agos gyda'u hysgolion i ddatblygu strategaethau ac atebion i weithredu'r cytundeb a fydd yn adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol. Mater i'r awdurdod yw penderfynu sut i ddefnyddio ei gyfran o'r arian hwn yn unol â'i anghenion a'i flaenoriaethau lleol, ond gallai'r awdurdod gadw cyfran i gynyddu ei gapasiti i gynorthwyo a chynghori ysgolion.

Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gydag awdurdodau addysg lleol ac ysgolion ar draws Cymru i ddarparu cyngor a chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau achos ymarferol a rhaglen rheoli newid i helpu ysgolion i nodi a mabwysiadu arferion gwaith sy'n lleihau llwyth gwaith athrawon ac yn cyflawni gofynion y cytundeb—er enghraifft, drwy drefniadaeth well, lleihau beichiau biwrocrataidd mewnol a gwneud gwell defnydd, a rhagor o ddefnydd, o staff cymorth.

## Arian sydd ar gael i Ysgolion

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod yr un arian ar gael i ysgolion yng Nghymru â'r hyn a gyhoeddwyd gan Gordon Brown yn ddiweddar? (WAQ33921)

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid i ysgolion yn dilyn cyhoeddiad am refeniw ychwanegol gan Ganghellor Lloegr? (WAQ33922)

**Jane Davidson:** Cyhoeddodd Gordon Brown arian ychwanegol i ysgolion yn 2006, sydd ddwy flynedd i ffwrdd. Mater i Lywodraeth y Cynulliad yw penderfynu sut y caiff yr arian hwn ei ddyrannu yng Nghymru. Byddwn yn ystyried sut y defnyddir y symiau canlyniadol hyn fel rhan o'n hadolygiad o wariant, gan ystyried hefyd y setliad a gaiff y Cynulliad yn yr haf o adolygiad o wariant 2004 y DU.

## Prentisiaethau Modern

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo prentisiaethau modern? (WAQ33991)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn benderfynol o gryfhau'r opsiynau galwedigaethol mewn ysgolion fel ffordd o ehangu'r ystod gyfan o gyfleoedd dysgu sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen drwy fagloriaeth Cymru a diwygiadau ehangach i'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith o ddiwygio dysgu 14 i 19. Yn ychwanegol, bydd ELWa yn parhau i weithio gyda chyflogwyr a'r cynghorau sgiliau sector i hyrwyddo'r rhaglenni prentisiaethau modern yn egnïol, a bydd Gyrfa Cymru yn sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd uchel ar gael i bobl o bob oed am gyfleoedd dysgu. Yr ydym hefyd wedi parhau i wella'r rhaglenni prentisiaethau modern drwy gyflwyno amryw o elfennau hyblyg, yn cynnwys ehangu mynediad i bobl gyflogedig ac anghyflogedig drwy ddileu'r cyfyngiad oedran a bennai mai dim ond prentisiaid o dan 25 oed oedd yn gymwys i gael cymorth.

### Cyfran o Gyllideb y Gweinidog a Neilltuwyd ar gyfer Plant ag Anghenion Arbennig

**Nick Bourne:** Pa gyfran o gyllideb y Gweinidog sydd wedi ei neilltuo ar gyfer plant sydd ag unrhyw fath o anghenion arbennig, a pha gyfran oedd wedi'i neilltuo ym mhob un o'r blynyddoedd er 1999? (WAQ34009)

**Jane Davidson:** Nodwyd faint o adnoddau sy'n cael eu gwario ar blant ag anghenion addysgol arbennig ym mwletin ystadegau cenedlaethol 63/2003.

Yn ychwanegol, darparwyd dros £16 miliwn i ysgolion ac AALlau ar gyfer AAA drwy'r grantiau cynnal addysg a hyffordidant—y gronfa ysgolion gwell erbyn hyn—yn y cyfnod rhwng 1999-2000 a 2003-04.

### Cyllidebau ar gyfer y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r cyllidebau ar gyfer y cytundeb llwyth gwaith athrawon dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys 2004-05? (WAQ34024)

**Jane Davidson:** Llofnodwyd y cytundeb ym mis Ionawr 2003. Daeth cam cyntaf y newidiadau i amodau gwaith athrawon sy'n deillio o'r cytundeb i rym ym mis Medi 2003. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad arian grant arbennig o £3 miliwn i AALlau yn 2003-04 i helpu ysgolion i ddelio â hynny. Yr oedd modd hefyd i'r AALlau ddefnyddio'r grant o £3.5 miliwn ar gyfer ysgolion bach a gwledig i'r perwyl hwn.

Daw'r ail gam i rym ym mis Medi 2004. Yr ydym wedi cynnwys £33 miliwn yn setliad refeniw llywodraeth leol i ddiwallu costau disgwyliedig y cytundeb yn 2004-05 ac i ddarparu capasiti ychwanegol o fewn yr awdurdodau lleol i gynorthwyo ysgolion i roi'r cytundeb ar waith. Mae'r swm hwn wedi cael ei nodi'n glir at y pwrpas hwn ac yr wyf yn disgwyl i'r awdurdodau lleol adlewyrchu hynny yn eu cyllidebau addysg.

Mae'r prif grŵp gwariant addysg a dysgu gydol oes yn darparu ar gyfer y gwaith cymorth canolog a fydd yn golygu bod modd gwireddu'r ymrwymiad i leihau llwyth gwaith athrawon. Mae hyn yn cynnwys £150,000 yn 2003-04 a £240,000 yn 2004-05 ar gyfer rhaglen rheoli newid i helpu ysgolion i nodi a mabwysiadu arferion gwaith a fydd yn lleihau llwyth gwaith athrawon ac yn eu helpu i gyflawni gofynion y cytundeb cenedlaethol. Yn 2004-05 mae'r gyllideb yn cynnwys £400,000 ychwanegol i ddarparu hyfforddiant i staff cymorth ysgolion yng Nghymru a £60,000 i gynnal gwaith y panel cynghori ar lwyth gwaith ysgolion a fydd yn rhoi cyngor ynglŷn â ffyrdd o leihau'r beichiau biwrocrataidd ar ysgolion.

### Cyllidebau Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r cyllidebau ar gyfer cyllid GCAH dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys 2004-05? (WAQ34026)

**Jane Davidson:** Dyma fu'r ddarpariaeth GCAH dros y pum mynedd diwethaf:

- 2000-01 - £50,600,352
- 2001-02 - £57,832,000
- 2002-03 - £59,236,186
- 2003-04 - £56,320,004 a
- 2004-05 - dyraniad o £35,750,000 drwy'r gronfa ysgolion gwell, yr enw newydd ar GCAH. Nid yw dyraniad 2004-05 yn cynnwys y £3,580,000 o grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig.

Bob blwyddyn, mae'r setliad refeniw yn cynnwys arian sy'n caniatáu i'r awdurdodau addysg lleol ddarparu nawdd cyfatebol i gyd-fynd â chyllid GCAH—40 y cant o gyfanswm y gwariant fel arfer. Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys yr elfen hon, wedi'i rhagamcanu ar gyfer 2004-05.

Mae'r gronfa ysgolion gwell wedi'i bwriadu i fod â ffocws cliriach ac i dargedu'r cyllid fel arian sbarduno ar gyfer mentrau newydd a gwell ffyrdd o wireddu blaenoriaethau cenedlaethol y Cynulliad

mewn ysgolion, yn hytrach na chefnogi ymrwymiadau refeniw rheolaidd a rhwymedigaethau statudol, gan mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal y rheini.

**Sgiliau ym Meysydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

**Brynle Williams:** Beth y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud i fynd ati i annog athrawon i ddatblygu eu sgiliau ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg? (WAQ34027)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog athrawon i wella eu sgiliau ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg ar draws amryw o gynlluniau.

Drwy Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru yr ydym yn hybu darparu adnoddau ar-lein i gynorthwyo addysgu a dysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion, gan gynnwys y deunydd a ddatblygwyd ar gyfer blwyddyn wyddoniaeth Cymru. Nodwyd gwyddoniaeth fel un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol y rhoddid blaenoriaeth iddo yn rhaglen grant cynnal addysg a hyfforddiant 2003-04 a rhoddwyd blaenoriaeth arbennig hefyd i athrawon gwyddoniaeth yn y fenter byrddau gwyn a gynhaliwyd yn ddiweddar ynghyd â'r hyfforddiant dilynol a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun hwnnw. Yr ydym hefyd yn darparu cefnogaeth barhaus i ganolfan wyddoniaeth Techniqest, sy'n cynnig profiadau ymarferol ac sydd bellach yn ehangu i ogledd Cymru. Mae Techniquest wedi darparu hyfforddiant mewn swydd i dros 2,000 o athrawon.

Er 2000, mae o leiaf un athro ym mhob ysgol uwchradd wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar feddalwedd CAD/CAM diwydiannol ei safon, o ansawdd uchel, gan ddeall sut y caiff ei ddefnyddio mewn diwydiant yn ogystal ag ym maes addysg. Gan i'r fenter hon fod mor llwyddiannus yr wyf wedi cytuno i ddarparu cyllid i alluogi'r athrawon hynny a hyfforddwyd yn ystod y cam cyntaf i gael hyfforddiant pellach i fynd law yn llaw â rhyddhau meddalwedd CAD/CAM sydd wedi'i ddiweddaru.

Mae lefel yr adnoddau TGCh yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar ansawdd y gwaith ym maes dylunio a thechnoleg a chanddo'r potensial i wella'r addysgu a'r dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae'r Cynulliad wedi darparu dros £70 miliwn i wella TGCh mewn ysgolion er 1998-99, yn cynnwys cyllid i helpu athrawon i fagu hyder i ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn yr ystafell ddosbarth. Byddwn yn darparu £7.6 miliwn pellach ar gyfer TGCh drwy'r gronfa ysgolion gwell yn 2004-05.

**Athrawon Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

**Brynle Williams:** Beth y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud i ddenu pobl i hyfforddi fel athrawon gwyddoniaeth a thechnoleg? (WAQ34028)

**Jane Davidson:** Yr ydym yn cydnabod yr angen i ddenu rhagor o bobl i gael eu hyfforddi yn athrawon mewn rhai pynciau ac yr ydym yn cynnig cymhellion sylweddol fel rhan o'n hymdrechion i wneud y swyddi hyn yn fwy deniadol. Gall pob myfyriwr cymwys ar gyrsiau ôl-radd hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn pynciau y rhoddir blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys gwyddoniaeth a thechnoleg, dderbyn grant hyfforddi o £6,000 ac, os ânt ymlaen i ddysgu'r pwnc hwnnw, gallent fod yn gymwys i gael grant dysgu o £4,000.

**Darpariaeth y Gyllideb ar gyfer y Cytundeb Llwyth Gwaith Cenedlaethol**

**Mark Isherwood:** Beth yw manylion y ddarpariaeth sydd yn y gyllideb ar gyfer y cytundeb llwyth gwaith cenedlaethol yn y 22 awdurdod lleol am 2005? (WAQ34035)

**Jane Davidson:** Mae'r £33 miliwn a nodwyd yn setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2004-05 i ddarparu ar gyfer costau'r cytundeb cenedlaethol ar lwyth gwaith athrawon wedi'i rannu fel a ganlyn:

| **Awdurdod Lleol** | **Swm £000oedd** |
|---|---:|
| Ynys Môn | 789 |

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 1,349 |
| Conwy | 1,154 |
| Sir Ddinbych | 1,053 |
| Sir y Fflint | 1,682 |
| Wrecsam | 1,328 |
| Powys | 1,480 |
| Ceredigion | 744 |
| Sir Benfro | 1,383 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,998 |
| Abertawe | 2,365 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,537 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,478 |
| Bro Morgannwg | 1,383 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,740 |
| Merthyr Tudful | 689 |
| Caerffili | 2,093 |
| Blaenau Gwent | 820 |
| Tor-faen | 1,081 |
| Sir Fynwy | 915 |
| Casnewydd | 1,645 |
| Caerdydd | 3,210 |
| Cymru gyfan | 32,917 |

Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
http://www.wales.gov.uk/subilocalgov/content/reports/final-tbls04-05-e.htm.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Agendâu Cymunedau yn Gyntaf

**Leighton Andrews:** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi mewn llythyrau cylch gwaith at gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o fewn ei bortffolio ynghylch mynd i'r afael ag agendâu Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33323)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae disgwyl i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ymgymryd â'u gwaith yn unol â gwerthoedd, egwyddorion a safonau'r Cynulliad ac iddynt gyfrannu, fel sy'n briodol, tuag at ei agenda strategol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. I sicrhau bod hyn yn digwydd mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn datblygu proses cynllunio busnes newydd sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweithio drwy bartneriaeth i wireddu agenda'r Llywodraeth. O safbwynt agendâu Cymunedau yn Gyntaf, mae'n ofynnol yn y llythyron cylch gwaith a anfonir at bob CCNC gweithredol eu bod yn nodi sut y byddant yn cydweithio â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf; sut y byddant yn cynorthwyo ac yn hybu'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu cymunedol a'u rhoi ar waith; a sut y byddant yn cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau cymunedol yr awdurdodau lleol. Bydd gofyn i CCNC ddangos sut y byddant yn cyflawni hyn yn eu cynlluniau corfforaethol.

### Cnydau GM a oedd yn Rhan o'r Asesiadau Ffermydd Cyfan

**Rhodri Glyn Thomas**: A yw'r Gweinidog yn gwybod pryd newidiodd y Llywodraeth ei pholisi na fyddai unrhyw beth a gynaeafwyd o gnydau a addaswyd yn enynnol a oedd yn rhan o'r rhaglen asesiadau ffermydd cyfan yn cael eu bwydo i anifeiliaid nac ychwaith yn mynd i'r gadwyn fwyd? (WAQ33527)

**Carwyn Jones:** Mae caniatâd marchnata wedi ei roi ar draws Ewrop gyfan i'r indrawn GM a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau ffermydd cyfan gael ei ddefnyddio mewn porthiant anifeiliaid. Yr oedd yn ofynnol o dan y cytundeb a wnaed gyda'r fenter cadwyni bwyd ar gnydau amaethyddol a addaswyd (SCIMAC) ym mis Tachwedd 1999 na châi dim o'r cynnyrch o blannu cnydau GM yn y DU ei ddefnyddio mewn ffordd a fyddai o fudd masnachol uniongyrchol i ddeiliaid y caniatâd yn ystod cyfnod yr asesiadau ffermydd cyfan. Nid yw'r polisi ar ddefnyddio deunydd wedi'i gynaeafu a amlinellwyd gan SCIMAC wedi newid.

### Cymysgedd Liberty/Atrazine

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o adroddiadau sy'n dweud bod Liberty ar ei ben ei hun wedi cael ei brofi'n aneffeithiol yn yr Unol Daleithiau fel chwynladdwr ar gnydau indrawn porthiant sydd wedi'u haddasu'n enynnol ac sy'n gallu goddef chwynladdwyr, ac, er mwyn goresgyn hyn, bod cymysgedd o Liberty/Atrazine wedi cael ei ddefnyddio ers gwanwyn 2001? (WAQ33528)

**Carwyn Jones:** Ydwyf.

### Chardon LL (Astudiaethau o Borthiant Anifeiliaid Cnoi Cil)

**Rhodri Glyn Thomas:** Gan nad oes astudiaethau o borthiant anifeiliaid cnoi cil ar gael, sut y mae Chardon LL o werth fel cnwd ar gyfer ei dyfu a'i ddefnyddio yng Nghymru? (WAQ33529)

**Carwyn Jones:** Fe'm cynghorir nad yw treialon porthiant anifeiliaid cnoi cil yn rhan o'r asesiadau o werth cnwd i'w dyfu a'i ddefnyddio o dan Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywiadau) 2001.

### Adchwanegiad Trawsenynnol yn Chardon LL

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd ddaeth y Gweinidog yn ymwybodol bod yr adchwanegiad trawsenynnol a ddefnyddir yn Chardon LL yn ansefydlog, ac na fyddai'r amrywiad yn llwyddo i basio'r prawf amlygrwydd, unffurfiaeth a sefydlogrwydd o dan gyfarwyddeb 2001/18/EC? (WAQ33530)

**Carwyn Jones:** Nid yw'n ofynnol cynnal prawf amlygrwydd, unffurfiaeth a sefydlogrwydd o dan gyfarwyddeb rhyddhau bwriadol 2001/18/EC.

### Chardon LL (Indrawn sydd wedi'i Addasu'n Enynnol)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd ddaeth y Gweinidog yn ymwybodol mai dim ond 27.3 y cant ar gyfartaledd yw cynnwys y deunydd sych yn Chardon LL, sef math o indrawn sydd wedi'i addasu'n enynnol, a phryd ddaeth yn ymwybodol o argymhelliad yr Athro David Beever na ddylid rhoi unrhyw fathau newydd o indrawn ar y gofrestr hadau genedlaethol oni bai eu bod yn cyrraedd y targed o 32 y cant o ddeunydd sych yn y planhigyn cyfan? (WAQ33531)

**Carwyn Jones:** Un o nifer o nodweddion a ddefnyddir i bennu gwerth indrawn porthiant i'w dyfu a'i ddefnyddio yw'r cynnwys o ran deunydd sych. Nodwyd y cynnwys isel o ran deunydd sych yn Chardon LL yn 2003 yn sgîl cyhoeddi adroddiad Alesbury ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r gwrandawiad ar restru Chardon LL yn genedlaethol. Fe'm cynghorir bod y cynnwys isel yn Chardon LL o ran deunydd sych wedi cael ei ystyried, ond fod y casgliad drwyddo draw ynglŷn â gwerth y cnwd i'w dyfu a'i ddefnyddio hefyd yn ystyried nodweddion pwysig eraill, gan gynnwys ei ymnerth cynnar a'i allu i wrthsefyll gwynt a glaw. Nodaf i'r Athro Beever gael ei ddyfynnu'n ddiweddar yn *Farmers Weekly* yn cefnogi rhoi indrawn GM yn borthiant i wartheg godro.

**Chardon LL (Indrawn Porthiant)**

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn fodlon bod indrawn porthiant Chardon LL yn fwy gwerthfawr fel cnwd i'w dyfu a'i ddefnyddio na'r mathau confensiynol a ddefnyddiwyd i'w fridio? (WAQ33532)

**Carwyn Jones:** Fe'm cynghorir nad yw gwerth indrawn porthiant Chardon LL fel cnwd i'w dyfu a'i ddefnyddio wedi cael ei gymharu â gwerth y ffynonellau y'i datblygwyd ohonynt na'r amrywiad cyfatebol nad yw wedi'i addasu'n enynnol.

**Astudiaethau Porthiant Gwartheg Chardon LL**

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa ganlyniadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael o'r astudiaethau porthiant gwartheg Chardon LL a gwblhawyd yng Nghanolfan Ymchwil Llaeth Prifysgol Reading yn 2002? (WAQ33533)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Tamsin Dunwoody-Kneafsey AC (WAQ33248).

**Astudiaethau Porthiant Chardon LL**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog warantu nad oes llaeth na chig o'r gwartheg sy'n rhan o'r astudiaethau porthiant Chardon LL ym Mhrifysgol Reading wedi mynd i'r gadwyn fwyd yng Nghymru? (WAQ33534)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Tamsin Dunwoody-Kneafsey AC (WAQ33247).

**Treialon Rhestr Genedlaethol 1998-99 ar gyfer Chardon LL**

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn fodlon bod treialon rhestr genedlaethol 1998-99 ar gyfer Chardon LL yn annibynnol a diduedd, a'u bod yn rhoi dadl ddigonol a chadarn o blaid rhoi'r amrywiad hwn ar y gofrestr hadau genedlaethol? (WAQ33535)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ymwybodol o argymhelliad y pwyllgor amrywiadau ar blanhigion a hadau o ran y treialon rhestru cenedlaethol ar gyfer Chardon LL. Ni allaf, fodd bynnag, gefnogi ei ychwanegu at y rhestr genedlaethol hyd nes y bydd wedi cael caniatâd diwygiedig o dan ran C o'r gyfarwyddeb rhyddhau bwriadol a bod mesurau cydfodoli wedi cael eu sefydlu.

**Treialon Indrawn yr Asesiadau Ffermydd Cyfan**

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog, fel sy'n ofynnol yn ôl cyfarwyddeb 2001/18/EC, wedi siarad â'r prif awdurdod cymwys yn Ffrainc am broblemau treialon indrawn yr asesiadau ffermydd cyfan, ac a yw wedi gofyn am newid amodau caniatâd rhan C ar gyfer indrawn porthiant Chardon LL? (WAQ33536)

**Carwyn Jones:** Ar 9 Mawrth 2004, ysgrifennodd awdurdod cymwys y DU o dan gyfarwyddeb 2001/18/EC at yr awdurdod cymwys yn Ffrainc, a oedd wedi rhoi'r caniatâd rhan C gwreiddiol i Chardon LL ar ran holl aelod wladwriaethau'r UE. Ceisiai'r llythyr newidiadau i'r caniatâd rhan C i gyfyngu'r defnydd o chwynladdwyr ar y cnwd yn unol â chyngor y Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd.

**Astudiaethau o Borthiant Gwartheg sydd yn Gysylltiedig â Chardon LL**

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd ddaeth y Gweinidog yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Cynghori ar Borthiant Anifeiliaid wedi gofyn am astudiaethau o borthiant gwartheg yn gysylltiedig ag indrawn porthiant Chardon LL? (WAQ33539)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Tamsin Dunwoody-Kneafsey AC (WAQ33288).

### Astudiaethau Prifysgol Reading ar Borthi Gwartheg â Chardon LL

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn fodlon bod astudiaethau Prifysgol Reading ar borthi gwartheg ag indrawn Chardon LL yn hollol annibynnol ac yn wyddonol gadarn? (WAQ33545)

**Carwyn Jones:** Nid wyf am lunio barn nes y cyhoeddir canlyniadau astudiaethau Prifysgol Reading ar borthi gwartheg mewn cylchgrawn a adolygir gan gyd-wyddonwyr ac yr ystyrir y canlyniadau gan y pwyllgor cynghori statudol perthnasol.

### Indrawn Porthiant Chardon LL a Gynaeafwyd

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn gwybod pryd roddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei chaniatâd i indrawn porthiant Chardon LL a gynaeafwyd ar safleoedd asesiad fferm gyfan gael ei gludo oddi yno a'i ddefnyddio mewn astudiaethau porthi gwartheg yng Nghanolfan Ymchwil Llaeth Prifysgol Reading, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amodau oedd yn berthnasol i'r caniatâd hwnnw? (WAQ33546)

**Carwyn Jones:** Mae caniatâd marchnata wedi ei roi ar draws Ewrop gyfan i'r indrawn GM a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau ffermydd cyfan gael ei ddefnyddio mewn porthiant anifeiliaid. Nid oedd angen caniatâd felly i ddefnyddio'r cnwd a gynaeafwyd yn yr astudiaeth porthi anifeiliaid ym Mhrifysgol Reading. Yr oedd yn ofynnol o dan y cytundeb a wnaed gyda'r fenter cadwyni bwyd ar gnydau amaethyddol a addaswyd (SCIMAC) ym mis Tachwedd 1999 na châi dim o'r cynnyrch o blannu cnydau GM yn y DU ei ddefnyddio mewn ffordd a fyddai o fudd masnachol uniongyrchol i ddeiliaid y caniatâd yn ystod cyfnod yr asesiadau ffermydd cyfan. Nid yw'r polisi ar ddefnyddio deunydd wedi'i gynaeafu a amlinellwyd gan SCIMAC wedi newid.

### Cost yr Astudiaethau Porthi Gwartheg â Chardon LL

**Rhodri Glyn Thomas:** Beth oedd cyfanswm cost yr astudiaethau porthi gwartheg â Chardon LL ym Mhrifysgol Reading, a faint o arian cyhoeddus gafodd ei neilltuo ar gyfer yr ymchwil hon? (WAQ33547)

**Carwyn Jones:** Ni ddefnyddiwyd arian cyhoeddus ar gyfer yr ymchwil. Nid oes gwybodaeth ar gael am gost y gwaith, a ariannwyd gan Bayer CropScience.

### Newidiadau i'r Caniatâd Rhan C

**Helen Mary Jones:** Pa gyngor arbenigol y mae'r Gweinidog wedi'i gael ynghylch pa mor ddilys yn fasnachol yw gweithredu'r amodau arfaethedig o dan y newidiadau i'r caniatâd rhan C? (WAQ33549)

**Helen Mary Jones:** Pa gyngor arbenigol y mae'r Gweinidog wedi'i dderbyn ynghylch pa mor ymarferol yw hi i weithredu'r amodau arfaethedig o dan y newidiadau i ganiatâd rhan C? (WAQ33550)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ragnodi'r newidiadau arfaethedig i'r caniatâd rhan C? (WAQ33551)

**Carwyn Jones:** Mater i'r tyfwyr yw hyfywedd masnachol gweithredu'r newidiadau arfaethedig i'r caniatâd rhan C a roddwyd i indrawn T25. Cafodd y protocolau asesiadau ffermydd cyfan eu drafftio gan arbenigwyr annibynnol a'r diwydiant biotechnoleg ac maent wedi'u bwriadu i adlewyrchu arferion tyfu masnachol. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r caniatâd rhan C ar gyfer indrawn T25 wedi'u seilio ar gyngor annibynnol gan y Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd.

**Newidiadau i'r Caniatâd Rhan C**

**Helen Mary Jones:** Pa gosbau gaiff eu gorfodi am beidio â chydymffurfio â'r newidiadau i'r caniatâd rhan C? (WAQ33552)

**Carwyn Jones:** Mae'r cosbau am dorri amodau caniatâd GMO wedi'u pennu yn Rhan VI o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Monitro Cynhyrchwyr Indrawn T25**

**Helen Mary Jones:** Beth yw'r gost a ddisgwylir am fonitro cydymffurfiaeth cynhyrchwyr sy'n tyfu indrawn T25 yn unol â'r newidiadau arfaethedig i ganiatâd rhan C, a phwy fydd yn talu am y monitro hwn? (WAQ33553)

**Helen Mary Jones:** Sut fonitro annibynnol fydd ei angen i sicrhau bod pob ffermwr sy'n tyfu indrawn T25 yn cydymffurfio â'r gofynion? (WAQ33554)

**Carwyn Jones:** Pa bai indrawn T25 yn cael ei dyfu'n fasnachol, bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod monitro'n digwydd i wneud yn siwr fod y tyfwyr yn cydymffurfio â'r amodau yn caniatâd rhan C. Bydd y costau'n dibynnu ar faint o'r indrawn T25 gaiff ei blannu a'r mecanweithiau monitro fydd yn cael eu sefydlu.

**Ymchwil Newydd o Norwy**

**Rhodri Glyn Thomas:** A all y Gweinidog roi sicrwydd y bydd tystiolaeth wyddonol newydd o Norwy am yr hyrwyddwr firws mosäig blodfresych (CaMV) yn cael ei hystyried cyn y gwneir unrhyw benderfyniad am restru hadau indrawn porthiant Chardon LL? (WAQ33555)

**Rhodri Glyn Thomas:**A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd, yng ngoleuni ymchwil newydd o Norwy, bod yr hyrwyddwr CaMV a ddefnyddir yn yr ychwanegyn trawsenynnol yn Chardon LL yn gwbl ddiogel a diniwed? (WAQ33556)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r dystiolaeth wyddonol newydd y clywyd sôn amdani o Norwy am yr hyrwyddwr CaMV wedi cael ei chyhoeddi eto. Pan fydd manylion yr ymchwil hwn ar gael, gofynnir i ACRE, sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad am y risg a achosir drwy ollwng GMOs yn fwriadol, gloriannu'r data a rhoi cyngor inni ar ei oblygiadau o ran y caniatadau sy'n bodoli'n barod a cheisiadau i'r dyfodol.

**Arbrawf Lle Cafodd Brwyliaid eu Porthi â Chardon LL**

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn fodlon bod yr arbrawf lle cafodd brwyliaid eu porthi â Chardon LL yn ddigon o dystiolaeth ynghylch iechyd a diogelwch indrawn porthiant a addaswyd yn enynnol ac sy'n gallu goddef chwynladdwyr? (WAQ33557)

**Carwyn Jones:** Yr oedd ACRE ac ACAF yn fodlon, ar sail y wybodaeth oedd ar gael, a oedd yn cynnwys yr astudiaethau ar frwyliaid, nad oedd dim i awgrymu bod indrawn T25, neu gynnyrch ohono, yn achosi mwy o risg i bobl ac anifeiliaid nag amrywiadau oedd heb eu haddasu'n enynnol os defnyddir nhw i borthi anifeiliaid. Gellir cael sylwadau manwl pellach ar http://www.defra.gov.uk/environment/acre/advice/advice20d.htm.

**Chardon LL**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ein sicrhau, pe byddai Chardon LL yn cael ei roi ar y gofrestr genedlaethol o hadau, mai dim ond o dan drefn lladd chwyn sy'n union yr un fath â'r drefn a ddefnyddiwyd yn y rhaglen asesiadau ffermydd cyfan y caiff ei dyfu yn y DU yn y dyfodol, sef un

chwistrelliad o chwynladdwr Liberty, ar gyfradd o 3.5 litr i bob hectar, a hwnnw wedi'i roi cyn y cyfnod 10-deilen? (WAQ33558)

**Carwyn Jones:** Cadarnhaf mai un o'r amodau yn y caniatâd Rhan C yw y byddai'n rhaid i unrhyw gnydau masnachol o indrawn GM sy'n gallu goddef chwynladdwr a dyfir yn y dyfodol gael eu tyfu o dan yr un amodau ag y cafodd y cnwd ei dyfu oddi tanynt yn ystod yr asesiadau ffermydd cyfan, neu o dan amodau y dangoswyd nad ydynt yn arwain at effeithiau andwyol. Gyrrir hyn gan argymhelliad a wnaed gan ACRE o ganlyniad i'w asesiad ef o'r asesiadau ffermydd cyfan.

**Adolygiad o'r Chwynladdwr Glufosinate Ammonium**

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn canlyniadau'r adolygiad o'r chwynladdwr glufosinate ammonium a wnaeth yr awdurdodau yn Sweden ar ran yr Undeb Ewropeaidd, ac a fydd y canlyniadau hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu caniatáu i'r chwynladdwr Liberty gael ei ddefnyddio i reoli indrawn porthiant Chardon LL? (WAQ33559)

**Carwyn Jones:** Nac ydwyf. Mae'r adolygiad o glufosinate ammonium yn dal i fynd rhagddo. Cafodd y Gyfarwyddiaeth Diogelwch Plaladdwyr, y prif awdurdod dros Gymru a Lloegr, gopi o adroddiad drafft yr awdurdodau yn Sweden ym mis Rhagfyr 2003 a bydd nifer o weithgorau arbenigol yr UE yn cwrdd dros yr haf i'w drafod ymhellach. Caiff swyddogion y Cynulliad eu hysbysu am unrhyw ganlyniad maes o law. Bydd unrhyw gais am gymeradwyaeth i ddefnyddio Liberty ar Chardon LL yn cael ei ystyried yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad ynghyd â'r data a gyflwynir yn gefn i'r cais ei hun. Dim ond os yw Gweinidogion yn fodlon fod y defnydd sy'n cael ei awgrymu gan yr ymgeisydd yn ddiogel o safbwynt pobl a'r amgylchedd y bydd caniatâd yn cael ei roi, a byddai'n rhaid i unrhyw ganiatâd o'r fath gael ei gefnogi gan gyngor y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr .

**Arbrawf Lle Cafodd Brwyliaid eu Bwydo â Chardon LL**

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw'r arbrawf lle cafodd brwyliaid eu bwydo â Chardon LL yn rhoi digon o dystiolaeth o ran iechyd a diogelwch yr indrawn porthiant a addaswyd yn enynnol ac sy'n gallu goddef chwynladdwr? (WAQ33560)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Rhodri Glyn Thomas AC (WAQ33557).

**Deunydd a Gynaeafwyd o Gnydau a Addaswyd yn Enynnol**

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a fu newid ym mholisi'r DU a oedd yn datgan yn flaenorol na fyddai unrhyw ddeunydd a gynaeafwyd o gnydau a addaswyd yn enynnol ac a fyddai'n rhan o'r rhaglen asesiad fferm gyfan yn cael ei borthi i anifeiliaid nac yn cyrraedd y gadwyn fwyd mewn ffordd arall? (WAQ33561)

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd roddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei chaniatâd i indrawn porthiant Chardon LL a gynaeafwyd ar safleoedd asesiad fferm gyfan gael ei gludo oddi yno a'i ddefnyddio mewn astudiaethau porthi gwartheg yng Nghanolfan Ymchwil Llaeth Prifysgol Reading? (WAQ33563)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ33546.

**Adolygiad o'r Chwynladdwr Glufosinate Ammonium**

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a fydd canlyniadau'r adolygiad o'r chwynladdwr glufosinate ammonium yn cael eu hystyried wrth benderfynu caniatáu i'r chwynladdwr Liberty gael ei ddefnyddio i reoli indrawn porthiant Chardon LL? (WAQ33562)

**Carwyn Jones:** Cafodd swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Diogelwch Plaladdwyr o fewn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y prif awdurdod dros Gymru a Lloegr, gopi o adroddiad drafft awdurdodau Sweden ym mis Rhagfyr 2003. Mae adolygiad yr UE yn dal i fynd rhagddo a chynhelir cyfres o gyfarfodydd drwy gydol yr haf i drafod ymhellach unrhyw faterion sy'n deillio o'r adroddiad. Caiff swyddogion y Cynulliad eu hysbysu am unrhyw ganlyniad maes o law. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n deillio o'r adroddiad a allai fod yn ddefnyddiol wrth wneud asesiad gwyddonol o unrhyw gais am gymeradwyaeth i ddefnyddio Liberty ar Chardon LL yn cael ei hystyried. Bydd data a gyflwynir i gefnogi'r cais yn cael ei ystyried. Dim ond os yw Gweinidogion yn fodlon fod y defnydd sy'n cael ei awgrymu gan yr ymgeisydd yn ddiogel o safbwynt pobl a'r amgylchedd, yn unol â chyngor arbenigol y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr, y bydd caniatâd yn cael ei roi.

### Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arfaethedig

**Lisa Francis:** A oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yr awdurdod i feddiannu gardd unrhyw un os yw'n safle o ddiddordeb gwyddonol a safle cadwraeth arbennig arfaethedig os oes tywodwlydd y gwanwyn, *Minuartia verna*, yn tyfu yn yr ardd? (WAQ33574)

**Carwyn Jones:** Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi'r pŵer i Gyngor Cefn Gwlad Cymru brynu unrhyw ran o safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig drwy orfodaeth. Dim ond lle bo mesurau eraill i reoli'r tir wedi methu y gellir defnyddio'r pwerau hyn, lle bo'r cyngor o'r farn fod yn rhaid gwneud hynny fel cam eithaf. Nid yw'r pwerau wedi cael eu defnyddio ers i'r ddeddf gael ei rhoi ar y Llyfr Statudau.

Nid yw tywodwlydd y gwanwyn yn nodwedd a fyddai'n arwain at ddynodi safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig na safle cadwraeth arbennig arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r cyngor fel arfer yn cofnodi presenoldeb yr holl fflora diddorol o fewn safleoedd.

### Cymorth i Fasnach Deg

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Fasnach Deg? (WAQ33589)

**Carwyn Jones:** Pasiwyd cynnig gan y Cynulliad ar 4 Chwefror yn penderfynu sicrhau bod egwyddorion masnachu teg yn cael eu hyrwyddo wrth iddo roi ei bolisïau o ran masnach ryngwladol ar waith. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o symud yr ymrwymiad hwn ymlaen yng nghyd-destun y cynllun gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

### Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru? (WAQ33594)

**Carwyn Jones:** Rhoddir cefnogaeth ariannol i Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o'r cymorth grant blynyddol a gymeradwyir gan y Cynulliad. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi darparu rhyw £321,000 o gymorth grant hyd yma, yn bennaf ar gyfer gwaith cadwraeth a gwaith prosiect arall a wneir gan yr ymddiriedolaethau. Mae nifer o ymddiriedolaethau Cymru hefyd wedi llwyddo i sicrhau arian loteri tuag at eu gwaith, a dyfarnwyd rhyw £82,000 i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn 2003 o dan gynllun grant Adfywio a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad.

### Trafodaethau gyda Llysgennad yr Iseldiroedd (Pydredd Cylch)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am unrhyw drafodaethau a gafodd yn ystod ymweliad diweddar llysgennad yr Iseldiroedd â Chymru am bydredd cylch mewn tatws a sefyllfa Fferm Middlewood, Bwlch, Brycheiniog? (WAQ33603)

**Carwyn Jones:** Codais fater pydredd cylch mewn tatws yn ystod fy nhrafodaeth fer gyda llysgennad yr Iseldiroedd. Mae'n ymwybodol fod cysylltiad rhwng yr achos cyntaf o'r clefyd yn y DU a thatws had a fewnforiwyd o'r Iseldiroedd. Eglurodd y llysgennad fod ei wlad yn cynnal rhaglen fwy cynhwysfawr o brofion ar datws had ardystiedig na llawer o aelod wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd.

**Adran 91 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**

**Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog restru pob achos ers 1999 lle mae awdurdod lleol yng Nghymru wedi bod yn destun her gyfreithiol o dan adran 91 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990? (WAQ33649)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog. Fodd bynnag, dengys ymholiadau a wnaed gan swyddogion na chafwyd unrhyw her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau lleol Cymru o dan adran 91 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Dirwyon Cosb Benodol am Adael i Gi Faeddu**

**Christine Chapman:** Ers 1999, faint o ddirwyon cosb benodol a roddwyd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru am adael i gi faeddu o dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996? (WAQ33650)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog. Fodd bynnag, mewn arolwg gan Ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus o awdurdodau lleol Cymru i ddarganfod faint o ddirwyon cosb benodol a roddwyd am droseddau yn ymwneud â chŵn yn baeddu dros y tair blynedd rhwng 2000-01 a 2002-01, dangoswyd y canlynol:

| | **Ebr 2000-Maw 2001** | **Ebr 2001-Maw 2002** | **Ebr 2002-Maw 2003** | **Cyf** |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 28 | 28 |
| Caerffili | 18 | 28 | 25 | 71 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 23 | 23 |
| Ceredigion | .. | .. | .. | *60* |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 142 | 0 | 85 | 227 |
| Merthyr Tudful | .. | .. | .. | *71* |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 38 | 72 | 110 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 0 | 52 | 52 |
| Tor-faen | 0 | 0 | 24 | 24 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 14 | 14 |
| Wrecsam | 5 | 75 | 70 | 150 |

Dim ond data cyffredinol am y tair blynedd rhwng 2000-01 a 2002-03 a roddwyd gan ddau awdurdod lleol. Nid oes data ar gael mewn perthynas â'r pum awdurdod sy'n weddill.

.. yn dangos nad oes data ar gael.

### Ymchwiliadau Epidemiolegol

**Glyn Davies:** Yn dilyn WAQ29400, beth oedd canlyniadau'r ymchwiliadau epidemiolegol? (WAQ33809)

**Carwyn Jones:** Mae'r ymchwiliadau i'r achosion o TB mewn gwartheg ar Ynys Môn wedi dangos mai spoligotype 9 yw'r achos; mae'r straen hon yn gyffredin ledled de-orllewin Cymru, de Powys a de-orllewin Lloegr.

### Ffigurau ar gyfer 2003

**Glyn Davies:** Yn dilyn WAQ28503, beth yw'r ffigurau ar gyfer 2003? (WAQ33810)

**Carwyn Jones:** Cadarnhawyd drwy bost-mortem neu archwiliad bacteriolegol fod cyfanswm o 1,330 o wartheg yn adweithyddion yn 2003, a chafodd 755 arall eu lladd fel cysylltiadau uniongyrchol. Yn ôl y gyfraith, ystyrir bod pob anifail sy'n adweithio i'r prawf twbercwlin wedi'i heintio ag M.bovis a rhaid ei ladd. Mae'n bwysig cofio nad yw methiant i gadarnhau presenoldeb TB mewn prawf twbercwlin yn golygu o reidrwydd nad oes TB ar yr anifail.

### Chardon LL

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y rhesymau cyfreithiol y mae gwledydd yr UE wedi'u defnyddio i gyfiawnhau peidio ag ychwanegu indrawn Chardon LL i'w rhestrau cenedlaethol o hadau ers 1998, a ph'un a oes unrhyw un o'r gwledydd hyn wedi'i herlyn am arddel y safbwynt hwn? (WAQ33816)

**Carwyn Jones:** Mae ychwanegu Chardon LL neu unrhyw gnwd GM arall at restr hadau genedlaethol un o aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn dibynnu ar gyflwyno cais rhestru o fridfa blanhigion GM. Ac eithrio'r Iseldiroedd a'r DU, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw geisiadau am ychwanegu Chardon LL at restrau cenedlaethol unrhyw aelod wladwriaethau eraill. Ychwanegwyd Chardon LL at restr genedlaethol yr Iseldiroedd yn 1999.

### Cyllid sydd wedi'i ddyrannu i Sir y Fflint

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i sir y Fflint ers mis Mai 2003? (WAQ33875)

**Carwyn Jones:** Ni fu'n bosibl nodi'r holl arian Cynulliad a ddyrannwyd i sir y Fflint o'm portffolio gan nad yw'r manylion gwariant i gyd yn cael eu casglu fesul awdurdod lleol. Dim ond y gwariant canlynol yr wyf yn gallu ei ddynodi gan sefydliadau yn sir y Fflint:

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | £35,000 i ddarparu adnoddau ychwanegol i sir y Fflint (ac awdurdodau lleol eraill) i roi'r rhaglen Cynllunio: Cyflawni dros Gymru ar waith |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | £57,000 (o fis Ebrill 2003) |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | £1,102,000 yn 2003-04 |

### Ceffylau nad oes Neb eu Heisiau

**Nick Bourne:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i rwystro'r arfer o ollwng ceffylau nad oes neb eu heisiau yng Nghymru? (WAQ33880)

**Carwyn Jones:** Mater i awdurdodau lleol fydd gorfodi'r ddeddfwriaeth a chymryd camau, lle bo raid, i erlyn y rhai sy'n gollwng a gadael anifeiliaid nad oes neu eu heisiau.

## Cynllun Pasportau Ceffylau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno'r cynllun pasportau ceffylau yng Nghymru? (WAQ33883)

**Carwyn Jones:** Mae'n ofynnol, yn ôl penderfyniad 2000/68/EC y Comisiwn Ewropeaidd, i bob ceffyl gael pasport. Mae deddfwriaeth ddomestig yn cael ei hystyried ar hyn o bryd, ond nid yw'n debygol o fod mewn grym tan hydref 2004.

## Claddu Anifeiliaid ar Ffermydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r rheoliadau sy'n ymwneud â chladdu anifeiliaid ar ffermydd yn berthnasol i geffylau? (WAQ33884)

**Carwyn Jones:** Mae rhan-ddirymiad o dan reoliad yr UE ar sgîl-gynhyrchion anifeiliaid 2002, sy'n caniatáu i anifeiliaid anwes—a ddiffinnir fel anifeiliaid sy'n perthyn i rywogaethau sydd fel arfer yn cael eu meithrin a'u cadw at ddibenion ar wahân i ffermio, nad ydynt yn cael eu bwyta gan bobl—gael eu claddu. O ran teulu'r ceffyl, er y gellid dadlau nad ydym yn bwyta'r anifeiliaid hyn, mae'r DU yn allforio ceffylau, ac mae'n bosibl eu bod yn cael eu bwyta gan bobl. O ganlyniad, gallai un dehongliad o ddeddfwriaeth yr UE olygu gwahardd claddu ceffylau sy'n anifeiliaid anwes, ond nid hwn yw'r unig ddehongliad. Ar sail cyngor cyfreithiol a milfeddygol, yr ydym wedi awgrymu bod awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth, yn gweithredu'n bragmatig ac yn ystyried at ba ddiben yr oedd y ceffylau'n cael eu cadw. Yn amlwg, ni chaniateir claddu ceffylau a gadwyd i'w hallforio ac y bwriedid eu bwyta a bydd angen eu gwaredu mewn rhyw ffordd sydd wedi'i chymeradwyo, ar wahân i gladdu.

## Cyfyngu ar yr Hawl i Grwydro

**Leighton Andrews:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch yr angen i gyfyngu ar yr hawl i grwydro mewn ardaloedd y mae tirlithriadau wedi effeithio arnynt, ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ33902)

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch yr angen i gyfyngu ar yr hawl i grwydro mewn ardaloedd y mae tirlithriadau wedi effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae darpariaethau o fewn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 sy'n caniatáu ar gyfer cyfyngu neu wahardd mynediad cyhoeddus am wahanol resymau, gan gynnwys osgoi perygl i'r cyhoedd. Mater i Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu awdurdod y parc cenedlaethol perthnasol fyddai ystyried pob cais ar ei haeddiant, ond gallai'r perygl o dirlithriadau fod yn un o'r sefyllfaoedd lle câi'r darpariaethau hyn eu defnyddio.

## Ymchwil ar Fwydo Defaid

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar (a) yr ymchwil ar y treialon bwydo defaid sy'n gysylltiedig â blawd indrawn wedi'i addasu'n enetig ym Mhrifysgol Leeds, a (b) yr ymchwil diweddar a gynhaliwyd yn Norwy ar CaMV? (WAQ33911)

**Carwyn Jones:** Fe'm cynghorir i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gomisiynu a chyhoeddi cyfres o brosiectau ymchwil a oedd yn cynnwys asesiad gan Brifysgol Leeds o'r peryglon o drosglwyddo penderfynyddion ymwrthedd i wrthfiotigau o blanhigion trawsenynnol i ficro-organebau. Ystyriwyd yr ymchwil gan y panel Adolygu Gwyddoniaeth GM ochr yn ochr â'r holl waith arall sydd wedi'i gyhoeddi ar oroesiad trawsenynnau a'r potensial trosglwyddo genynnau. Fe'i disgrifiwyd ym mhennod 5.4 o adroddiad cyntaf y panel Adolygu Gwyddoniaeth GM, a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2003.

Nid yw'r dystiolaeth wyddonol newydd y clywyd sôn amdani o Norwy am yr hyrwyddwr CaMV wedi'i chyhoeddi eto. Pan fydd manylion y gwaith ymchwil hwn ar gael, byddwn yn gofyn i ACRE, sy'n cynghori Llywodraeth y Cynulliad ar y risg a achosir drwy ryddhau organebau sydd wedi'u haddasu'n

enynnol yn fwriadol, gloriannu'r data a rhoi cyngor inni ar ei oblygiadau o ran y caniatâd sy'n bodoli'n barod a cheisiadau i'r dyfodol.

## Yr Hawl i Wahardd neu Gyfyngu ar Amrywiadau Cnydau Organebau GM

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod gan y gwledydd sydd wedi llofnodi protocol Cartagena ar fioddiogelwch yr hawl i wahardd neu gyfyngu ar yr amrywiadau o gnydau organebau GM fel Chardon LL pan fydd ansicrwydd gwyddonol ynghylch eu diogelwch byr i hirdymor a'u heffeithiau ar yr amgylchedd? (WAQ33912)

**Carwyn Jones:** Mae'n rhaid i'r partïon sydd wedi ymrwymo i brotocol Cartagena, megis y DU, gymryd mesurau cyfreithiol, mesurau gweinyddol a mesurau eraill angenrheidiol a phriodol i sicrhau yr ymgymerir â datblygu, trafod, cludo, defnyddio, trosglwyddo a rhyddhau unrhyw organebau byw sydd wedi'u haddasu'n enynnol mewn modd sy'n atal neu'n lleihau'r risg i amrywiaeth fiolegol, gan ystyried hefyd y risg i iechyd dynol.

## Chardon LL

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar addasrwydd yr amrywiad indrawn GM Chardon LL ar gyfer ei ffermio a'i ddefnyddio yng Nghymru? (WAQ33913)

**Carwyn Jones:** Y maen prawf er mwyn ychwanegu amrywiad at restr genedlaethol y DU yw y dylai, ac ystyried ei holl briodoleddau, gynrychioli gwelliant clir o'i gymharu â'r amrywiadau eraill o indrawn porthiant sydd eisoes ar restr y DU. Mae Chardon LL wedi'i asesu ar y sail hon a chanfuwyd ei fod yn bodloni'r safonau perfformiad a osodwyd i ddangos gwelliant clir o ran ei werth i'w dyfu a'i ddefnyddio.

## Silwair Indrawn Porthiant GM

**Helen Mary Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd er mwyn sicrhau na all unrhyw oblygiadau i les anifeiliaid ddeillio o'u bwydo'n barhaus â silwair indrawn porthiant GM? (WAQ33914)

**Carwyn Jones:** Mae'r gwaith ymchwil o dreialon porthi Prifysgol Reading, lle bwydwyd gwartheg godro ar silwair indrawn T25, wedi'i gwblhau ac mae'n aros i'w gyhoeddi mewn cylchgrawn a adolygir gan gyd-wyddonwyr. Mae Bayer (a ariannodd yr ymchwil) a phrifysgol Reading wedi cadarnhau nad yw'r astudiaeth yn dangos bod indrawn T25 yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar iechyd anifeiliaid cnoi cil.

## Asesiad o Nodweddion GM penodol Chardon LL

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod grŵp gwerth tyfu a defnyddio llystyfiant, cyn treialon y rhestr genedlaethol ar gyfer indrawn Chardon LL, wedi gofyn am asesiad o nodweddion GM penodol, ac a fydd y Gweinidog yn gwneud cais am asesiad o'r fath? (WAQ33915)

**Carwyn Jones:** Fe'm cynghorir bod cylch gwaith y grŵp gwerth tyfu a defnyddio llystyfiant yn cynnwys gwneud argymhellion ynghylch asesu unrhyw nodweddion arbennig a honnir gan restrau cenedlaethol o ran gwerth amrywiad i'w dyfu fel cnwd a'i ddefnyddio pan fyddant yn gwneud cais. Yn achos Chardon LL, nid oedd yr ymgeisydd yn honni bod ymwrthedd yr amrywiad i'r chwynladdwr glufosinate ammonium yn nodwedd arbennig at ddibenion y treialon gwerth tyfu a defnyddio.

## Treialon i Ailasesu Caeau Cyfan

**Helen Mary Jones:** A yw'r Gweinidog wedi gofyn am gynnal treialon i ailasesu caeau cyfan o ystyried y bydd chwynladdwr a ddefnyddiwyd yn y treialon hynny yn cael ei wahardd cyn bo hir? (WAQ33916)

**Carwyn Jones:** Mae swyddogion y Cynulliad yn ceisio cyngor ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd ynghylch y papur a gyhoeddwyd ar 5 Mawrth 2004 gan y cylchgrawn gwyddonol, *Nature*.

**Dilysrwydd Treialon y Rhestr Genedlaethol**

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddilysrwydd treialon y rhestr genedlaethol ar gyfer indrawn Chardon LL ym 1998 a 1999? (WAQ33917)

**Carwyn Jones:** Adolygwyd y data o'r treialon Chardon LL 2000 gan y grŵp gwerth tyfu a defnyddio annibynnol a'r pwyllgor cenedlaethol rhestru a hadau. Cytunwyd bod y data yn ddigonol ac yn sylfaen gadarn i asesu perfformiad gwerth tyfu a defnyddio Chardon LL.

Adolygwyd y data eto yn 2003 yng ngoleuni'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn sylwadau ysgrifenedig i wrandawiad Chardon LL. Daethpwyd i'r un casgliad.

**Cynhyrchu Indrawn GM ar Raddfa Fasnachol**

**Helen Mary Jones:** Pa asesiadau a wnaed o'r goblygiadau i Gymru os caniateir cynhyrchu indrawn GM ar raddfa fasnachol? (WAQ33918)

**Carwyn Jones:** Disgwyliaf i oblygiadau amaethyddol unrhyw gamau posibl i dyfu Chardon LL yn fasnachol fod ymysg y materion i'w hystyried yn yr ymgynghoriad ar gydfodoli.

**Marchnata Organebau sydd wedi'u Haddasu'n Enynnol**

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses a ddefnyddir pan geir penderfyniad ar y cyd gan Awdurdod Cymwys y DU i roi gwybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd ar geisiadau i farchnata organebau sydd wedi'u haddasu'n enynnol yn unol â chyfarwyddeb 2001/18/EC? (WAQ33919)

**Carwyn Jones:** Mae ceisiadau am ganiatâd marchnata o dan y gyfarwyddeb rhyddhau bwriadol gan un o awdurdodau cymwys eraill yr UE yn cael eu sgrinio'n gyntaf gan ysgrifenyddiaeth ACRE i weld a ydynt yn gyflawn. Anfonir copïau ohonynt at awdurdodau cymwys y DU am eu sylwadau. Cyflwynir y ffeil, ynghyd ag unrhyw gwestiynau a godwyd gan awdurdodau cymwys y DU, i'r Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd am gyngor. Yna, ystyrir cyngor ACRE gan awdurdodau cymwys y DU ac anfonir ymateb at y prif awdurdod, at aelod wladwriaethau eraill ac at y Comisiwn.

**Chardon LL**

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau (a) bod y label cynnyrch ar gyfer y chwynladdwr Bayer Liberty a ddefnyddir gydag indrawn porthi yn nodi y dylid defnyddio hyd at 8 litr o'r chwynladdwr crynodedig ar gyfer pob hectar, a (b) mai 3.5 litr a ddefnyddiwyd ar gyfer pob hectar mewn gwirionedd yn ystod y rhaglen i asesu ffermydd cyfan? (WAQ33920)

**Carwyn Jones:** Bydd faint o'r chwynladdwr Liberty a ddefnyddir fesul hectar yn dibynnu ar grynodiad y cynhwysyn gweithredol. Y crynodiad a gâi ei argymell oedd 0.8kg/ha o'r cynhwysyn gweithredol bob tro y câi'r chwynladdwr ei ddefnyddio gyda chyfyngiad o hyd at 1.6kg/ha ym mhob tymor tyfu. Mae'r ystadegau'n dangos mai 0.965kg/ha ± 0.063kg/ha o'r cynhwysyn gweithredol a gafodd ei ddefnyddio ar gyfartaledd ar yr indrawn GMHT ym mhob tymor tyfu fel rhan o'r asesiadau ffermydd cyfan a bod y chwynladdwr wedi cael ei ddefnyddio 1.18 gwaith ± 0.06 ar gyfartaledd.

**Saethu Hwyaid Coch**

**Alun Ffred Jones:** Pwy sydd â hawl i osod cytundebau trwyddedu saethu hwyaid coch yng Nghymru? (WAQ33924) [W]

**Carwyn Jones:** Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn arwain ar fenter i edrych ar ddulliau o reoli'r hwyaden goch ym Mhrydain. Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n parhau â'r cyfrifoldeb dros drwyddedu.

**Trwyddedau sy'n Ymwneud â Difa**

**Alun Ffred Jones:** Pa drwyddedau sy'n ymwneud â difa sy'n cael eu gosod yng Nghymru? (WAQ33925) [W]

**Carwyn Jones:** Gellir rhoi trwyddedau i reoli anifeiliaid neu adar drwy saethu neu symud wyau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ar ôl ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a sefydliadau eraill lle y bo hynny'n berthnasol. Rhoddwyd cyfanswm o 13 o drwyddedau yn ystod 2003 i reoli gwyddau Canada, gwyddau gwyllt, mulfrain, hwyaid danheddog, hwyaid brongoch, hwyaid gwyllt, ieir dŵr a'r crëyr.

**Hwyaid Coch yn Ynys Môn**

**Alun Ffred Jones:** A oes unrhyw gorff wedi cael y drwydded i saethu hwyaid coch yn Ynys Môn? (WAQ33926) [W]

**Carwyn Jones:** Mae gan y Labordy Gwyddoniaeth Canolog drwydded hyd at 31 Mawrth 2004 i reoli'r hwyaden goch mewn safleoedd penodol yn Ynys Môn fel rhan o'r treialon ledled Prydain i reoli'r hwyaden goch. Mae'r dulliau rheoli'n cynnwys saethu a gwneud tyllau mewn wyau.

**Trwyddedau i Garthu Tywod**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw geisiadau a gafwyd am drwyddedau i garthu tywod yn Môr Hafren? (WAQ33928)

**Alun Cairns:** Pryd y gwnaed cais am drwydded i garthu tywod yn Culver Sands? (WAQ33929)

**Alun Cairns:** Pryd y gwnaed cais am drwydded i garthu tywod yn Môr Gogledd Bryste? (WAQ33930)

**Alun Cairns:** Sawl tunnell o dywod y bwriedir ei garthu ym Môr Gogledd Bryste yn ôl y ceisiadau a gafodd y Gweinidog, a dros faint o amser? (WAQ33933)

**Alun Cairns:** Sawl tunnell o dywod y bwriedir ei garthu yn Culver Sands yn ôl y ceisiadau a gafodd y Gweinidog, a dros faint o amser? (WAQ33934)

**Carwyn Jones:** Dyma'r ceisiadau carthu sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd yn disgwyl am benderfyniad:

| | | |
|---|---|---|
| Banc Helwick | ardal 373 | tynnu hyd at 300,000 tunnell fetrig/y flwyddyn am 15 mlynedd |
| Banciau Nobel | ardal 476 | tynnu hyd at 300,000 tunnell fetrig/y flwyddyn am 15 mlynedd, ill dau gan Llanelli Sand Dredging Cyf |
| North Middle Grounds | ardaloedd 455, 459 | tynnu hyd at 400,000 tunnell fetrig/y flwyddyn am 10 mlynedd gan Crossavon Cyf (Severn Sands) |

| | | |
|---|---|---|
| Môr Gogledd Bryste | ardal 470 | tynnu hyd at 1,000,000 tunnell fetrig/y flwyddyn am 10 mlynedd gan Hanson Aggregates Marine Cyf ac United Marine Dredging; (gwnaed y cais ar 12 Gorffennaf 2000 i Lywodraethau'r Cynulliad a'r DU, ond newidwyd yr ardal ac erbyn hyn mae'n gorwedd yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd Cymru). |

Gwnaed cais ar 16 Awst 2000 am dynnu uchafswm o 1,000,000 tunnell fetrig am 15 mlynedd yn Culver Sands (Ardal 472). Newidwyd yr ardal ac erbyn hyn mae yn nyfroedd Lloegr, felly Llywodraeth y DU sy'n ymdrin â'r cais. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn un o'r cyrff y mae'n ymgynghori ag ef.

Mae cais am ganiatâd cynllunio ym Medwyn am hyd at 250,000 tunnell fetrig/y flwyddyn hyd at 2013 gan Crossavon Cyf (Severn Sands) wedi'i wneud i Gyngor Sir Fynwy, ac mae'n aros am benderfyniad.

### Ceisiadau am Drwyddedau i Garthu Tywod yn Culver Sands a Môr Gogledd Bryste

**Alun Cairns:** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl ymateb i geisiadau am drwyddedau i garthu tywod yn Culver Sands a Môr Gogledd Bryste? (WAQ33931)

**Carwyn Jones:** O ran y cais yn ymwneud â Culver Sands, corff yr ymgynghorir ag ef yn unig yw Llywodraeth y Cynulliad (gweler WAQ33928). Mae cais Môr Gogledd Bryste yng nghyfnod ymgynghori trefn llunio barn y Llywodraeth; bydd yr amserlen yn dibynnu ar yr ymatebion a ddaw i law a'r wybodaeth amgylcheddol ychwanegol sy'n ofynnol.

### Traethellau'n Croesi'r Ffin rhwng Cymru a Lloegr

**Alun Cairns:** Pa gytundeb polisi sydd wedi'i lunio rhwng Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer achosion lle mae traethellau'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr? (WAQ33932)

**Carwyn Jones:** Pan fydd cais yn croesi'r ffin rhwng dyfroedd Cymru a Lloegr, rhaid i'r ymgeisydd gael barn ffafriol ar gais carthu o du Llywodraeth y Cynulliad a'r adran yn Lloegr (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog).

### Y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol

**Lisa Francis:** Pa effaith a gaiff y mesur cynllunio a phrynu gorfodol ar y parciau cenedlaethol yng Nghymru? (WAQ33985)

**Carwyn Jones:** Mae'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn awdurdodau cynllunio lleol ac, fel y cyfryw, bydd darpariaethau'r Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol, pan fydd wedi dod yn ddeddf, yn effeithio arnynt yn yr un modd ag awdurdodau cynllunio lleol eraill Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr angen i baratoi cynlluniau datblygu lleol, i ystyried cynllun gofodol Cymru wrth baratoi'r cynlluniau hynny, ac i roi'r darpariaethau manwl eraill yn y Mesur ar waith er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau cynllunio.

### Straen yng Nghefn Gwlad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar liniaru straen yng nghefn gwlad Cymru? (WAQ34013)

**Carwyn Jones:** Yr ydym yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a pha mor bwysig yw sicrhau bod gwasanaethau da, boed ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol

neu'r gwirfoddol, ar gael ar draws Cymru. Wrth gwrs, nid darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw'r unig ffordd o fynd i'r afael â straen yng nghefn gwlad. Yn wir, mae agenda iechyd y cyhoedd yn nodi'r bwriad i ymdrin â'r ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd, megis tlodi, cyflogaeth a pherthnasoedd iach, sydd hefyd yn cyfrannu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu'r llinell cyngor a gwrando cymunedol (CALL) a'r llinell gymorth straen yng nghefn gwlad er 2001. Mae'r llinellau cymorth hyn yn darparu help a chyngor cyfrinachol, yn rhad ac am ddim, ynghyd â chefnogaeth emosiynol a help ymarferol i holl bobl Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am bob agwedd ar fywyd gwledig, yn cwmpasu trafnidiaeth, cyngor busnes, mudiadau gwirfoddol, grwpiau a chlybiau lleol, a gwasanaethau iechyd a gwasanaethau'r awdurdodau lleol.

Yn achos llinell gymorth straen cefn gwlad Cymru, bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu cyllid hyd at 30 Mehefin 2004, ac wedi hynny bydd rhif y llinell gymorth yn cael ei arallgyfeirio at deleffonyddion llinell gymorth CALL. Bydd llinell gymorth CALL yn mynd ati'n ddiwyd i hyrwyddo ei hun fel llinell sy'n darparu gwasanaeth i bobl o ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol, gan sicrhau y darperir gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i bobl ar hyd a lled Cymru.

Yn ogystal, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi cefnogi mesurau i liniaru straen yng nghefn gwlad yn sgîl clwy'r traed a'r genau. Yr ydym hefyd yn ymchwilio i weithredu ymhellach yn y dyfodol ac yn gweithio gyda phartneriaid megis y Sefydliad Iechyd Gwledig ar raglen ymchwil sydd ar y gweill i ganfod natur a graddfa straen cefn gwlad, ac i weld pa mor gyffredin yw straen o'r fath.

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â phrotocol is-ddeddfwriaeth/cynllunio newydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ar ba ddyddiad y dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a drwy ba gyfrwng? (WAQ34023)

**Lisa Francis:** Pryd mae'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â phrotocol is-ddeddfwriaeth/cynllunio newydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn mynd i orffen? (WAQ34030)

**Lisa Francis:** Os ydym yn aros i brotocol is-ddeddfwriaeth a chynllunio newydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gael ei fabwysiadu, ar ba ddyddiad fydd hyn yn digwydd? (WAQ34031)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â phrotocol is-ddeddfwriaeth/cynllunio newydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sut byddai'r cyhoedd yn cyflwyno cynigion am welliannau iddo? (WAQ34025)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a yw'r protocol is-ddeddfwriaeth/cynllunio newydd wedi'i gymeradwyo neu ei fabwysiadu eto? (WAQ34029)

**Carwyn Jones:** Cymeradwywyd y protocol cynllunio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 30 Ionawr 2004. Nid yw'n is-ddeddfwriaeth ac mae ar wahân i'r cod ymddygiad sy'n ofynnol yn statudol a fabwysiadwyd gan awdurdod y parc ym mis Tachwedd 2001, ac yn ei ategu. Materion i awdurdod y parc cenedlaethol yw'r trefniadau i baratoi ac adolygu'r protocol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Lefelau Cylchrediad

**Leighton Andrews:** Yn sgîl WAQ32563, pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o lefelau cylchrediad y pedwar cyhoeddiad a ddewiswyd, ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ33264)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'm cynghorir mai lefelau cylchrediad y cyhoeddiadau yw:

| | |
|---|---|
| *The Western Mail* (cylchrediad dyddiol ar gyfartaledd) | 53,315 |
| *Daily Post* – rhifyn Cymru (cylchrediad ar gyfartaledd o ddydd Llun i ddydd Iau) | 40,835 |
| *Y Cymro* (wythnosol) | 4,802 |
| *Golwg* (wythnosol) | 4,500 |

### Penodiadau i Fyrddau CCNC

**Leighton Andrews:** Yn sgîl WAQ32563, pa benodiadau i fyrddau cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a ystyrir yn 'uwch eu proffil'? (WAQ33265)

**Sue Essex:** Penderfynir ar strategaethau hysbysebu ar sail y swydd benodol sydd i'w llenwi. Fodd bynnag, byddai swyddi gwag ar fyrddau'r CCNC canlynol yn cael eu hysbysebu yn y wasg fel arfer:
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Proffesiynau Iechyd Cymru (i'w sefydlu ar 1 Ebrill 2004)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Bwrdd Croeso Cymru

### Cymunedau yn Gyntaf (Llythyrau Cylch Gwaith at CCNC)

**Leighton Andrews:** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi mewn llythyrau cylch gwaith at CCNC o fewn ei phortffolio ynghylch mynd i'r afael ag agendâu Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33321)

**Sue Essex:** Fel CCNC cynghori, ni anfonnir llythyr cylch gwaith at y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

### Refferendwm yng Ngheredigion

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r refferendwm yng Ngheredigion i ethol maer yng Ngheredigion ac a fydd yn cyhoeddi'r sylwadau hynny? (WAQ33579)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion. Yr wyf hefyd wedi cael gohebiaeth oddi wrth y Comisiwn Etholiadol, y cyfeirir ato yn y datganiad a roddais gerbron y Cynulliad i gyd-fynd â'r rheoliadau refferendwm.

**Dyddiad y Refferendwm Arfaethedig yng Ngheredigion**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch dyddiad yr etholiad arfaethedig yng Ngheredigion, ac os ydyw a wnaiff gyhoeddi dyddiad arfaethedig yr etholiad? (WAQ33580)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi gohebu â Chyngor Sir Ceredigion yn ogystal â Llais y Cardi (trefnwyr y ddeiseb) a'r Comisiwn Etholiadol.

Mater i Gyngor Sir Ceredigion yw union ddyddiad y refferendwm, ynghyd â chyhoeddi'r dyddiad hwnnw. Bydd yn rhaid i'r cyngor gynnal y refferendwm o fewn dau fis i reoliadau'r Cynulliad ddod i rym.

**Swm y Grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi swm y grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru fesul ardal awdurdod lleol am bob blwyddyn ers 1999? (WAQ33598)

**Sue Essex:** Yn unol â'r ateb i gwestiwn WAQ33599, mae'r wybodaeth a roddir yn y tabl isod yn dangos faint o gymorth canolog a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys grant cynnal refeniw, incwm o'r trethi annomestig a ailddosbarthir a, gogyfer â'r blynyddoedd perthnasol, grantiau gostyngiadau'r dreth gyngor a grantiau trosiannol.

**Cymorth canolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fesul awdurdod (a)**

| | | | | | **£ mil** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** |
| **Ynys Môn** | 58,000 | 60,074 | 66,435 | 69,272 | 75,268 |
| **Gwynedd** | 101,838 | 107,060 | 116,019 | 122,142 | 134,830 |
| **Conwy** | 88,358 | 92,093 | 99,754 | 107,162 | 116,381 |
| **Sir Ddinbych** | 79,018 | 83,275 | 89,344 | 94,855 | 104,049 |
| **Sir y Fflint** | 115,089 | 120,342 | 126,270 | 130,777 | 141,845 |
| **Wrecsam** | 96,544 | 100,931 | 107,171 | 113,300 | 123,995 |
| **Powys** | 112,372 | 116,781 | 123,352 | 127,750 | 139,307 |
| **Ceredigion** | 60,286 | 64,136 | 69,199 | 71,261 | 77,911 |
| **Sir Benfro** | 97,919 | 102,455 | 111,791 | 116,289 | 127,035 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 146,325 | 153,705 | 164,049 | 170,465 | 187,509 |
| **Abertawe** | 184,116 | 191,167 | 203,896 | 216,577 | 234,618 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 119,725 | 124,998 | 131,285 | 138,746 | 152,179 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 106,373 | 112,066 | 117,575 | 120,704 | 131,918 |
| **Bro Morgannwg** | 91,654 | 95,755 | 100,580 | 105,341 | 114,414 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 212,806 | 222,872 | 236,558 | 243,220 | 268,251 |
| **Merthyr Tudful** | 56,593 | 59,246 | 62,131 | 63,643 | 69,797 |
| **Caerffili** | 143,882 | 152,628 | 163,688 | 172,370 | 191,422 |
| **Blaenau Gwent** | 68,264 | 71,359 | 74,732 | 78,280 | 84,296 |
| **Tor-faen** | 78,463 | 83,094 | 88,366 | 92,143 | 100,732 |
| **Sir Fynwy** | 61,590 | 63,199 | 66,121 | 68,561 | 74,328 |
| **Casnewydd** | 112,922 | 119,504 | 128,043 | 133,441 | 146,533 |
| **Caerdydd** | 245,588 | 256,889 | 270,415 | 285,450 | 306,024 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | 2,437,725 | 2,553,629 | 2,716,774 | 2,841,749 | 3,102,642 |

(a) Mae cymorth canolog Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys grant cynnal refeniw, trethi annomestig a ailddosbarthir, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor (1999-2000 a 2000-01), grant trosiannol (2001-02 a 2002-03), grant cymell perfformiad (2001-02 a 2003-04) a grant amddifadedd

(2003-04). Nid yw'n cynnwys arian wedi'i glustnodi a ddarperir gan y Cynulliad ac adrannau eraill o'r Llywodraeth ganolog ar ffurf grantiau at ddibenion penodol.

Ffynhonnell: ffurflenni gofynion y gyllideb.

**Gwariant Awdurdodau Lleol a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r gyfran o wariant awdurdodau lleol a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am bob blwyddyn ers 1999 fesul ardal awdurdod lleol? (WAQ33599)

**Sue Essex:** Mae'r wybodaeth a geisir wedi'i nodi yn y tabl isod.

**Cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r awdurdodau lleol fel canran o ofynion y gyllideb (a)**

| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 83 | 81 | 82 | 81 | 81 |
| **Gwynedd** | 81 | 80 | 81 | 80 | 81 |
| **Conwy** | 84 | 82 | 82 | 81 | 81 |
| **Sir Ddinbych** | 81 | 80 | 80 | 79 | 79 |
| **Sir y Fflint** | 81 | 80 | 79 | 79 | 79 |
| **Wrecsam** | 81 | 80 | 80 | 79 | 80 |
| **Powys** | 83 | 82 | 81 | 81 | 81 |
| **Ceredigion** | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 |
| **Sir Benfro** | 83 | 82 | 83 | 84 | 84 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 81 | 81 | 81 | 80 | 81 |
| **Abertawe** | 82 | 80 | 81 | 81 | 80 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 81 | 79 | 79 | 78 | 78 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 81 | 80 | 80 | 78 | 78 |
| **Bro Morgannwg** | 81 | 80 | 79 | 78 | 77 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 83 | 83 | 83 | 82 | 83 |
| **Merthyr Tudful** | 84 | 84 | 83 | 82 | 82 |
| **Caerffili** | 83 | 83 | 83 | 83 | 83 |
| **Blaenau Gwent** | 86 | 85 | 84 | 84 | 83 |
| **Tor-faen** | 85 | 84 | 84 | 84 | 83 |
| **Sir Fynwy** | 81 | 77 | 76 | 75 | 73 |
| **Casnewydd** | 84 | 84 | 85 | 85 | 85 |
| **Caerdydd** | 82 | 81 | 80 | 80 | 79 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | 82 | 81 | 81 | 81 | 80 |

(a) Mae cymorth canolog Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys grant cynnal refeniw, trethi annomestig a ailddosbarthir, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor (1999-2000 a 2000-01), grant trosiannol (2001-02 a 2002-03), grant cymell perfformiad (2001-02 a 2003-04) a grant amddifadedd (2003-04). Nid yw'n cynnwys arian wedi'i glustnodi a ddarperir gan y Cynulliad ac adrannau eraill o'r Llywodraeth ganolog ar ffurf grantiau at ddibenion penodol.

Ffynhonnell: ffurflenni gofynion y gyllideb.

**Ethol Maer yng Ngheredigion**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau mai Cyngor Sir Ceredigion fydd yn talu cost refferendwm ethol maer yng Ngheredigion? (WAQ33602)

**Sue Essex:** Gwnaf. Adran 36(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yw'r adran berthnasol. Mae'n ymdrin â'r cyfrifoldeb am etholiadau cyngor ond mae hefyd yn berthnasol pan gynhelir refferendwm ynglŷn â maer.

**Costau Staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Jonathan Morgan:** Beth oedd costau staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol ers 1999-2000? (WAQ33815)

**Sue Essex:** Mae costau staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru am bob blwyddyn ariannol o 1999-2000 hyd at y gwariant disgwyliedig eleni fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1999-2000 | £58,549 | (trosglwyddodd 7 aelod staff o'r Asiantaeth Hyfforddi Athrawon i mewn yn ystod y flwyddyn) |
| 2000-01 | £67,202 | (trosglwyddodd 197 aelod staff o Awdurdod Gwasanaethau Iechyd Cyffredin Cymru, Hybu Iechyd Cymru, Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru, Gweithrediaeth Rhaglen Ewropeaidd Cymru a MasnachCymru Rhyngwladol i mewn) |
| 2001-02 | £78,031 | (trosglwyddodd 116 aelod staff o'r Uned Cymorth Effeithiolrwydd Clinigol, Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru, a'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig i mewn) |
| 2002-03 | £90,062 | (trosglwyddodd 254 aelod staff o Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru a Chymdeithas Allforio Cymru i mewn) |
| 2003-04 | £105,171 | (trosglwyddodd 73 aelod staff o Gomisiwn Iechyd Cymru, Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti a'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol i mewn) |

**Cyllid sydd wedi'i Ddyrannu i Sir y Fflint**

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i sir y Fflint ers mis Mai 2003? (WAQ33872)

**Sue Essex:** Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2003 a mis Mawrth 2004, mae Sir y Fflint wedi derbyn £82.9 miliwn o grant cynnal refeniw a thaliadau drwy'r trethi annomestig. Yn ychwanegol at hyn, ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04, mae Sir y Fflint wedi cael dyraniad grant amddifadedd o £0.2 miliwn ac £1.4 miliwn o'r grant cymell perfformiad.

(DS: ar hyn o bryd mae'r grant amddifadedd ym mhrif grŵp gwariant cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio ond bydd yn symud i brif grŵp gwariant llywodraeth leol o 1 Ebrill.)

**Prosiectau'r Partneriaethau rhwng y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat/ Prosiectau Menter Cyllid Preifat**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru prosiectau'r partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat a'r prosiectau menter cyllid preifat y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ers 1999, yn ôl eu lleoliad, gwerth a dyddiad? (WAQ33988)

**Sue Essex:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgymryd ag unrhyw brosiectau menter cyllid preifat newydd er 1999. Mae'r gwaith o uwchraddio'r A55 ar draws Sir Fôn yn gynllun menter cyllid preifat, a etifeddwyd oddi wrth y Swyddfa Gymreig gynt adeg datganoli. Dechreuwyd defnyddio'r ffordd ym mis Mawrth 2001, gyda chostau cyfalaf o oddeutu £100 miliwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Moderneiddio Meddygfeydd Teulu ac Ysbytai

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar foderneiddio meddygfeydd teulu ac ysbytai yn Ne Caerdydd a Phenarth? (WAQ33269)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae pob ymddiriedolaeth GIG a bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol am ystyried y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd modern o fewn eu hardal a pha un a oes angen moderneiddio adeiladau ai peidio. Mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, yn gweithio ar hyn o bryd ar nifer o gynlluniau i foderneiddio'r ffordd o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ei hardal. Mae'n ofynnol i'r byrddau iechyd lleol gyflwyno eu strategaeth ystadau gofal sylfaenol i'r Cynulliad erbyn 1 Ebrill 2004. Bydd hyn yn caniatáu iddynt weithredu a chynllunio gwaith pellach i ddatblygu'r adeiladau yn eu hardal yn effeithiol yn y dyfodol.

### Cymunedau yn Gyntaf (Llythyrau Cylch Gwaith at CCNC)

**Leighton Andrews:** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi mewn llythyrau cylch gwaith at CCNC o fewn ei phortffolio ynghylch mynd i'r afael ag agendâu Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33320)

**Jane Hutt:** Mae disgwyl i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ymgymryd â'u gwaith yn unol â gwerthoedd, egwyddorion a safonau'r Cynulliad ac iddynt gyfrannu, fel y bo'n briodol, tuag at ei agenda strategol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. I sicrhau bod hyn yn digwydd mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn datblygu proses cynllunio busnes newydd sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweithio drwy bartneriaeth i wireddu agenda'r Llywodraeth. O safbwynt agendâu Cymunedau yn Gyntaf, mae'r llythyrau cylch gwaith a anfonir at bob CCNC gweithredol yn datgan ei bod yn ofynnol iddynt nodi sut y byddant yn cydweithio â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf; sut y byddant yn cynorthwyo ac yn hybu'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu cymunedol a'u rhoi ar waith; a sut y byddant yn cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau cymunedol yr awdurdodau lleol. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ddangos sut y byddant yn cyflawni hyn yn eu cynlluniau corfforaethol.

### Triniaeth ar gyfer Asthma yng Nghymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am driniaeth ar gyfer asthma yng Nghymru? (WAQ33334)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu polisi ar glefydau anadlu a fydd yn nodi rhaglen weithredu tymor hir i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol teg ac integredig, o ansawdd uchel, ar gyfer pobl â chlefydau anadlu, yn cynnwys asthma. Bydd y polisi yn datblygu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol o ran gofalu am bobl ar draws y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar:

- ddarparu gofal a chymorth person ganolog sy'n canolbwyntio ar anghenion
- hybu iechyd ac annibyniaeth
- datblygu gwasanaethau a chymorth tecach, o ansawdd uchel.

Cafodd grŵp cynllunio gweithredu ei ddatblygu i gyfrannu tuag at y gwaith cynllunio a helpu i symud polisi anadlu ar gyfer Cymru ymlaen. Bydd y bartneriaeth amlasiantaeth, amlbroffesiwn hon rhwng cynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyrff y GIG, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaeth yn helpu i bennu cynnwys y polisi a'r ffordd y'i cyflwynir ac y'i rhoddir ar waith. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ar 16 Mawrth.

Ymdrinnir ag anghenion plant sydd ag asthma yng nghyd-destun cyffredinol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant. Nod trosfwaol y fframwaith yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau'r gorau posibl o ran iechyd a lles a'u bod yn cael cymorth i wireddu eu potensial.

**Anghenion Staffio ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gofal Iechyd yn y Dyfodol**

**Nick Bourne:** Pa amcangyfrifon sydd gan y Gweinidog o'r anghenion staffio ar gyfer y galwedigaethau meddygaeth, fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg am y 10 mlynedd nesaf, fesul ardaloedd byrddau iechyd lleol, i gwrdd ag anghenion ei gynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol? (WAQ33335)

**Jane Hutt:** Rhagdybiwyd bod y cwestiwn yn cyfeirio at ofal sylfaenol ac, felly, mae deintyddion, optometryddion a fferyllwyr yn gontractwyr preifat ac nid oes gwybodaeth am y gweithlu yn y meysydd hyn yn cael ei chadw'n ganolog. Fodd bynnag, argymhellodd adroddiad adolygu'r gweithlu deintyddol gynnydd yn nifer y myfyrwyr israddedig o 55 i 76 y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ystyried yr angen i ehangu'r hyfforddiant deintyddol i israddedigion fel elfen annatod o'r strategaeth ddeintyddol i Gymru. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Choleg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd i nodi'r opsiynau ehangu.

Yn y tabl isod rhoddir gwybodaeth am y byrddau iechyd lleol unigol o gylch cynllunio'r gweithlu 2003, sef y flwyddyn gyntaf yr ymgymerodd y byrddau iechyd lleol â phroses cynllunio'r gweithlu. Caiff y ffigurau eu diweddaru'n flynyddol. Darperir gwybodaeth am y rhagolygon o ran nifer y staff mewn swydd a fydd yn ofynnol fel ymarferwyr cyffredinol yn 2009 ac fel fferyllwyr yn 2007.

| | **Ymarferwyr Cyffredinol** | **Fferyllwyr** |
|---|---|---|
| | **Rhagolygon nifer y staff mewn swydd a fydd yn ofynnol 2009** | **Rhagolygon nifer y staff mewn swydd a fydd yn ofynnol 2009** |
| **Ynys Môn** | 44.5 | 0 |
| **Blaenau Gwent** | 78.1 | 1 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 103.5 | 4 |
| **Caerffili** | 126.9 | 2.8 |
| **Caerdydd** | 204 | 0 |
| **Caerfyrddin** | 96.25 | 1 |
| **Ceredigion** | 66.75 | 1 |
| **Conwy** | 65.25 | 6.5 |
| **Sir Ddinbych** | 58.25 | 5.1 |
| **Sir y Fflint** | 83.75 | 8.2 |
| **Gwynedd** | 106.25 | 3.83 |
| **Merthyr Tudful** | 42.06 | 0 |
| **Sir Fynwy** | 66.7 | 1.5 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 111 | 12 |
| **Casnewydd** | 104.3 | 0 |
| **Sir Benfro** | 73.5 | 2 |
| **Powys** | 100.2 | 0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 140.65 | 0 |
| **Abertawe** | 201.25 | 4 |
| **Tor-faen** | 61.89 | 5.5 |
| **Bro Morgannwg** | 70.5 | 0 |
| **Wrecsam** | 77 | 6 |
| Mae'r ymarferwyr cyffredinol yn cynnwys ymarferwyr cyffredinol ar gyflog ac ymarferwyr cyffredinol arbenigol<br>Mae'r fferyllwyr yn cael eu cyflogi gan y BILl neu'n fferyllwyr i ymarferwyr cyffredinol yn unig. | | |

Data o gynlluniau gweithlu 2003.

## Cynyddu Capasiti'r Gwasanaethau Canser yng Nghymru

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i gynyddu'r hyn y gall y gwasanaethau canser ei gyflawni yng Nghymru? (WAQ33489)

**Jane Hutt:** Mae'r pwysau ar gapasiti i'w priodoli i nifer o ffactorau gwahanol y mae angen atebion gwahanol iddynt. Dylid ymdrin ag unrhyw gynnydd yn y gweithgarwch drwy'r broses gomisiynu. O ran gwasanaethau canser, bydd ailgyflunio gwasanaethau llawdriniaeth cymhleth ar gyfer canserau llai cyffredin yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y safonau canser newydd sy'n cael eu cwblhau'n derfynol ar hyn o bryd. Bydd hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion capasiti, gyda llai o dimau sydd ag adnoddau da yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau arbenigol prin. Mae'r tri rhwydwaith canser yn allweddol er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn a bydd angen iddynt weithio'n agos iawn gyda'r comisiynwyr, Comisiwn Iechyd Cymru a'r byrddau iechyd lleol, gan fod angen i'r cynllunio gael ei wneud ar lefel ranbarthol o leiaf.

Yn wahanol i'r sefyllfa yng nghyswllt canllawiau NICE ar gyffuriau, nid oes rhaid gweithredu canllawiau gwasanaeth NICE o fewn tri mis ac mae'n ddibynnol ar y broses gomisiynu ac adnoddau.

## Arolwg Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arolwg Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar, sef 'A Simple Cure'? (WAQ33490)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu adroddiad Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar, sy'n dangos yn glir lawer o'r materion o bwys i bobl fyddar neu bobl drwm eu clyw o ran sicrhau gofal iechyd. Cyfarfûm yn ddiweddar â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar i drafod yr adroddiad yn fanwl.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n bendant i sicrhau y caiff anghenion amrywiol pobl eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal iechyd. Yng Nghymru, mae'r byrddau iechyd lleol yn rhoi cymorth ymarferol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl fyddar neu bobl drwm eu clyw drwy drefniadau lleol, yn cynnwys darparu cyfleusterau dehongli.

## Strategaeth 'Hysbysu Gofal Iechyd'

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y bydd strategaeth 'Hysbysu Gofal Iechyd' Llywodraeth y Cynulliad yn ei chael ar ddarpariaeth gwasanaethau canser yng Nghymru? (WAQ33491)

**Jane Hutt:** Mae'r strategaeth hysbysu gofal iechyd wedi'i bwriadu i helpu i ddarparu gofal iechyd yng Nghymru mewn ystyr cynhwysfawr a thraws-gymunedol, yn hytrach nag ar sail arbenigedd neu gyflwr. O ganlyniad, generig fydd ei manteision o ran gwasanaethau canser yn y lle cyntaf. I glinigwyr sy'n gweithio ym maes canser, bydd y manteision buan yn cynnwys gwell seilwaith, gallu cyrchu'n well at gronfeydd gwybodaeth, a gallu manteisio ar sgiliau rheoli gwybodaeth a TG.

Bydd y tîm hysbysu gofal iechyd yn gweithio'n agos gyda chlinigwyr i ddatblygu cam cyntaf y cofnod iechyd electronig sengl i Gymru. Caiff hyn ei ddatblygu drwy gydol 2004 a'r bwriad yw dechrau ei gyflwyno'n raddol erbyn diwedd 2005. Bwriedir i'r cam cyntaf ddarparu mynediad at wybodaeth a swyddogaethau, a fydd yn help i glinigwyr a gofalwyr, yn cynnwys y rheini sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau canser. Bydd hyn yn ychwanegol at y cymorth electronig arbenigol sydd ar gael eisoes o'r system gwybodaeth canser a ddarperir ar draws Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae hysbysu gofal iechyd yn strategaeth tymor hir a fydd, dros y blynyddoedd nesaf, o dan arweiniad clinigwyr, gofalwyr a chleifion, yn ceisio helpu i integreiddio gwasanaethau o ansawdd uchel ym maes canser.

### Y Trefniadau sydd ar gael i Bobl sy'n Anabl yn Gorfforol yn Nwyrain De Cymru

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trefniadau sydd ar gael i bobl sy'n anabl yn gorfforol yn Nwyrain De Cymru? (WAQ33492)

**Jane Hutt:** Mae llawer o gynlluniau sy'n darparu gwasanaethau i bobl anabl ar draws y GIG, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Ymhlith rhai enghreifftiau rhagorol o hyn mae fforwm defnyddwyr a chleifion Mynwy, a sefydlwyd ddwy flynedd yn ôl ac sy'n cael ei ariannu drwy'r grant hyblygrwydd a chydweithio. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili yn ariannu nifer o wasanaethau yn y sector gwirfoddol, yn eu mysg ganolfan therapi plant Cymru Bobath a 'Gofal a Thrwsio', sy'n galluogi unigolion i barhau i fod yn annibynnol gartref a hefyd yn hwyluso rhyddhau cleifion yn gynt o'r ysbyty. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf brosiect llwybrau at waith, sy'n helpu pobl sy'n anabl yn gorfforol i ddychwelyd i weithio. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent yn datblygu cyd grŵp cynllunio i edrych ar wasanaethau yn y dyfodol.

### Darpariaeth Newyddenedigol

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth newyddenedigol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg? (WAQ33493)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae 20 crud ar gael yn Ysbyty Athrofaol Cymru Caerdydd a 14 yn ysbyty Llandochau, yn cynnwys gofal dwys, gofal dibyniaeth fawr a gofal arbennig. Er bod prinder staff nyrsio a meddygol o fewn yr unedau, nid dim ond yma yng Nghymru ond ar draws y DU, mae'r staff presennol wedi dangos lefel uchel o ymrwymiad ac ymroddiad i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal mor effeithiol â phosibl o dan amgylchiadau anodd.

Cydnabyddir ei bod yn bwysig cynnal gwasanaethau newyddenedigol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar anghenion babanod a'u teuluoedd, a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ym mhob sefyllfa. Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o brosiect y gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc, yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiwn Iechyd Cymru i gynllunio dyfodol ar gyfer y gwasanaethau newyddenedigol sy'n ddiogel, o ansawdd uchel ac yn addas ar gyfer anghenion lleol. Hyd yma, mae cyllid ar gyfer dwy swydd ychwanegol i ymgynghorwyr sy'n arbenigo ar blant newyddanedig wedi cael ei roi i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

### Gwelyau yn yr Unedau Gofal Dwys a Unedau Dibyniaeth Fawr yng Nghymru

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth gwelyau yn yr unedau gofal dwys yng Nghymru? (WAQ33494)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth gwelyau yn yr unedau dibyniaeth fawr yng Nghymru? (WAQ33495)

**Jane Hutt:** Yn 2000 nododd y tasglu pwysau argyfwng yr angen am gynnydd yn y gwelyau i oedolion mewn unedau therapi dwys yng Nghymru ac er y bu cynnydd yn y gwelyau i oedolion mewn unedau cyffredinol dibyniaeth fawr a gofal dwys ers hynny, nid yw lefel y cynnydd hwn eto wedi cyrraedd y lefel o gynnydd a argymhellwyd.

Yn y tymor byr, er mwyn gwneud cynnydd pellach, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau i'r GIG ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn ymwneud â lleihau nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo oherwydd diffyg gwelyau gofal critigol i oedolion a throsglwyddo yn amhriodol cleifion y mae angen gofal critigol arnynt.

Yn y tymor hwy, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi sylw i rai o'r materion sy'n effeithio ar ofal critigol, megis capasiti, drwy grŵp datblygu amlddisgyblaethol yr wyf wedi ei sefydlu. Mae'r grŵp hwn eisoes wedi llunio safonau gofal arfaethedig ar gyfer gwahanol lefelau o ofal critigol i oedolion yr ymgynghorwyd yn eu cylch a chawsant eu croesawu gan y GIG. Bellach mae'r grŵp wedi troi ei sylw tuag at weithredu'r rhain ac mae i fod i ymgynghori ynghylch ei gynlluniau gogyfer â hynny yn ddiweddarach eleni.

### Rhestrau Aros yng Ngogledd Cymru

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar restrau aros yng ngogledd Cymru? (WAQ33496)

**Jane Hutt:** Mae'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau GIG yng ngogledd Cymru yn dweud y byddant yn cyrraedd y targed sy'n pennu cyfnod aros o ddim mwy na 18 mis i gael apwyntiad fel claf mewnol, i gael triniaeth fel achos dydd neu i gael apwyntiad cyntaf fel claf allanol. Mae'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau hefyd yn hyderus y rhagorir ar y targed 18 mis yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn 31 Mawrth 2004.

### Targedau Cynnydd mewn Iechyd

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dargedau cynnydd mewn iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ33497)

**Jane Hutt:** Yn dilyn proses ddatblygu gynhwysfawr a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o gyrff, mae targedau iechyd cenedlaethol a dangosyddion anghydraddoldebau iechyd newydd wedi cael eu sefydlu ar gyfer y cyfnod rhwng 2002 a 2012 mewn pum maes iechyd y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Lansiwyd y targedau cenedlaethol ar gyfer canser, iechyd meddwl ac iechyd plant yn ffurfiol ym mis Ionawr 2004, gyda'r targedau ar gyfer clefyd coronaidd y galon ac iechyd pobl hŷn yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2003.

Mae cyhoeddiad sy'n crynhoi'r targedau newydd yn cael ei ddosbarthu'n eang i'r byrddau iechyd lleol, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, gofal sylfaenol, ymddiriedolaethau'r GIG, yr awdurdodau lleol, y sectorau gwirfoddol a chymunedol a sefydliadau academaidd ar hyn o bryd. Mae copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:
http://www.cmo.wales.gov.uk/content/work/health-gain-targets/index-e.htm
http://www.cmo.cymru.gov.uk/content/work/health-gain-targets/index-w.htm

Mae'r wefan hefyd yn rhoi gwybodaeth gefndir am ddatblygu'r targedau iechyd ac am y gwaith sy'n parhau i ddatblygu dangosyddion gogyfer â'r ffactorau sy'n pennu iechyd. Caiff data llinell sylfaen am bob targed ei ddarparu hefyd cyn gynted ag y bydd y wybodaeth ar gael. Mae dyddiad yn cael ei drefnu ar hyn o bryd er mwyn trafod targedau iechyd mewn Cyfarfod Llawn.

### Gwasanaethau Rheoli Poen

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau rheoli poen yng Nghymru? (WAQ33498)

**Jane Hutt:** Mae gwasanaethau rheoli poeni yn fater sy'n berthnasol i sbectrwm eang ac amrywiol o ofal iechyd, ac mae amryw o faterion a gwasanaethau y mae angen eu hystyried. Er mwyn datblygu gwasanaethau yn y tymor hwy, sefydlwyd grŵp datblygu gwasanaethau rheoli poen i Gymru gyfan i ystyried y ffordd orau o ddatblygu gwasanaeth mwy integredig ac effeithiol. Bydd gwaith y grŵp yn help i ddatblygu fframwaith gwasanaeth i sicrhau bod holl wasanaethau'r dyfodol yn cael eu datblygu a'u darparu ar sail fwy hygyrch a theg ar draws Cymru.

**Gweithwyr Locwm o Dan y Contract Newydd i Feddygon Teulu**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu gweithwyr locwm yn ystod yr absenoldeb mamolaeth 26 wythnos o dan y contract newydd i feddygon teulu? (WAQ33499)

**Jane Hutt:** Mae'r taliadau y mae'r byrddau iechyd lleol i fod i'w talu i gontractwr o dan y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol wedi'u cynnwys yn y datganiad am hawl ariannol. Manylir yn rhan 4, adran 9, ar sut mae contractwyr i gael eu had-dalu gan y bwrdd iechyd lleol am gyflogi gweithiwr locwm. Yn ddibynnol ar yr amodau a gynhwyswyd yn adran 9, yn 2004-05, dylai bwrdd iechyd lleol ad-dalu uchafswm o £948.33 yr wythnos i'r contractwr am uchafswm o 26 wythnos.

**Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerdydd**

**Owen John Thomas:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag arweinydd Cyngor Sir Caerdydd ynghylch ymrwymiad y cyngor i gryfhau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd? (WAQ33500)

**Jane Hutt:** Yn sgîl cyhoeddi adroddiad yr adolygiad ar y cyd ym mis Medi 2002, cyfarfûm â'r Cynghorydd Goodway ar 3 Hydref a 25 Tachwedd 2002 ac 11 Mawrth 2003 i'm bodloni fy hun fod yr awdurdod wedi ymrwymo i gryfhau gwasanaethau cymdeithasol. Comisiynais adroddiad arolygu arbennig am wasanaethau plant Caerdydd oddi wrth Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a gyflwynodd ei hadroddiad ym mis Tachwedd 2003. O ganlyniad, rhoddais y protocol i ddelio â phryderon difrifol mewn grym a gofynnais i'r prif arolygydd osod targedau gwella a rhaglen fonitro i'r awdurdod. Mae trefniadau ar y gweill imi gwrdd â'r Cynghorydd Goodway i drafod yr hyn sydd wedi'i gyflawni yng nghyswllt y materion hyn.

**Blaenoriaethau Gwariant Cyfredol ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei blaenoriaethau gwariant cyfredol? (WAQ33501)

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb derfynol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2004-05 yn £4.6 biliwn. Mae fy nghynlluniau gwario ar gyfer 2004-05 yn cynnwys:

- darpariaeth o £2.7 biliwn fel dyraniadau refeniw i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, a gyflwynwyd ar 15 Rhagfyr 2003 (WHC(2003)124);
- mae arian yn cael ei ddal yn ganolog i dalu am foderneiddio (y contract i ymgynghorwyr, yr 'Agenda ar gyfer Newid') a 'Hysbysu Gofal Iechyd';
- mae £5 miliwn yn cael ei ddal mewn cyllidebau canolog i roi adroddiad Townsend ar waith, ac yr ydym yn disgwyl am gyngor gan y Pwyllgor Sefydlog ar y ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio'r adnoddau yn 2004-05;
- neilltuwyd £369 miliwn ar gyfer y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd; cyflwynwyd £253 miliwn o dan WHC (2003) 124, a bydd y symiau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach;
- £29 miliwn ar gyfer gofal mewn cartrefi nyrsio, y mae'r cyfrifoldeb am y gofal hwn wedi trosglwyddo o lywodraeth leol i'r gwasanaeth iechyd gwladol a bydd yr arian yn cael ei ddyrannu cyn gynted ag y bydd y data wedi cael ei ddilysu i nodi i ble y dylai gael ei ddosbarthu;
- mae £12 miliwn wedi cael ei neilltuo o 1 Ebrill 2004 i gwtogi amseroedd aros;
- bydd £11.2 miliwn yn hyrwyddo ac yn annog datblygu partneriaethau ffurfiol rhwng y GIG a llywodraeth leol, yn cynnwys £2.2 miliwn i gynnal cyfranogiad yr awdurdodau lleol ar y byrddau iechyd lleol;
- £3 miliwn i helpu i roi'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn ar waith; ac
- mae cyllid wedi cael ei glustnodi hefyd ar gyfer y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yng nghyd-destun diwygiadau Wanless.

**Blocio Gwelyau yn y GIG**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chynlluniau i fynd i'r afael â blocio gwelyau yn y GIG? (WAQ33502)

**Jane Hutt:** Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn deillio o sawl achos cydgysylltiol sy'n effeithio ar y gyfundrefn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwella perfformiad o ran darparu gofal i bobl yn y sefydliad priodol ar yr adeg briodol yn elfen bwysig o'r gwaith yr ydym yn ei wneud, yn dilyn adolygiad Wanless o iechyd a gofal cymdeithasol.

**Clinig y Frest yn y Fenni (Amseroedd Aros)**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amseroedd aros ar gyfer asesiadau yng nghlinig y frest yn y Fenni? (WAQ33503)

**Jane Hutt:** Er mwyn lleihau'r amseroedd aros i gleifion allanol, gan gynnwys apwyntiadau yng nghlinig y frest, mae Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent wedi cyflwyno system bwcio yn rhannol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y niferoedd sy'n aros am apwyntiad cyntaf. Mae'r ymddiriedolaeth yn dal i chwilio am ffyrdd o wella ymhellach gyda'r nod o ddarparu gofal sy'n deg a hygyrch i gleifion.

**Amseroedd Aros am Sganiadau ar yr Ymennydd (Sir Fynwy)**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amseroedd aros ar gyfer sganiadau ar yr ymennydd yn dilyn strociau yn sir Fynwy. (WAQ33504)

**Jane Hutt:** Nod Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yw sganio pob claf y mae angen sganiad ymennydd arno o fewn 48 awr, pan fo'n bosibl. Fodd bynnag, ar adegau efallai na chaiff hyn ei gyflawni oherwydd lefel uchel o gleifion a gyfeirir fel achosion trawma/cleifion mewnol sy'n achosion argyfwng, neu ar benwythnosau. Mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol yn cael ei ddarparu gan dimau sy'n aros galwad ac fe'i defnyddir yn helaeth ar gyfer llwythi gwaith argyfwng.

**System Apwyntiadau'r GIG**

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar system apwyntiadau'r GIG? (WAQ33505)

**Jane Hutt:** Nodwyd agweddau allweddol system apwyntiadau newydd o fewn y GIG yng Nghymru yn 'A Guide to Good Pratice' a gyhoeddwyd gan arloesi mewn gofal ym mis Tachwedd 2003. Yn y canllawiau hyn, dywedwyd y dylai fod un dull integredig safonol o wneud apwyntiadau o fewn ymddiriedolaethau'r GIG. Dylai'r broses gwmpasu pob apwyntiad newydd ac apwyntiad dilynol, ffisiotherapi, endosgopi a radioleg. Dylai'r un egwyddorion gael eu defnyddio hefyd ar gyfer triniaethau dewisol fel claf mewnol ac fel achos dydd.

Nodwedd allweddol o'r system apwyntiadau newydd yw rhoi dewis i'r claf. Dylid gwneud pob apwyntiad mewn ffordd sy'n cynnwys y claf yn uniongyrchol o ran cytuno ar ddyddiad ac amser, un ai yn bersonol neu dros y ffôn. Yn ogystal â rhoi mwy o hyblygrwydd i gleifion, dangoswyd bod rhoi dewis o ran dyddiad ac amser yn lleihau nifer y cleifion nad ydynt yn cadw'u hapwyntiad fel cleifion allanol yn sylweddol. Mae'r system apwyntiadau newydd yn cyfrannu tuag at y gwelliant o ran amseroedd aros i gleifion allanol a welwyd dros y 18 mis diwethaf. Mae pob ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cyflwyno'r math hwn o drefniant. Yn Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, mae 95 y cant o'r holl apwyntiadau i gleifion yn cael eu gwneud drwy'r dull hwn erbyn hyn. Mae ymddiriedolaethau eraill yn trefnu apwyntiadau y rhan fwyaf o gleifion newydd sy'n cael eu cyfeirio yn y ffordd hon, ac yn symud tuag at sefydlu'r drefn hon ar gyfer apwyntiadau dilynol.

**Amseroedd Aros i weld Meddyg Ymgynghorol Orthopedig**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r amser aros hiraf a ganiateir ar gyfer cyfeirio rhywun at feddyg ymgynghorol orthopedig yng Nghymru? (WAQ33542)

**Jane Hutt:** Mae'r fframwaith gwasanaeth ac ariannol ar gyfer 2004-05 yn gosod targed amser aros ym maes orthopedeg o 18 mis ar ei hiraf ar gyfer triniaeth ddewisol fel claf mewnol/achos dydd a chlaf allanol. Mae cynnal y targed hwn neu ragori arno yn nod allweddol i'r swyddfeydd rhanbarthol ac i'r GIG yng Nghymru yn 2004-05.

**Mesur Plant 2004**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael oddi wrth sefydliadau yng Nghymru am ddarpariaeth ym Mesur Plant 2004? (WAQ33567)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cynnal trafodaethau ynglŷn ag agweddau Cymreig y Mesur gyda Chyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol a'r deiliaid portffolio sy'n gyfrifol am y gwasanaethau cymdeithasol o fewn llywodraeth leol. Yr wyf hefyd wedi trafod gyda Chomisiynydd Plant Cymru ei berthynas â'r comisiynydd arfaethedig ar gyfer Lloegr.

**Amserlen yr Ymchwiliad i Lofruddiaeth Mr Brian Dodd**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amserlen yr ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at lofruddio un o'm hetholaeth, Mr Brian Dodd, fis Mawrth diwethaf? (WAQ33569)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pwy sydd ar y panel sy'n ymchwilio i'r amgylchiadau a arweiniodd at lofruddio yn o'm hetholaeth, Mr Brian Dodd, fis Mawrth diwethaf? (WAQ33570)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at lofruddio un o'm hetholaeth, Mr Brian Dodd, fis Mawrth diwethaf? (WAQ33571)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gylch gwaith y panel sy'n ymchwilio i'r amgylchiadau a arweiniodd at lofruddio un o'm hetholwyr, Mr Brian Dodd, fis Mawrth diwethaf? (WAQ33572)

**Jane Hutt:** Yn dilyn y digwyddiad trasig hwn, gofynnwyd ar 27 Hydref 2003 i fwrdd iechyd lleol Caerdydd gomisiynu adolygiad allanol annibynnol i'r trefniadau rheoli gofal a'r digwyddiadau a amgylchynai'r dynladdiad a gyflawnwyd gan Mr Paul Khan. Y diben drwyddo draw oedd dysgu gwersi er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiad cyffelyb yn digwydd eto, a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws Cymru.

Mater i'r bwrdd iechyd lleol oedd penderfynu ar union gylch gwaith y panel, ond deellir y bydd yn ystyried y gofal a ddarparwyd i Mr Khan cyn belled yn ôl ag sy'n ofynnol er mwyn dysgu o ddigwyddiadau 2003. Gofynnwyd yn benodol hefyd i'r bwrdd iechyd lleol sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gyflawni gan arbenigwyr yn y maes hwn, o'r tu allan i Gymru. Byddai panelau o'r fath yn cynnwys cynrychiolaeth leyg hefyd. Fodd bynnag, gan fod hwn yn adolygiad annibynnol, ni fyddai'n briodol i mi bennu union gyfansoddiad y panel adolygu. Mater i fwrdd iechyd lleol Caerdydd a'r panel gytuno arno yw'r amserlen ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, mae adolygiadau o'r fath yn cymryd tua chwe mis i'w cwblhau fel arfer. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo'n dda.

**Asiantaethau Gofal a Thrwsio**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am asiantaethau gofal a thrwsio yng Nghymru? (WAQ33585) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yn ddiweddar, cyhoeddais £3.77 miliwn o arian ar gyfer gwasanaethau gofal a thrwsio ledled Cymru yn 2004-05. Bydd yr adnoddau hyn yn sicrhau bod asiantaethau gofal a thrwsio, yn ogystal â Gofal a Thrwsio Cymru, yn parhau i chwarae rhan bwysig er mwyn galluogi pobl oedrannus ac anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

**Costau Rhedeg Blynyddol y Pum Awdurdod Iechyd**

**Nick Bourne:** Beth oedd costau rhedeg blynyddol y pum awdurdod iechyd y llynedd? (WAQ33593)

**Jane Hutt:** Nid yw cyfrifon blynyddol awdurdodau iechyd Cymru yn cynnwys dadansoddiad o'u costau rhedeg. Fodd bynnag, maent yn rhoi dadansoddiad o'u costau gweinyddol, a ddangosir isod fesul awdurdod iechyd:

| | **Bro Taf** | **Dyfed Powys** | **Gwent** | **Iechyd Morgannwg** | **Gogledd Cymru** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2002-03 | £9,434 | £8,296 | £10,453 | £7,325 | £8,701 | £44,209 |

**Ffynhonnell:** Cyfrifon blynyddol archwiliedig awdurdodau iechyd Cymru 2002-03.

**Ymgyfreitha Meddygol**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi, am bob blwyddyn ers 1999, y swm yn ei chyllideb ar gyfer ymgyfreitha meddygol, a'r union swm a wariwyd ar ymgyfreitha ym mhob un o'r blynyddoedd hynny? (WAQ33600)

**Jane Hutt:** Nid yw'r GIG yn pennu cyllidebau canolog ar gyfer ymgyfreitha meddygol. Telir unrhyw gostau a wynebir o ddyraniadau'r byrddau iechyd lleol neu o incwm yr ymddiriedolaeth. Dangosir y ffioedd amddiffyn cyfreithiol a thaliadau gweinyddol eraill isod.

**Ffioedd Amddiffyn Cyfreithiol a Chostau Gweinyddol eraill**

| | |
|---|---|
| 1998-99 | £2.671 miliwn |
| 1999-2000 | £2.031 miliwn |
| 2000-01 | £3.029 miliwn |
| 2001-02 | £4.356 miliwn |
| 2002-03 | £8.385 miliwn |

**Polisi'r Llywodraeth ar Fflworideiddio**

**Nick Bourne:** Pryd y gwnaiff y Gweinidog gyhoeddi polisi'r llywodraeth ar fflworideiddio? (WAQ33680)

**Jane Hutt:** Ysgrifennais at aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Rhagfyr 2003 i'w hysbysu am safbwynt presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fflworideiddio dŵr yng Nghymru.

Nid oes gennyf gynlluniau i gyhoeddi polisi'r Llywodraeth ar fflworideiddio ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried goblygiadau'r darpariaethau fflworideiddio yn Neddf Dŵr 2003 i Gymru. Mae Deddf Dŵr 2003 yn cynnwys pwerau ar fflworideiddio cyflenwadau dŵr—adran 58 o'r Ddeddf—a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Tachwedd 2003. Y cam deddfwriaethol nesaf fydd i adran 58 o'r Ddeddf gael ei chychwyn yng Nghymru gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol llunio rheoliadau i reoli'r ymgynghoriadau cyhoeddus y mae'n rhaid eu cynnal cyn y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarwyddo cwmni dŵr i fflworideiddio'r cyflenwad dŵr mewn ardal. Ni ellid sefydlu'r rheoliadau ymgynghori â'r cyhoedd yn gynharach na diwedd y flwyddyn eleni. Er bod yn rhaid gwneud y trefniadau deddfwriaethol hyn, ni fyddant o reidrwydd yn arwain at gyflwyno unrhyw gynlluniau fflworideiddio newydd.

## Rhestrau Trin Traed y GIG yng Nghymru

**Nick Bourne:** Faint o bobl sydd ar restrau trin traed y GIG yng Nghymru? (WAQ33681)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod. Mae'r ffigurau a ddarperir yn rhoi'r sefyllfa fel yr oedd ar 31 Ionawr 2004. Mae'r swyddogion yn cynnal cyfres o brosiectau gyda gwasanaethau diagnostig a therapi, yn cynnwys trin traed/podiatreg, i ystyried sut y gall y GIG ddefnyddio data am berfformiad ochr yn ochr â'r canllawiau arferion da arloesi mewn gofal i reoli eu hamseroedd aros yn well.

| Ymddiriedolaeth | Llai na 6 w'nos | 6-12 w'nos | 12-24 w'nos | 24-36 w'nos | 36-48 w'nos | 48-60 w'nos | 60-72 w'nos | Dros 72 w'nos | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd a'r Fro | 386 | 606 | 611 | 641 | 601 | 400 | 421 | 239 | 3905 |
| Caerfyrddin | 56 | 92 | 27 | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 193 |
| Ceredigion | 82 | 59 | 55 | 45 | 41 | 15 | 17 | 42 | 356 |
| Conwy-Dinbych | 191 | 37 | 41 | 28 | 7 | 0 | 0 | 0 | 304 |
| Gwent | 214 | 307 | 685 | 396 | 381 | 251 | 262 | 456 | 2952 |
| Gogledd Morg | 136 | 110 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 261 |
| GDd Cymru | 178 | 27 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 224 |
| GO Cymru | 264 | 36 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300 |
| Sir Benfro-Derwen | 114 | 130 | 113 | 136 | 70 | 33 | 39 | 133 | 768 |
| Pontypridd-Rhondda | 189 | 57 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 251 |
| Powys | 49 | 17 | 6 | 5 | 0 | 1 | 0 | 2 | 80 |
| Abertawe | 42 | 104 | 305 | 26 | 0 | 0 | 0 | 0 | 477 |
| Cyfanswm llawn | 1901 | 1582 | 1882 | 1286 | 1109 | 700 | 739 | 872 | 10071 |
| **Canran o'r cyfanswm llawn** | **18.88** | **15.71** | **18.69** | **12.77** | **11.01** | **6.95** | **7.34** | **8.66** | |

## Gwasanaethau Rhewmatoleg i Gleifion Mewnol

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych ynghylch eu cynllun i symud gwasanaethau rhewmatoleg i gleifion mewnol o ysbyty Abergele i ysbyty Glan Clwyd? (WAQ33683)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych ynghylch y mater hwn. Yr wyf yn ymwybodol fod trosglwyddo ward 9, ysbyty Abergele, i Glan Clwyd yr hydref hwn yn rhan o gynlluniau ehangach yr ymddiriedolaeth i ddatblygu ei gwasanaethau clinigol er mwyn sicrhau gwelliant mawr drwyddi draw yn y gwasanaethau ar gyfer cleifion yn yr ardal. Deallaf fod y datblygiad wedi cael ei drafod yn llawn gyda'r holl staff meddygol ymgynghorol priodol a'u bod yn ei lwyr gefnogi.

Bydd ysbyty Abergele yn parhau i fod yn rhan annatod o wasanaethau aciwt yr ymddiriedolaeth hyd y gellir rhagweld. Bydd gwacáu ward 9 yn rhoi cyfle i'r ymddiriedolaeth ystyried datblygu gwasanaethau pellach yn Abergele. Gallai hyn gynnwys datblygu gwasanaeth orthopedig (lle nad oes argyfwng) yr ymddiriedolaeth a rhywfaint o lawdriniaeth gyffredinol ar gyfer achosion dydd.

## Hawliau Claf i Gael ei Drosglwyddo i Ysbyty yn Lloegr

**Jenny Randerson:** Pa hawliau sydd gan glaf i ofyn neu fynnu cael ei drosglwyddo i ysbyty yn Lloegr ar gyfer triniaeth sy'n fwy llwyddiannus yno nag yng Nghymru? (WAQ33811)

**Jane Hutt:** Os oes gan glaf bryderon neu ystyriaethau o unrhyw fath yn ymwneud â pha ysbyty y mae'n debygol o gael ei drin ynddo, dylai drafod y rhain gyda'i feddyg teulu pan gaiff ei gyfeirio gyntaf. Mae'n annhebygol, fodd bynnag, y byddai hyn yn arwain at gyfeirio'r claf i ysbyty yn Lloegr, ac eithrio ar gyfer rhai llawdriniaethau arbenigol neu lle bo gan fwrdd iechyd lleol y claf gytundeb â'r ysbyty—fel sy'n wir, er enghraifft, yn achos bwrdd iechyd lleol Powys ac ysbytai cyfagos yn Lloegr. Unwaith y mae claf ar restr aros, mae trosglwyddo i ysbyty arall yn debygol o olygu mynd ar waelod ei restr aros i gleifion allanol. Mae angen dehongli cyfraddau llwyddo yn ofalus. Gall ymddangos bod cyfradd lwyddo llawfeddyg neu adran ragorol yn isel am y rheswm syml fod achosion mwy cymhleth yn cael eu cyfeirio atynt.

**Eitemau Unigol o Ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u Cyhoeddi ers 1999**

**Jonathan Morgan:** Faint o eitemau unigol o ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u cyhoeddi ers 1999? (WAQ33812)

**Jane Hutt:** Y prif ddull a ddefnyddir i roi canllawiau i gyrff iechyd yng Nghymru yw cylchlythyron iechyd Cymru. Er 1999, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi 693 o'r rhain. Nid oes diffiniad clir o'r hyn a olygir gan 'ganllawiau', ond mae cyfran o'r rhain wedi'i anelu'n benodol at ledaenu gwybodaeth, tra bo eraill am ysgogi camau gweithredu penodol. Mae i rai cylchlythyron sail statudol, ac mae nifer yn adlewyrchu canllawiau a gyhoeddwyd ar draws y DU.

**Cyllideb Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad**

**Jonathan Morgan:** Pa ganran o gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol y Cynulliad sy'n cael ei gwario ar

- staffio Adran Iechyd y Cynulliad; ac
- ymddiriedolaethau'r GIG, a sut y mae hyn yn cymharu â phob blwyddyn ers 1999? (WAQ33814)

**Jane Hutt:** Mae costau staffio Adran Iechyd y Cynulliad yn rhan o gyllideb gweinyddiaeth ganolog y Cynulliad ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol. O ran costau staffio'r ymddiriedolaeth, dengys y tabl isod y gwariant gwirioneddol, ac mae'n dangos y costau staffio fel canran o'r gyllideb iechyd drwyddi draw (heb gynnwys gofal cymdeithasol):


| Blwyddyn | Cyllideb iechyd (£000'oedd) | Costau staff ymddiriedolaethau (£000'oedd) | y cant |
|---|---|---|---|
| 1999-2000 | 2,619,978 | 1,230,043 | 46.95 |
| 2000-01 | 2,879,216 | 1,333,123 | 46.30 |
| 2001-02 | 3,198,755 | 1,484,476 | 46.41 |
| 2002-03 | 3,580,235 | 1,630,090 | 45.53 |

**Mynd i'r Afael â Bygythiad y Diciâu mewn Pobl**

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael â bygythiad y diciâu mewn pobl yng Nghymru? (WAQ33819)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn ffodus i gael un o'r labordai TB rhanbarthol yng Nghaerdydd, sy'n gwasanaethu Cymru a de-orllewin Lloegr. Mae'r diciâu yn glefyd o bwys ac, o'r herwydd, mae'r Asiantaeth Diogelu Iechyd a'n Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yng Nghymru yn cadw llygad barcud arno. Byddwn yn parhau i gadw llygad manwl ar y clefyd yng Nghymru, a gallaf eich sicrhau nad awn yn hunanfodlon ynglŷn â'r clefyd hwn.

Mae'r diciâu yn dechrau ailgodi ei ben mewn rhannau o'r DU, yn bennaf yn Llundain. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli bod nifer yr achosion o TB yng Nghymru ar hyn o bryd yn hanner y gyfradd i'r DU—chwe achos am bob 100,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â 12 achos am bob 100,000 o'r boblogaeth. Mae mynychder TB wedi parhau i ostwng yng Nghymru, fel y mae'r graff isod yn ei ddangos.




**Bydwragedd mewn Cyflogaeth**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o fydwragedd sy'n cael eu cyflogi yng Nghymru? (WAQ33820)

**Jane Hutt:** Ar 30 Medi 2002, yr oedd 1,568 o fydwragedd cofrestredig—1,121 yn cael eu cyflogi ar sail gyfwerth ag amser llawn. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys bydwragedd a gyflogir fel rheolwyr, y mae 14 ohonynt yn cael eu cyflogi ar sail gyfwerth ag amser llawn gan y GIG yng Nghymru.

**Camau i Gynyddu Nifer y Bydwragedd mewn Cyflogaeth**

**Brynle Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y bydwragedd sy'n cael eu cyflogi yng Nghymru? (WAQ33821)

**Jane Hutt:** Mae recriwtio a chadw bydwragedd, yn unol â'r proffesiynau gofal iechyd eraill, yn cael ei ystyried yn y strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer GIG Cymru. Diben y strategaeth yw rhoi sylw i fater recriwtio a chadw o fewn GIG Cymru. Mae'n gwneud hyn drwy bennu'r fframwaith y byddir yn cadw ato er mwyn sicrhau bod pob cam gweithredu wedi ei nodi'n glir a bod ei gyfraniad i'r amcanion drwyddynt draw yn cael ei fonitro er mwyn darparu gweithlu effeithiol a modern yn y GIG yng Nghymru.

Bu cynnydd o 5 y cant yn nifer y bydwragedd cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru rhwng mis Medi 1997 a mis Medi 2002. Pennwyd targedau staffio yn 2002 i gynyddu nifer y nyrsys sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru o 6,000. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cynnydd targed o ran nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Mae'r comisiynau hyfforddi i fydwragedd wedi cynyddu o 72 yn 1998 i 100 yn 2003, sy'n unol â'r angen a nodwyd yn y cynlluniau gweithlu blynyddol a gyflwynwyd gan ymddiriedolaethau Cymru.

Yn ogystal, rhoddwyd ymgyrch dychwelyd i weithio ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003, wedi'i thargedu at nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Ers hynny, mae 21 o gyrsiau dychwelyd i weithio wedi cael eu cynnal. Cynhaliwyd ymgyrch arall dychwelyd i weithio ym mis Ionawr 2004, ac mae'r ymatebion i'r ymgyrch hon yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Mae cyrsiau pellach dychwelyd i weithio yn cael eu cynllunio.

## Swyddi Bydwreigiaeth

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o swyddi bydwreigiaeth sy'n wag a faint o swyddi bydwreigiaeth sy'n cael eu llenwi gan staff asiantaeth neu staff dros dro yng Nghymru? (WAQ33822)

**Jane Hutt:** Ar 31 Mawrth 2003, yr oedd 8.5 swydd wag cyfwerth ag amser llawn ym maes bydwreigiaeth a oedd wedi bod yn wag am dri mis neu fwy. Nid yw gwybodaeth am y swyddi a lenwir gan staff asiantaeth neu staff dros dro yn cael ei chadw'n ganolog.

## Annog Pobl yng Nghymru i Fwyta Bwydydd Iach

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i annog pobl yng Nghymru i fwyta bwydydd iach? (WAQ33864)

**Jane Hutt:** Mae maeth yn dylanwadu'n fawr ar iechyd pobl ac, o'r herwydd, mae gwella deiet pobl yng Nghymru yn flaenoriaeth fawr. Fis Mawrth y llynedd, lansiais 'Bwyd a Lles', y strategaeth genedlaethol ar faeth i Gymru, sy'n nodi cynllun gweithredu er mwyn gwella deiet pobl Cymru. Mae eisoes wedi arwain at nifer o gynlluniau sy'n anelu at annog pobl i fwyta deiet iach, megis:

- y cynllun grantiau hybu bwyd a ffitrwydd, sy'n rhoi cymorth ariannol tuag at brosiectau cymunedol sy'n annog bwyta'n iachach a/neu ffyrdd mwy gweithgar o fyw;
- ymgyrch gweithredu cymdeithasol ar y cyd rhwng y BBC a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fynd i'r afael â gorbwysedd a gordewdra drwy ddarparu cyngor am ffyrdd iach o fyw;
- cynllun peilot dwy flynedd i ddatblygu o leiaf 26 o gwmnïau bwyd cydweithredol, cynaliadwy, yng Nghymru; ac
- ystod o adnoddau i fod yn gefn i'r cyngor ar fwyta'n iach a roddir gan weithwyr iechyd proffesiynol i grwpiau targed penodol.

Cynaliasom yn ddiweddar dair cynhadledd ranbarthol y nodasom ynddynt syniadau arloesol i wella'r rhaglenni bwyd a ffitrwydd cyfredol ar gyfer plant a phobl ifanc. Yr wyf yn y broses o sefydlu tasglu bwyd a ffitrwydd i blant, a fydd yn ceisio integreiddio'r gwaith o weithredu a monitro strategaethau perthnasol.

## Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Ddyrannwyd i Sir y Fflint

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i sir y Fflint ers mis Mai 2003? (WAQ33874)

**Jane Hutt:** Dyrannwyd £110.8 miliwn o arian refeniw i Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint yn 2003-04. Mae cyfanswm o £132.9 miliwn wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2004-05.

## Canran o'r Gyllideb Iechyd a Wariwyd ar Rwystro Canser

**Jonathan Morgan:** Faint sy'n cael ei wario yn y flwyddyn ariannol hon gan Lywodraeth y Cynulliad ar gynlluniau i rwystro canser, a beth yw'r ffigurau bob blwyddyn ers 1999? (WAQ33892)

**Jonathan Morgan:** Pa ganran o gyllideb iechyd y Cynulliad eleni sy'n cael ei wario gan Lywodraeth y Cynulliad ar gynlluniau i rwystro canser, a beth yw'r ffigurau bob blwyddyn ers 1999? (WAQ33893)

**Jonathan Morgan:** Faint y mae pob bwrdd iechyd lleol yn ei wario ar gomisiynu gwasanaethau i drin canser? (WAQ33894)

**Jonathan Morgan:** Faint mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wario bob blwyddyn ar gynlluniau ymchwil i ganser? (WAQ33895)

**Jane Hutt:** Ysmygu sy'n gyfrifol am achosi'r rhan fwyaf o achosion o ganser yr ysgyfaint ac mae'n cyfrannu'n sylweddol tuag at ganserau ar ran uchaf y pibellau anadlu a chanserau eraill, gan gynnwys

canser y bledren a’r stumog. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru raglen genedlaethol gynhwysfawr ar atal ysmygu a rhoi’r gorau iddi ac mae ei gwariant ar hyn yn:

- 1999-2000: £1.750 miliwn
- 2000-01: £1.995 miliwn
- 2001-02: £2.010 miliwn
- 2002-03: £2.060 miliwn
- 2003-04: £1.970 miliwn

Yn ogystal, mae deiet sy’n cynnwys llawer o ffrwythau a llysiau a dim ond ychydig o fwydydd wedi’u puro, ynghyd â gweithgarwch corfforol ar y lefelau a argymhellir, â’r potensial i achosi gostyngiad o rhwng 30 a 40 y cant yn nifer yr achosion o ganser a nifer y rhai sy’n marw. Mae’r effeithiau diogelu hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyswllt canserau gastroberfeddol a cholorefrol. Yn sgîl datblygu’r strategaeth faeth i Gymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu’r cynllun grantiau bwyd a ffitrwydd er mwyn hybu bwyta’n iach a gweithgarwch corfforol. Dechreuodd y cynllun hwn yn 2003-04 ac mae’n costio £0.118 miliwn eleni.

Yn 2002, ymunodd Llywodraeth y Cynulliad ag adrannau iechyd eraill y DU i gefnogi’r ymgyrch SunSmart a mesurau eraill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon canser y croen. Bu’r gwariant ar gynlluniau ymwybyddiaeth o’r haul yn:

- 2002-03: £0.015 miliwn
- 2003-04: £0.011 miliwn

Mae sgrinio am ganser yn golygu bod modd ei ganfod yn gynnar ac, o bosibl, ei atal rhag datblygu’n rhy bell. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu’r adnoddau canlynol sydd wedi’u clustnodi i sgrinio am ganser y fron a chanser ceg y groth er 1999:

| Blwyddyn | Sgrinio ceg y groth | Sgrinio’r fron |
|---|---|---|
| 1999-2000 | £7.974 miliwn | £4.527 miliwn |
| 2000- 01 | £8.452 miliwn | £4.799 miliwn |
| 2001- 02 | £8.959 miliwn | £6.069 miliwn |
| 2002- 03 | £9.497 miliwn | £6.433 miliwn |
| 2003- 04 | £10.067 miliwn | £7.362 miliwn |

Mae llawer o wariant arall, ar faterion iechyd rhywiol a chynlluniau iechyd a diogelwch, er enghraifft, hefyd yn cyfrannu i ryw raddau at atal canser, ond mae cyfanswm y gwariant ar y rhaglenni a’r cynlluniau i atal canser soniais amdanynt a’i faint o’i gymharu â chyfanswm gwariant y Cynulliad ar iechyd fel a ganlyn:

| | **Gwariant ar gynlluniau atal canser a nodwyd** | **Canran o gyfanswm gwariant y Cynulliad ar iechyd** |
|---|---|---|
| **1999-2000** | £14.251 miliwn | 0.544 y cant |
| **2000-01** | £15.246 miliwn | 0.530 y cant |
| **2001-02** | £17.038 miliwn | 0.533 y cant |
| **2002-03** | £18.005 miliwn | 0.503 y cant |
| **2003-04** | £19.528 miliwn | 0.490 y cant |

Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wybodaeth ar hyn o bryd am y gwariant dewisol gan y byrddau iechyd lleol ar wasanaethau canser. Yr ydym yn ymdrin â’r bwlch hwn o ran gwybodaeth drwy sefydlu prosiect i edrych ar y gyllideb ar gyfer rhaglenni, a fydd yn priodoli’r holl wariant iechyd i gyflyrau gofal iechyd, yn cynnwys gwasanaethau canser. Disgwylir y bydd dadansoddiad rhagarweiniol o’r gwariant am flwyddyn ariannol 2003-04 ar gael erbyn mis Rhagfyr 2004.

I roi rhyw syniad o’r gwariant blynyddol ar ymchwil i ganser, amcangyfrifir bod Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu rhyw £4 miliwn yn 2003-04 ar gyfer ymchwil a datblygu yn ymwneud â chanser

drwy wahanol gynlluniau ariannu, gan gynnwys y cynllun i ddarparu arian i ddarparwyr GIG i'w cynorthwyo gydag ymchwil a datblygu, banc canser Cymru, rhwydwaith treialon canser Cymru, costau triniaeth ychwanegol yn ogystal â chynlluniau grantiau ymchwil.

### Elusennau Gofalwyr

**Nick Bourne:** A oes cynlluniau gan y Gweinidog i roi cymorth ychwanegol i elusennau gofalwyr fel Crossroads? (WAQ33896)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cynyddu'r arian grant yn 2004-05 i fudiadau gwirfoddol i ofalwyr sy'n gweithredu drwy Gymru gyfan 4 y cant i ryw £379,000. Bydd dyraniad grant Crossroads Cymru yn 2004-05 fymryn yn fwy na £174,000.

### Prosiect 'Cyngor Da: Iechyd Da'

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid a ddyrannwyd i sir y Fflint ar gyfer prosiect 'Cyngor Da: Iechyd Da'? (WAQ33906)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad wedi darparu £700,000 i Gymdeithas Genedlaethol Cyngor Ar Bopeth i gynnal prosiectau 'Cyngor Da: Iechyd Da' ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Y gymdeithas sy'n dyrannu'r arian hwn i brosiectau unigol. Deallaf y bydd prosiect sir y Fflint yn cael £31,000.

### Ariannu Prosiect 'Cyngor Da: Iechyd Da'

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog nodi am ba hyd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ariannu prosiect 'Cyngor Da: Iechyd Da'? (WAQ33907)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad yn darparu £700,000 o arian rheolaidd ar gyfer y prosiect hwn. Megis gyda phob arian a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad, bydd y fenter hon yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chyllido yn y dyfodol yn cael ei wneud yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.

### Argaeledd Ffrwythau a Llysiau Ffres a Fforddiadwy

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod rhagor o ffrwythau a llysiau ffres a fforddiadwy ar gael i gymunedau difreintiedig ac ynysig? (WAQ33935)

**Jane Hutt:** Yn gynharach y mis hwn, lansiais gynllun peilot dwy flynedd i ddatblygu cwmnïau bwyd cydweithredol yng Nghymru. Bydd cymorth o du'r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn arwain at ddatblygu o leiaf 26 o gwmnïau bwyd cydweithredol ar draws Cymru, gyda chysylltiadau ag ysgolion a chymunedau. Bydd y peilot yn canolbwyntio ar gyflenwi ffrwythau a llysiau fforddiadwy, o safon dda, o ffynonellau cynhyrchu lleol lle bo hynny'n bosibl, i gymunedau difreintiedig drwy ddatblygu rhwydweithiau dosbarthu bwyd lleol cynaliadwy.

I gael rhagor o wybodaeth, fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ysgrifenedig i'r Cabinet am gwmnïau bwyd cydweithredol a'r strategaeth ar faeth, a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth 2004.

### Enseffalopathi Myalgig a Syndrom Blinder Cronig

**Lisa Francis:** Pryd y caiff amserlen ei llunio ar gyfer y tri gweithdy rhanbarthol ar enseffalopathi myalgig a syndrom blinder cronig sydd i'w trefnu ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, byrddau iechyd lleol, cynllunwyr a chomisiynwyr? (WAQ33936)

**Lisa Francis:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau darpariaeth gwasanaeth iechyd cost effeithiol ar gyfer oedolion a phobl ifanc sydd â'r salwch corfforol enseffalopathi myalgig? (WAQ33938)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cynigion i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol wrth fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer ME yng Nghymru. Cyfarfûm yn ddiweddar â Chymdeithas Cefnogi ME a CFS Cymru i drafod materion yn ymwneud â datblygiadau gwasanaeth yng Nghymru gogyfer â CFS/ME ac yr wyf yn awyddus i ddatblygu'r berthynas hon ymhellach er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion sydd â'r cyflwr hwn yn cael sylw.

Mae fy swyddogion hefyd yn cadw mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd i fonitro datblygiadau gyda chanolfannau cydlynu y rhwydwaith clinigol. Ar ben hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gobeithio sefydlu trefniadau cydweithredu ffurfiol gyda chydweithwyr yn yr Adran Iechyd a Gweithrediaeth yr Alban i sicrhau ein bod yn adeiladu ar eu harbenigedd ac yn cyfrannu tuag at gynigion yn ymwneud â CFS/ME i'r dyfodol.

Yr ydym hefyd yn monitro canfyddiadau'r Cyngor Ymchwil Meddygol yn fanwl. Fe'i comisiynwyd gan yr Adran Iechyd i ddatblygu strategaeth fras ar fwrw ymlaen ag ymchwil fiofeddygol ac ymchwil gan y gwasanaeth iechyd i'r cyflwr.

Mae gwaith gwaelodlin rhagarweiniol ar y gweill hefyd i helpu i nodi'r ddarpariaeth gwasanaeth a'r anghenion cyfredol ar draws Cymru, a bu'r swyddogion yn gweithio gyda'r byrddau iechyd lleol ar hyn. Yr ydym hefyd yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynnal gweithdai ar draws Cymru i godi proffil y cyflwr gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a chomisiynwyr gwasanaethau. Nid yw'r amserlen ar gyfer y gweithdai hyn wedi'i phennu'n derfynol eto, ond yr wyf yn rhagweld y cânt eu cynnal yn ddiweddarach eleni.

### Gwelyau Ysbyty wedi'u Blocio yn GIG Cymru ar Hyn o Bryd

**Jonathan Morgan:** Faint o welyau ysbyty sydd wedi'u blocio yn GIG Cymru ar hyn o bryd? (WAQ33954)

**Jane Hutt:** Mae'r system o gyfrif oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru yn cofnodi achosion o oedi am bob rheswm, a hynny o fewn y GIG a rhwng y GIG a'r gymuned. Adeg cyfrifiad mis Chwefror 2004 cofnodwyd cyfanswm o 1,032 o achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal yng Nghymru. Pe baem yn cyfrif ar yr un sail ag yn Lloegr, 202 fyddai'r cyfanswm.

### Nifer y Gwelyau wedi'u Blocio ym Mis Mawrth 1997

**Jonathan Morgan:** Faint o welyau wedi'u blocio oedd yna ym mis Mawrth 1997, ac a wnaiff y Gweinidog roi'r manylion, ar gyfartaledd, fesul blwyddyn hyd at heddiw? (WAQ33955)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth gymaradwy ar gael cyn mis Ebrill 2002. Yr oedi ar gyfartaledd y mis ar draws Cymru yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2002 a mis Mawrth 2003 oedd 1,037, ac yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2003 a mis Chwefror 2004 mae'n 1,053.

Yn y ddau fis cyntaf ar ôl cyflwyno'r gronfa ddata newydd yn 2002 cofnodwyd nifer annodweddiadol o isel o achosion o oedi—ym mis Ebrill, yr oedd 860 ac ym mis Mai, 998—sy'n awgrymu bod y lefelau uwch yn y misoedd dilynol yn adlewyrchu trefniadau cofnodi mwy cywir efallai.

### Canran Gwelyau wedi'u Blocio yn GIG Cymru

**Jonathan Morgan:** Pa ganran o welyau'r GIG sydd wedi'u blocio yng Nghymru? (WAQ33956)

**Jane Hutt:** Mae'r achosion o oedi a gofnodwyd adeg cyfrifiad mis Chwefror yn gyfrifol am 7.2 y cant o'r gwelyau a oedd ar gael bob dydd ar gyfartaledd o fewn y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwelyau iechyd meddwl, aciwt ac ysbytai cymunedol ac fe'i cyfrifwyd ar sail nifer y gwelyau wedi'u staffio oedd ar gael ar gyfartaledd bob dydd yn 2002-03. Ffynhonnell: bwletin ystadegol SB 92/3003.

**Prif Resymau Dros Flocio Gwelyau**

**Jonathan Morgan:** Beth yw'r prif resymau dros flocio gwelyau yn GIG Cymru? (WAQ33957)

**Jane Hutt:** Yng Nghymru, mae achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio system ddiffinio a chofnodi sy'n cynnwys wyth prif gategori a 45 rheswm dros oedi. Mae'r rhesymau hyn yn cwmpasu oedi am resymau iechyd, gofal cymdeithasol a rhesymau yn ymwneud â'r teulu neu'r claf.

Isod ceir dadansoddiad o'r ffigurau adeg cyfrifiad mis Chwefror 2004 ar sail yr wyth prif gategori:

| | |
|---|---|
| **Rhesymau gofal cymdeithasol** | |
| Yn aros am asesiad gofal yn y gymuned | 50 |
| Yn aros am drefniadau gofal yn y gymuned | 352 |
| **Rhesymau gofal iechyd** | |
| Yn aros am asesiad gofal iechyd | 99 |
| Yn aros am drefniadau gofal iechyd | 189 |
| **Rhesymau'n ymwneud â'r claf/gofalwr/teulu** | |
| Cyfreithiol/ariannol | 21 |
| Anghytuno, er enghraifft, rhwng perthnasau | 41 |
| Dewis/arall | 275 |
| Ni chytunwyd ar y prif reswm | 5 |

**Nifer y Cartrefi Gofal yng Nghymru**

**Jonathan Morgan:** Faint o gartrefi gofal sydd yng Nghymru ar hyn o bryd ac a wnaiff y Gweinidog roi'r ffigurau fesul blwyddyn ar gyfer y chwe blynedd diwethaf? (WAQ33961)

**Jane Hutt:** Mae newidiadau i'r diffiniad cyfreithiol o gartrefi gofal yn Neddf Safonau Gofal 2000, datblygiadau gwasanaeth megis datgofrestru a achoswyd gan ddatblygiadau tai â chymorth a newidiadau yn y ffordd o gyfrif cartrefi bach yn golygu nad yw cymariaethau ar draws y cyfnod hwn yn ddibynadwy Pan gaiff cartref ei werthu, mae'n cau hefyd yn ôl y gyfraith, ond efallai na fydd yn peidio â darparu'r un gwasanaeth o dan berchenogaeth newydd.

Mae ASGC wrthi ar hyn o bryd yn ymgymryd ag ymarferiad mawr i sicrhau ansawdd data. Defnyddir y data sydd gennym ar hyn o bryd isod. Gallai'r ffigurau hyn newid yng ngoleuni'r ymarferiad sicrhau ansawdd, ond maent yn rhoi darlun cyffredinol o'r ddarpariaeth. Gan gadw'r cafeatau sylweddol hyn mewn cof, darperir y ffigurau canlynol er gwybodaeth ichi. Cyfanswm y cartrefi gofal preswyl a nyrsio i oedolion a gofnodwyd gan awdurdodau lleol a awdurdodau iechyd oedd:

| | |
|---|---|
| Ar 31 Mawrth 1999 | 1,355 |
| Ar 31 Mawrth 2000 | 1,351 |
| Ar 31 Mawrth 2001 | 1,355 |

Nodiadau:

1. Nid yw'n cynnwys cartrefi sydd â llai na phedwar gwely;
2. nid oes ffigurau am gartrefi nyrsio ar gael am 1999 oherwydd problemau yn ymwneud ag ansawdd y data. Defnyddir ffigurau 2000 fel amcangyfrif;
3. efallai fod rhai cartrefi sydd â chofrestriad deuol wedi cael eu cyfrif o dan y categori preswyl ac o dan y categori nyrsio.

Dengys data ASGC y cartrefi gofal cofrestredig canlynol i oedolion ar:

| | |
|---|---|
| 31 Mawrth 2003 | 1,606 |
| 29 Chwefror 2004 | 1,402 |

Nodiadau:

1. Yn cynnwys cartrefi sydd â llai na phedwar o leoedd.

**Lleoedd mewn Cartrefi Gofal sydd ar gael yng Nghymru**

**Jonathan Morgan:** Faint o leoedd mewn cartrefi gofal sydd ar gael yng Nghymru heddiw ac a wnaiff y Gweinidog roi'r ffigurau fesul blwyddyn ar gyfer y chwe blynedd diwethaf? (WAQ33962)

**Jane Hutt:** Mae newidiadau i'r diffiniad cyfreithiol o gartrefi gofal yn Neddf Safonau Gofal 2000, datblygiadau gwasanaeth megis datgofrestru a achoswyd gan ddatblygiadau tai â chymorth a newidiadau yn y ffordd o gyfrif cartrefi bach yn golygu nad yw cymariaethau ar draws y cyfnod hwn yn ddibynadwy Pan gaiff cartref ei werthu, mae'n cau hefyd yn ôl y gyfraith, ond efallai na fydd yn peidio â darparu'r un gwasanaeth o dan berchenogaeth newydd.

Mae ASGC wrthi ar hyn o bryd yn ymgymryd ag ymarferiad mawr i sicrhau ansawdd data. Defnyddir y data sydd gennym ar hyn o bryd isod. Gallai'r ffigurau hyn newid yng ngoleuni'r ymarferiad sicrhau ansawdd, ond maent yn rhoi darlun cyffredinol o'r ddarpariaeth. Gan gadw'r cafeatau sylweddol hyn mewn cof, darperir y ffigurau canlynol er gwybodaeth ichi. Cyfanswm cartrefi gofal preswyl a nyrsio i oedolion a gofnodwyd gan awdurdodau lleol a awdurdodau iechyd oedd:

| | |
|---|---|
| Ar 31 Mawrth 1999 | 29,041 |
| Ar 31 Mawrth 2000 | 29,215 |
| Ar 31 Mawrth 2001 | 28,869 |

Nodiadau:

1. Nid yw'n cynnwys lleoedd mewn cartrefi sydd â llai na phedwar gwely;
2. nid oes ffigurau am gartrefi nyrsio ar gael am 1999 oherwydd problemau yn ymwneud ag ansawdd y data. Defnyddir ffigurau 2000 fel amcangyfrif;
3. efallai fod rhai cartrefi sydd â chofrestriad deuol wedi cael eu cyfrif o dan y categori preswyl ac o dan y categori nyrsio.

Dengys data ASGC y lleoedd cofrestredig canlynol mewn cartrefi gofal cofrestredig i oedolion ar:

| | |
|---|---|
| 29 Chwefror 2004 | 27,787 |

Nodiadau:

1. Yn cynnwys lleoedd mewn cartrefi sydd â llai na phedwar gwely.

**Ymgynghoriad Llawn ar Fflworideiddio Cyflenwadau Dŵr**

**Laura Anne Jones:** A fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymgynghoriad llawn cyn gwneud trefniant i fflworideiddio cyflenwadau dŵr, ac os felly, a wnaiff y Gweinidog roi manylion? (WAQ33966)

**Jane Hutt:** Bydd. Gallaf gadarnhau y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal ymgynghoriad llawn cyn gwneud trefniant i fflworideiddio cyflenwadau dŵr. Mae Deddf Dŵr 2003 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad wneud rheoliadau i reoli'r ymgynghoriadau cyhoeddus cyn gwneud cais i gwmni dŵr. Yr wyf yn rhagweld na all y Cynulliad wneud rheoliadau o'r fath tan tua diwedd 2004 fan gynharaf. Bwriadaf ymgynghori ynghylch rheoliadau drafft arfaethedig yn ddiweddarach eleni. Er bod angen i'r rheoliadau ymgynghori sy'n ofynnol o dan Ddeddf Dŵr 2003 gael eu gwneud, ni fyddant o reidrwydd yn arwain at gyflwyno unrhyw gynlluniau fflworideiddio newydd.

**Gwasanaeth Ambiwlans Lleol (Contract Meddygon Teulu Newydd)**

**Lisa Francis:** A yw bwrdd iechyd lleol Gwynedd wedi gwneud unrhyw asesiad o'r dyletswyddau ychwanegol a all gael eu rhoi ar y gwasanaeth ambiwlans lleol o ganlyniad i'r angen i fod ar gael y tu allan i oriau arferol pan ddaw'r contract meddygon teulu newydd i fodolaeth ac, os felly, beth fydd y gost, a beth fydd y dyletswyddau ychwanegol? (WAQ33980)

**Jane Hutt:** Ni ragwelir cynnydd yn nifer y siwrneiau ambiwlans. Mae bwrdd iechyd Gwynedd wedi gwahodd y gwasanaeth ambiwlans i fynychu gweithgorau sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o roi'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol ar waith, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r cynllun terfynol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn dangos beth fydd rôl y gwasanaeth ambiwlans yn y trefniant. Bydd y byrddau iechyd lleol i gyd am sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol clinigol yn cael rhan briodol o fewn modelau gwasanaeth newydd. Dros amser, gallai hyn arwain at gynyddu rôl amryw o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys nyrsys a pharafeddygon.

**Gwasanaeth Ambiwlans (Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd)**

**Lisa Francis:** Pa ymchwil y mae bwrdd iechyd lleol Gwynedd wedi ei gynnal i'r effaith a gaiff y ddarpariaeth y tu allan i oriau arferol ar y gwasanaeth ambiwlans yn yr ardal pan ddaw'r contract meddygon teulu newydd i fodolaeth? (WAQ33981)

**Jane Hutt:** Ni fu unrhyw ymchwil fel y cyfryw. Mae bwrdd iechyd Gwynedd wedi gwahodd y gwasanaeth ambiwlans i fynychu gweithgorau sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o roi'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol ar waith, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r cynllun terfynol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn dangos beth fydd rôl y gwasanaeth ambiwlans yn y trefniant. Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth i awgrymu unrhyw effeithiau negyddol ar y gwasanaeth ambiwlans o ran cynnydd yn y llwyth gwaith. Mae'n bosibl iawn y bydd cyflwyno gwasanaethau blaenoriaethu yn help i ddarparwyr y gwasanaethau brys sicrhau bod galwadau yn cael eu categoreiddio'n briodol.

**Contract Newydd ar gyfer Meddygon Teulu**

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell ac ardaloedd gwledig yn cael eu gwasanaethu'n briodol o dan y contract newydd ar gyfer meddygon teulu? (WAQ33992)

**Jane Hutt:** Dylai pobl mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd anghysbell elwa yn yr un ffordd â gweddill poblogaeth Cymru o'r gwell gwasanaeth y disgwylir i'r contract ei wireddu. Yr ydym yn edrych yn ofalus ar agweddau o'r contract newydd sy'n effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig ac ardaloedd anghysbell. Y gwasanaeth y tu allan i'r oriau arferol yw'r enghraifft fwyaf amlwg, efallai, ac yr ydym yn gwerthuso cynlluniau lleol ar gyfer y gwasanaethau hyn, gyda phwyslais arbennig ar y gallu i gyflawni mewn ardaloedd o'r math hwn.

**Rhaglenni Cyfnewid Nodwyddau yng Nghymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar raglenni cyfnewid nodwyddau yng Nghymru? (WAQ33996) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.***

**Edwina Hart:** Mae model gofal ar gyfer gwasanaethau cyfnewid nodwyddau yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o brosiect y fframwaith triniaeth ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, gyda'r nod o sicrhau cysondeb yn y rhaglenni cyfnewid nodwyddau ar draws Cymru. Mae ymgynghoriad ar y model cyfnewid nodwyddau wedi cael ei ddrafftio a chaiff ei lansio yn fuan iawn.

### Effaith Tyrbinau Gwynt ar Iechyd

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith tyrbinau gwynt ar iechyd, ac os felly a wnaiff gyhoeddi'r asesiad hwnnw? (WAQ34014)

**Jane Hutt:** Nac ydwyf. Fodd bynnag, rhoddwyd sylw i gwestiwn yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ddiweddar am ymchwiliadau i iechyd pobl sy'n byw yng nghyffiniau ffermydd gwynt. Mae Llywodraeth y DU yn credu bod y canllawiau cynllunio presennol ar leoli tyrbinau gwynt yn ddigonol i ddiogelu iechyd pobl. Mae'r ofnau ynglŷn ag effeithiau iechyd tyrbinau gwynt wedi canolbwyntio ar swn amledd isel. Nid yw'r methodolegau a ddefnyddir yn ystod cam y cais cynllunio am fferm wynt i fodloni'r awdurdodau y bydd y lefelau swn ohoni yn dod o fewn lefelau derbyniol yn cynnwys mesur is-swn. Nid ydym yn gwybod am unrhyw dystiolaeth sydd wedi'i dilysu'n wyddonol fod is-swn o dyrbinau gwynt yn effeithio ar iechyd pobl. Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi cwblhau adolygiad manwl o'r corff o dystiolaeth sydd wedi'i gyhoeddi am swn amledd isel a'i effeithiau. Daeth i'r casgliad fod effeithiau swn amledd isel a dirgryniadau o ffermydd gwynt ar lefelau minimol o ran eu heffaith ar iechyd pobl. Yr wyf yn deall y bydd yr Adran Iechyd yn ystyried pa un a oes angen gwaith pellach yn y maes neilltuol hwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Cymunedau yn Gyntaf (Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad)

**Leighton Andrews:** Pa gyfarwyddiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi mewn llythyrau cylch gwaith at gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o fewn ei phortffolio ynghylch mynd i'r afael ag agendâu Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ33319)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Nid oes unrhyw gyrff cyhoeddus gweithredol a noddir gan y Cynulliad yn dod o fewn cyfrifoldebau fy mhortffolio i.

### Cefnogaeth Ariannol ar gyfer Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth ariannol sy'n cael ei rhoi i Glybiau Bechgyn a Merched Cymru ac unrhyw gynlluniau i gynyddu'r gyllideb? (WAQ33526)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ariannu Clwb Bechgyn a Merched Cymru gogyfer â'r gwaith a wna mewn cymunedau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'n derbyn £35,000 yn 2003-04 o dan y cynllun grantiau i fudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol, i'w gynorthwyo i ddarparu gwaith ieuenctid da ar draws Cymru. Mae grant pellach o £37,100 wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2004-05. O ran cymunedau unigol, mae Clwb Bechgyn a Merched Cwm Clydach yn derbyn £48,525 a Chlwb Bechgyn a Merched Penygraig yn derbyn £15,000 yn 2003-04 o dan ein rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol.

### Nod Effeithlonrwydd Ynni Cymru

**Peter Black:** Gan gyfeirio at OAQ32477, a wnaiff y Gweinidog roi amserlen yn nodi pa bryd y mae'n disgwyl datgan nod effeithlonrwydd ynni Cymru o dan y Ddeddf Ynni Cynaliadwy 2003? (WAQ33578)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn y broses o osod amserlen ar gyfer datblygu a chyhoeddi'r nod. Er mwyn gosod amserlen realistig, mae angen inni ystyried nifer o faterion a fydd yn effeithio ar y gwaith o lunio nod. Ymysg y rhain mae rhoi sylw i'r gweithgareddau cyfatebol yn Lloegr, o gofio mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi ynni drwyddo draw ac am lawer o'r polisïau a'r rhaglenni i leihau allyriadau carbon. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried pa gamau ymarferol sydd ar gael inni i gyflawni nod effeithlonrwydd ynni i Gymru. Yr ydym hefyd yn archwilio'r goblygiadau i'n hamcanion presennol, a chyfraniad yr amcanion hynny—amcanion megis y rhai a nodwyd yng nghynllun

gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar effeithlonrwydd ynni, 'Energy Saving Wales', yr ydym yn ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd. Pan fydd hyn oll wedi ei gwblhau, byddaf yn cyhoeddi amserlen.

### Mynd i'r Afael â Fandaliaeth

**Nick Bourne:** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cefnogi o ran mynd i'r afael â fandaliaeth? (WAQ33583)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn annog partneriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru i fynd i'r afael â fandaliaeth a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn ychwanegu'n sylweddol at yr amrywiaeth mesurau sydd ar gael i'r heddlu a'r partneriaethau i fynd i'r afael â fandaliaeth, graffiti, tipio anghyfreithlon a niwsans cyhoeddus arall. Darperir arian sylweddol gan y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref i gefnogi'r mesurau hyn.

### Fandaliaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau am fandaliaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? (WAQ33584)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw sylwadau am fandaliaeth yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Fodd bynnag, deallaf mai Heddlu Dyfed-Powys a gofnododd y nifer isaf o achosion o fandaliaeth droseddol yng Nghymru a Lloegr yn 2002-03: cofnodwyd cyfanswm o 4,920 o achosion yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol o 25,799, sy'n cynrychioli 19 y cant o gyfartaledd Cymru a Lloegr. Dyfed Powys hefyd oedd â'r cyfraddau datrys uchaf yng nghyswllt achosion difrod troseddol: 44 y cant, yn erbyn y cyfartaledd o 13 y cant yng Nghymru a Lloegr.

### Diogelwch Cymunedol

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiogelwch cymunedol? (WAQ33655) [W]

**Edwina Hart:** Un o nodau allweddol 'Cymru: Gwlad Well' yw datblygu cymunedau cadarn a diogel. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â phartneriaethau diogelwch cymunedol ac ag asiantaethau allweddol eraill er mwyn datblygu a chyflawni strategaethau lleol i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin sylweddau.

### Mentrau Adfywio Cymunedol yn Nwyrain Abertawe

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cyllid ar gyfer mentrau adfywio cymunedol yn Nwyrain Abertawe? (WAQ33664)

**Edwina Hart:** O fewn fy mhortffolio i, mae oddeutu £900,000 wedi cael ei ddyfarnu i brosiectau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, sydd hefyd wedi elwa o oddeutu £300,000 ar gyfer gweithgareddau chwarae ac adloniant i blant a phobl ifanc, a chynlluniau trafnidiaeth a diogelwch. Mae cronfa adfywio lleol yr awdurdodau lleol, lle nad oes angen arian cyfatebol, wedi cynorthwyo Canolfan Byw'n Iach Bôn-y-Maen a'r Cylch gyda grant o £103,500. Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol (sy'n cynnwys cronfa adfywio lleol y sector cymunedol/gwirfoddol gynt) wedi darparu £15,000 i 104 Community House, a £312,400 i gynllun grantiau bach Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe sy'n gweithredu ar draws y sir.

### Egwyddor Cyfle Cyfartal

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag awdurdodau lleol yn ymwneud â hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal? (WAQ33825)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn trafod yr holl faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal.

**Cofrestru Tai Amlfeddiannaeth**

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymwneud â'r broses o gofrestru tai amlfeddiannaeth yng Nghymru ar ôl i'r Mesur Tai dderbyn Cydsyniad Brenhinol? (WAQ33826)

**Edwina Hart:** Trwyddedu gorfodol ac ychwanegol a gyflwynir yn y Mesur Tai, nid cynlluniau cofrestru. Mae Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad agos â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog wrth i'r Mesur gael ei drafod yn y Senedd.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

**Irene James:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio gydag awdurdodau perthnasol eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau yng Nghymru? (WAQ33827)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog gweithio drwy bartneriaeth gryf ar draws Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati i ymladd ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd gydgysylltiedig, amlasiantaethol. Partneriaethau diogelwch cymunedol sy'n arwain ar lefel leol ac mae sawl un wedi sefydlu unedau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ddod â staff ynghyd o'r heddlu, yr awdurdod lleol, y gwasanaeth tân ac asiantaethau partner eraill. Mae mesurau i ymladd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cefnogi drwy gyllid sylweddol o du'r Cynulliad a'r Swyddfa Gartref, yn cynnwys £25,000 i bob partneriaeth yn flynyddol i ariannu cyd-gysylltydd ymddygiad gwrthgymdeithasol tra bo Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn dod ag amrywiaeth eang o arfau statudol ymarferol ynghyd.

**Cynnydd yn y Cyffuriau Anghyfreithlon sydd ar Gael**

**Irene James:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y cyffuriau anghyfreithlon sydd ar gael mewn cymunedau yng Nghymru? (WAQ33828)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi Ymgyrch Tarian—ymateb heddluoedd Cymru i'r bygythiad y bydd mwy o gyffuriau dosbarth A yn llifo i mewn i'r wlad, a'r troseddu cyfundrefnol a ddeuai yn sgîl hynny. Mae'r ymgyrch eisoes yn amharu'n ddifrifol ar y cyflenwad o grac cocên a heroin, gan fod yr awdurdodau wedi cipio cryn lawer o'r cyffuriau hyn.

**Trechu Tlodi yng Nghymru**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau cyllideb y Canghellor i raglen Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru? (WAQ33829)

**Edwina Hart:** Dros y tair blynedd nesaf mae'r gyllideb yn sicrhau y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael eu defnyddio i wella'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd proses adolygiad o wariant Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu sut y gall yr arian hwn wasanaethu pobl Cymru orau.

**Camddefnyddio Sylweddau**

**Brynle Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ardal y Gogledd? (WAQ33830)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau drwy roi ein strategaeth genedlaethol ar waith. Mae'r chwe phartneriaeth diogelwch cymunedol yn y Gogledd, megis pob partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru, wedi datblygu cynlluniau lleol i roi'r strategaeth ar waith a darparu gwasanaethau sy'n briodol i anghenion eu cymunedau eu hunain. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae dros £1.6 miliwn wedi cael ei ddyrannu rhyngddynt o'r gronfa weithredu gogyfer â chamddefnyddio sylweddau yn 2004-05.

### Cyfarfodydd Diweddar gyda Chynrychiolwyr Heddluoedd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyfarfodydd diweddar gyda chynrychiolwyr heddluoedd yng Nghymru? (WAQ33831)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda phrif gwnstabliaid Cymru a chadeiryddion awdurdodau'r heddlu i gynnal trafodaethau eang eu cwmpas am ddiogelwch cymunedol yn ei gyfanrwydd. Mae'r deialog hwn yn sylfaen i'r nod cyffredin rhwng pob un ohonom o greu cymunedau mwy diogel ar draws Cymru.

### Gwahardd Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiolrwydd y mesurau a gyflwynwyd i wahardd yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ33832)

**Edwina Hart:** Nid yw gorchmynion dynodi i gyfyngu ar yfed gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus yn ddim ond un elfen mewn pecyn o fesurau i fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol ar y strydoedd. Nid yw effaith lawn y gorchmynion diweddaraf yng Nghymru wedi cael ei gwerthuso'n ffurfiol eto, ond mae'r troseddau treisgar a gofnodwyd dros flwyddyn mewn un ardal ddynodedig, yn y Rhyl, yn awgrymu bod y gorchymyn wedi cyfrannu tuag at ostyngiad sylweddol yn nifer yr ymosodiadau lle mae alcohol yn ffactor. Gall gorchmynion dynodi effeithio hefyd ar anhrefn ac yfed o dan oed a bod yn fodd i dawelu meddyliau'r cyhoedd.

### Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol

**Rosemary Butler:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau perthnasol eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn cymunedau yng Nghymru? (WAQ33833)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog gweithio drwy bartneriaeth gryf ar draws Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati i ymladd ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd gydgysylltiedig, amlasiantaethol. Partneriaethau diogelwch cymunedol sy'n arwain ar lefel leol ac mae sawl un wedi sefydlu unedau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ddod â staff ynghyd o'r heddlu, yr awdurdod lleol, y gwasanaeth tân ac asiantaethau partner eraill. Mae mesurau i ymladd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cefnogi drwy gyllid sylweddol o du'r Cynulliad a'r Swyddfa Gartref, yn cynnwys £25,000 i bob partneriaeth yn flynyddol i ariannu cyd-gysylltydd ymddygiad gwrthgymdeithasol tra bo Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn dod ag amrywiaeth eang o arfau statudol ymarferol ynghyd.

### Mynd i'r Afael â Thlodi yng Nghymru

**Nick Bourne:** Beth sydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? (WAQ33834)

**Edwina Hart:** Mae fy adroddiad ar gyfiawnder cymdeithasol am 2004 yn nodi'r ystod polisïau a rhaglenni o fewn fy mhortffolio sy'n effeithio ar dlodi yng Nghymru.

**Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Nwyrain De Cymru**

**Laura Anne Jones:** Sut y mae'r Cynulliad yn gweithio gyda heddluoedd lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nwyrain De Cymru? (WAQ33835)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r partneriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru wrth iddynt roi strategaethau lleol ar waith i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r heddlu yn bartneriaid allweddol ar bob partneriaeth diogelwch cymunedol, yn cynnwys yn y De-ddwyrain.

**Ymchwiliad Rees**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd ymchwiliad Rees i addysg uwch yn helpu i gyflawni amcanion agenda cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ33836)

**Edwina Hart:** Cyhoeddwyd cylch gorchwyl adolygiad yr Athro Rees gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 11 Chwefror 2004. Gofynnwyd yn benodol i'r Athro Rees ystyried sut y gallai'r pwerau cefnogi myfyrwyr sydd newydd gael eu trosglwyddo gael eu defnyddio i hybu mynediad i addysg uwch i'r dysgwyr lleiaf breintiedig, ac i archwilio effaith gwahanol gyfundrefnau ffioedd hyfforddi yng Nghymru ar fyfyrwyr sy'n wynebu caledi.

**Camddefnyddio Alcohol**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yng Nghymru? (WAQ33838)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn fod mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol lawn cyn bwysiced â mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau, a dyna pam yr ydym wedi cynnwys alcohol yn ein strategaeth genedlaethol. Mae'r 22 partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru wedi datblygu cynlluniau gweithredu lleol i roi'r strategaeth ar waith ac maent wedi ystyried y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio alcohol.

Yr wyf hefyd mewn trafodaethau ag awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a CLlLC ynglŷn â'r deddfau trwyddedu newydd a'r mesurau y gellir eu cymryd i annog yfed yn synhwyrol ac i fynd i'r afael ag ymddygiad afreolus.

**Gwelyau Preswyl yn y Gogledd ar gyfer Trin Camddefnyddwyr Sylweddau**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o welyau preswyl sydd yn y Gogledd ar gyfer trin camddefnyddwyr sylweddau? (WAQ33839)

**Edwina Hart:** Mae 33 o welyau ar gael yn y Gogledd ar gyfer trin camddefnyddwyr sylweddau. Maent wedi'u lleoli fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Hafan Wen, Wrecsam | 24 gwely |
| Ysbyty Gwynedd | 2 gwely |
| Ty'n Rodyn, Bangor | 7 gwely |

**Cyfnod Hiraf a Gymerwyd cyn Ymateb i Lythyr**

**Peter Black:** Beth yw'r cyfnod hiraf o amser y mae'r Gweinidog wedi ei dreulio cyn ymateb i lythyr? (WAQ38555)

**Edwina Hart:** Hanner cant a phump o ddiwrnodau gwaith. Er bod hyn gryn lawer yn hwy na'r amser a gymerir ar gyfartaledd i ymateb i lythyron (10 diwrnod gwaith), mae angen mwy o amser i ymateb i rai llythyrau er mwyn gallu llunio ymateb cynhwysfawr. Yn gyffredinol, mae angen mwy o amser pan fydd rhaid ymgynghori ag adrannau Llywodraeth y DU neu gyrff allanol.

### Yr Amser ar Gyfartaledd a Gymerwyd cyn Ymateb i Lythyron oddi wrth Aelodau'r Cynulliad

**Peter Black:** Ar gyfartaledd, faint o amser mae'r Gweinidog wedi ei dreulio cyn ymateb i lythyron oddi wrth Aelodau'r Cynulliad? (WAQ33856)

**Edwina Hart:** Naw diwrnod gwaith.

### Terfynau Amser ar gyfer ateb Gohebiaeth

**Peter Black:** Faint o amser mae'r Gweinidog yn caniatáu iddi'i hun er mwyn ateb gohebiaeth a sawl gwaith y mae wedi methu â chadw at yr amser hwnnw? (WAQ33857)

**Edwina Hart:** Er nad oes terfynau amser wedi cael eu pennu ar gyfer ymateb i ohebiaeth, y drefn arferol yw bod y swyddogion yn prosesu gohebiaeth o fewn 17 diwrnod gwaith. Yr wyf wedi ymateb i 92 y cant o'm gohebiaeth weinidogol o fewn 17 diwrnod gwaith.

### Contractau Ymddygiad Derbyniol

**Ann Jones:** Faint o gontractau ymddygiad derbyniol sydd mewn grym ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru? (WAQ33858)

**Edwina Hart:** Ym mis Rhagfyr 2003 yr oedd 108 o gontractau ymddygiad derbyniol mewn grym yng Nghymru. Rhydd y tabl isod ddadansoddiad fesul ardal awdurdod lleol.

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer y contractau mewn grym** |
|---|---:|
| Blaenau Gwent | 6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 |
| Caerffili | 24 |
| Caerdydd | 12 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 |
| Ceredigion | 0 |
| Conwy | 6 |
| Sir Ddinbych | 0 |
| Sir y Fflint | 10 |
| Gwynedd | 0 |
| Merthyr Tudful | 9 |
| Sir Fynwy | 1 |
| Casnewydd | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5 |
| Sir Benfro | 5 |
| Powys | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 4 |
| Abertawe | 21 |
| Tor-faen | 2 |
| Bro Morgannwg | 0 |
| Wrecsam | 3 |
| Ynys Môn | 0 |
| **Cyfanswm** | **108** |

## Tai Gwag yn mhob ardal Awdurdod Lleol

**Ann Jones:** Faint o dai gwag sydd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru? (WAQ33859)

**Edwina Hart:** Rhoddir gwybodaeth am nifer yr anheddau gwag yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru yn y tabl canlynol:

**Anheddau gwag ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar 1 Ebrill 2001.**

| | Pob aelwyd heb breswylwyr: Gwag | Pob aelwyd heb breswylwyr: ail gartref / llety gwyliau | Cyfanswm yr aelwydydd heb breswylwyr fel arfer |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 1,524 | 1,163 | 2,687 |
| Gwynedd | 3,112 | 4,437 | 7,549 |
| Conwy | 2,291 | 1,143 | 3,434 |
| Sir Ddinbych | 1,431 | 347 | 1,778 |
| Sir y Fflint | 1,751 | 130 | 1,881 |
| Wrecsam | 1,700 | 119 | 1,819 |
| Powys | 2,278 | 1,256 | 3,534 |
| Ceredigion | 1,150 | 964 | 2,114 |
| Sir Benfro | 2,788 | 3,322 | 6,110 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,574 | 510 | 4,084 |
| Abertawe | 4,452 | 698 | 5,150 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,889 | 108 | 2,997 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,816 | 142 | 1,958 |
| Bro Morgannwg | 2,077 | 179 | 2,256 |
| Caerdydd | 3,629 | 267 | 3,896 |
| Rhondda Cynon Taf | 4,599 | 160 | 4,759 |
| Merthyr Tudful | 1,391 | 48 | 1,439 |
| Caerffili | 2,600 | 79 | 2,679 |
| Blaenau Gwent | 1,765 | 37 | 1,802 |
| Tor-faen | 1,117 | 37 | 1,154 |
| Sir Fynwy | 1,322 | 280 | 1,602 |
| Casnewydd | 1,996 | 90 | 2,086 |
| **Cymru** | **51,252** | **15,516** | **66,768** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001

## Pobl Ddigartref ym Mhob Ardal Awdurdod Lleol

**Ann Jones:** Faint o bobl ddigartref sydd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru? (WAQ33860)

**Edwina Hart:** Dim ond ar lefel aelwydydd y mae gwybodaeth am y penderfyniadau a wneir gan yr awdurdodau lleol am ddigartrefedd yng Nghymru ar gael. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr aelwydydd a dderbyniwyd fel rhai digartref yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod 2002-03.

**Nifer yr aelwydydd a dderbyniwyd fel rhai digartref yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru: 2002-03**

| | Nifer yr aelwydydd cymwys, digartref yn anfwriadol, ag anghenion y rhoddir blaenoriaeth iddynt* |
|---|---:|
| | |
| Ynys Môn | 128 |
| Gwynedd | 248 |
| Conwy | 213 |
| Sir Ddinbych | 120 |

| | |
|---|---|
| Sir y Fflint | 271 |
| Wrecsam | 211 |
| Powys | 307 |
| Ceredigion | 153 |
| Sir Benfro | 341 |
| Sir Gaerfyrddin | 400 |
| Abertawe | 768 |
| Castell-nedd Port Talbot | 182 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 569 |
| Bro Morgannwg | 231 |
| Caerdydd | 971 |
| Rhondda Cynon Taf | 571 |
| Merthyr Tudful | 118 |
| Caerffili | 456 |
| Blaenau Gwent | 71 |
| Tor-faen | 397 |
| Sir Fynwy | 97 |
| Casnewydd | 142 |
| **Cymru** | **6,965** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru: Datganiadau ystadegol WHO12.

*'Cymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac ag anghenion y rhoddir blaenoriaeth iddynt' yn unol â'r diffiniad o dan Rhan VII o Ddeddf Tai 1996.

**Unedau Tai Cymdeithasol**

**Ann Jones:** Faint o unedau o dai cymdeithasol sydd wedi methu â chyrraedd y safon tai derbyniol sy'n bodoli ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru? (WAQ33861)

**Edwina Hart:** Dim ond yn Lloegr y mae'r safon tai derbyniol mewn grym.

**Tai Amlfeddiannaeth sydd yn Gymwys i Dalu Ardrethi Busnes**

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwneud perchnogion tai amlfeddiannaeth yn gymwys i dalu ardrethi busnes? (WAQ33863)

**Edwina Hart:** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1992 yn diffinio annedd at ddibenion codi treth gyngor fel eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfangwbl fel annedd preifat. Mae eiddo domestig (sy'n cynnwys tai amlfeddiannaeth) yn ddarostyngedig i'r dreth gyngor felly yn hytrach na threthi busnes.

Byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol i newid y trefniadau hyn.

**Amddifadedd yn Nwyrain Abertawe**

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael ag amddifadedd yn Nwyrain Abertawe? (WAQ33865)

**Edwina Hart:** Mae polisïau a rhaglenni ar draws fy mhortffolio yn anelu at leihau amddifadedd. Mae Dwyrain Abertawe wedi elwa'n uniongyrchol yn sgîl targedu adnoddau at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

**Yfed Dan Oed**

**Sandy Mewies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael ag yfed dan oed? (WAQ33871)

**Edwina Hart:** Un o amcanion allweddol strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gamddefnyddio sylweddau yw lleihau'r gyfran o bobl ifanc o dan 18 sy'n meddwi. Erbyn hyn mae pob un o'r partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru wedi sefydlu cynlluniau gweithredu i roi'r strategaeth genedlaethol ar waith yn lleol.

**Cyllid y Cynulliad a Ddyrannwyd i Sir y Fflint**

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid y Cynulliad, sy'n perthyn yn benodol i bortffolio'r Gweinidog, sydd wedi'i ddyrannu i Sir y Fflint ers Mai 2003? (WAQ33873)

**Edwina Hart:** Mae'r wybodaeth fel a ganlyn:

**Y Sector Gwirfoddol**
Mae'r cynllun gwasanaethau gwirfoddol lleol yn darparu cyllid i'r 19 cyngor gwirfoddol sirol yng Nghymru. Mae'r gyllideb gyfan ar gyfer 2003-04 yn £2.629 miliwn, y mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint wedi derbyn £111,670 ohono.

**Adfywio**
Cafodd Groundwork Sir y Fflint gyllid craidd o £67,000 yn 2003-04.

Cronfa adfywio lleol yr awdurdodau lleol heb arian cyfatebol—ni wnaed unrhyw ddyraniadau newydd wrth i'r cynllun gael ei adolygu, ond mae'r taliadau i Sir y Fflint eleni yn £636,237 i gyd.

Y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol (sy'n cynnwys cronfa adfywio lleol y sector cymunedol/gwirfoddol)—gwnaed ymrwymiadau newydd o £370,000 ym mis Awst 2003 i bedwar prosiect gwirfoddol gwahanol. Ymysg y taliadau eleni ar gyfer ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes mae: Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, £128,748 ar gyfer ei grantiau bach a chymorth i'r sector; a Refurbs Sir y Fflint, £77,297 ar gyfer cynllun ailgylchu dodrefn.

Mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yn cael cyllid oddi wrth y Cynulliad er mwyn darparu cymorth grant i brosiectau mewn hen ardaloedd glofaol. Mae wedi rhoi grantiau gwerth £95,113 yn Sir y Fflint: i Youth Action, Ymddiriedolaeth Broli Cymraeg Cyf, Cyngor Sir y Fflint, a llwybr y mileniwm yn Nhrelawnyd a Gwaenysgor.

**Cymunedau yn Gyntaf**
Mae pum ardal Cymunedau yn Gyntaf yn Sir y Fflint—Ward Castell yn y Fflint, oedd yn safle 75 ar fynegai amlamddifadedd Cymru; Higher Aston, Shotton, Cymdogaethau Treffynnon ac Ystâd Bryn Gwalia, sy'n bocedi o amddifadedd; a Gogledd Gwledig Sir y Fflint, sy'n gynnig llawn dychymyg.

Dyfarnwyd cyfanswm o £720,381.63 i amryw o brosiectau paratoadol a fydd o fudd i'r pum ardal hyd at fis Mawrth 2004. Mae £582,415.64 o'r arian hwn wedi cael ei dalu hyd yma.

Mae'r ardaloedd hefyd wedi elwa o £400,000 ym mis Rhagfyr 2002 i ddarparu gweithgareddau chwarae ac adloniant ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â chynlluniau trafnidiaeth a diogelwch. Yn ogystal, dyfarnwyd cyllid o £67,000 i gronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf.

**Tai**
Dyrannwyd cymeradwyaeth gredyd atodol o £1,342 miliwn i gynlluniau tai strategol (rhoddwyd y gymeradwyaeth gredyd atodol ym mis Ebrill 2003). Proseswyd £71,125 (50 y cant o gost ei arolwg cyflwr tai lleol) i gael ei dalu i Sir y Fflint ar 12 Mawrth.

Darparwyd £7.541 miliwn o gyllid ar gyfer Cefnogi Pobl.

Cynllun effeithlonrwydd ynni cartref—£810,000.

Diogelwch Tân Cymunedol—£70,000 wedi'i ddyrannu at osod larymau mwg wedi'u weirio i mewn i dai.

Mae'r grant tai cymdeithasol yn £2.22 miliwn, gydag ychwanegiad cymorth prynu cartref o £42,000.

Cyllid adran 180 a ddyrannwyd i Sir y Fflint drwy fudiad gwirfoddol:
- YMCA llety preifat ar rent a bond—£43,889
- YMCA cynllun bondiau Sir y Fflint—£18,264.

**Diogelwch Cymunedol**
Dyrannwyd y symiau canlynol i bartneriaeth diogelwch cymunedol Sir y Fflint: £46,341 yn 2003-04, £127,721 yn 2004-05 ac £194,932 yn 2005-06 (cyfanswm o £368,994) o gronfa cymunedau diogelach y Cynulliad.

Dyrannwyd swm ychwanegol o £120,000 hefyd i'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn 2004-05, 2005-06 a 2006-07 (cyfanswm o £360,000) o gronfa cynllun gweithredu'r Cynulliad ar gamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn dod â chyfanswm eu dyraniad camddefnyddio sylweddau bob blwyddyn i £287,030 (yr oedd £166,848 wedi cael ei ddyrannu cyn mis Mai 2003).

Mae'r Cynulliad wedi dyrannu £82,250 i brosiect cam-drin yn y cartref gogledd Cymru yn 2003-04, £160,500 yn 2004-05, £160,500 yn 2005-06. Mae'r prosiect yn ariannu rheolwr a chwe chyd-gysylltydd trais yn y cartref ar draws gogledd Cymru, ac mae un ohonynt yn gwasanaethu ardal Sir y Fflint. Nid ydym yn gallu rhoi'r union gost a briodolir i'r cyd-gysylltydd yn Sir y Fflint.

### Y Gronfa Ddatblygu Swyddfeydd Post (Sir y Fflint)

**Carl Sargeant:** Pa swyddfeydd post yn sir y Fflint sydd wedi cael cymorth gan y gronfa ddatblygu? (WAQ33909)

**Edwina Hart:** Nid oes swyddfeydd post yn sir y Fflint wedi cael cymorth o dan gylchoedd 1 na 2 cronfa ddatblygu swyddfeydd post. Nid wyf eto wedi gwneud cyhoeddiad ynglŷn â'r dyfarniadau o dan gylchoedd 3 a 4.

### Targed Strategaeth Dai Genedlaethol

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith i gyrraedd targed y strategaeth dai genedlaethol i godi 38,000 o gartrefi o dlodi tanwydd yng Nghymru? (WAQ33986)

**Edwina Hart:** Fel a nodwyd yn strategaeth dai genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' ac 'Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru' y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw'r prif gyfrwng yr ydym yn dibynnu arno i godi cartrefi o dlodi tanwydd. Mae'r cynllun yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n debygol o daro ein targed o gynorthwyo 38,000 o gartrefi bregus yng Nghymru erbyn 31 Mawrth 2004.

### Gwaith Undebau Credyd

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynorthwyo gwaith undebau credyd? (WAQ33989)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi darparu bron i £1.5 miliwn o arian Cynulliad gogyfer â'r strategaeth undebau credyd i Gymru dros y tair blynedd diwethaf, sy'n tanlinellu ein hymrwymiad i ddatblygu undebau credyd yng Nghymru. Mae hyn wedi galluogi Canolfan Gydweithredol Cymru i fanteisio ar dros

£4 miliwn i gyd o gyllid o gronfeydd strwythurol Ewrop. Mae'r prosiect wedi arwain at gynyddu aelodaeth yr undebau credyd deirgwaith drosodd bron, a chynnydd o 150 y cant yn yr arian a roddir ar gadw.

Byddwn yn parhau i gefnogi undebau credyd drwy gronfa grantiau a bwrsarïau a fydd, gydag arian o du'r Cynulliad Cenedlaethol ac Ewrop, yn darparu £1.5 miliwn pellach dros dair blynedd i undebau credyd yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru.

### Effaith Prisiau Cynyddol Tai

**Nick Bourne:** A oes astudiaethau ar y gweill i asesu effaith prisiau cynyddol tai ar bobl sy'n prynu am y tro cyntaf mewn ardaloedd gwledig? (WAQ33990)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i gynnal astudiaeth i farchnadoedd tai gwledig, a bydd yn adrodd yn yr haf. Mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i ganfod a yw perchentyaeth yn fforddiadwy i brynwyr tro cyntaf. Mae fy swyddogion hefyd yn gwneud ymchwil yn fewnol i fforddiadwyedd a'r galw am dai.

### Paneli Ynni Haul

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa grantiau sydd ar gael i gynorthwyo trigolion yng Nghymru i osod paneli ynni haul yn eu tai ar gyfer ynni solar? (WAQ34043)

**Edwina Hart:** Yr Adran Masnach a Diwydiant sy'n gyfrifol am hyrwyddo ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfarnu cyllid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i osod cyfarpar ynni haul i dwymo dŵr mewn tai cymdeithasol newydd, drwy'r rhaglen arloesi ar gyfer tai cymdeithasol.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Tir ger Safle Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** A wnaiff cynrychiolydd o Bwyllgor y Tŷ ddatganiad ar y cynlluniau i gael tir ychwanegol ger safle adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ33142)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Nid oes gennyf ddim ymhellach i'w ychwanegu at yr hyn a ddywedais yn y Siambr ar 11 Chwefror.